Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

# Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015–16

Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

# Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015–16

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i'r Senedd yn unol ag adran 1(4) o Ddeddf Llysoedd 2003 ac adran 39(3) o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007.

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 ac i Dŷ'r Arglwyddi drwy Orchymyn Ei Mawrhydi.

Gorchmynnwyd eu hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 7 Gorffennaf 2016.

HC 239

© Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i wefan nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi gwybodaeth am hawlfraint sy'n eiddo i drydydd parti, bydd yn rhaid i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:
HM Courts & Tribunals Service Communications Team, 10th Floor, 10.31 102 Petty France, Llundain SW1H 9AJ
E-bost: HMCTS.Communications@hmcts.gsi.gov.uk

ISBN Argraffu 9781474134019
ISBN y We 9781474134026

ID 03061622 07/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf o ffeibrau a ailgylchwyd.

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adran 1: Cyflwyniadau** | **3** |
| 1.1 Cyflwyniad gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd | 5 |
| 1.2 Rhagair a chyflwyniad gan y Prif Weithredwr, Kevin Sadler, Prif Swyddog Gweithredol dros dro | 7 |
| 1.3 Rhagair gan Robert Ayling, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | 9 |
| **Adran 2: Ein perfformiad** | **11** |
| 2.1 Amdanom ni – pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud | 13 |
| 2.2 Ein perfformiad: cyflawni blaenoriaethau ac amcanion 2015–16 | 18 |
| 2.3 Gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau ar gyfer 2016–17 | 30 |
| 2.4 Ein perfformiad mewn meysydd eraill y mae'n ofynnol adrodd arnynt | 34 |
| 2.4.1 Cyllid | 34 |
| 2.4.2 Cynaliadwyedd | 34 |
| 2.4.3 Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol yn 2015–16 | 39 |
| **Adran 3: Ein hadroddiad ar reolaethau, llywodraethu ac atebolrwydd** | **41** |
| 3.1 Ein strwythur yn 2015–16: ein staff a'n strwythur rheoli uwch | 43 |
| 3.1.1 Ein staff | 43 |
| 3.1.2 Sut rydym yn gweithio – Partneriaeth yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd: Y Ddogfen Fframwaith. | 55 |
| 3.1.3 Bwrdd ac uwch dîm rheoli GLlTEM | 56 |
| 3.2 Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol | 60 |
| 3.3 Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 68 |
| 3.4. Datganiad llywodraethu | 69 |
| 3.5 Heriau cyfredol wrth reoli | 80 |
| 3.6 Adroddiad atebolrwydd Seneddol | 82 |
| **Adran 4: Craffu allanol** | **85** |
| 4.1 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol | 87 |
| **Adran 5: Ein gwariant** | **89** |
| 5.1 Cyfrifon | 91 |
| 5.2 Nodiadau i'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 | 95 |

Cynnwys

# Adran 1: Cyflwyniadau

## 1.1 Cyflwyniad gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gyfrifol am weinyddu'r llysoedd troseddol, sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr; ac am fwyafrif y tribiwnlysoedd yn Lloegr, yn ogystal â'r holl dribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn falch iawn bod cyllid wedi'i sicrhau i alluogi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i gychwyn ar y rhaglen ddiwygio fwyaf uchelgeisiol erioed yn y system gyfiawnder. Yn 2015–16 datblygwyd cynlluniau ar gyfer diwygio; ar drothwy 2016–17 rydym yn gweld dechrau ar newidiadau a fydd yn gefn i'r system gyfiawnder am flynyddoedd lawer i ddod. Rydym yn diolch i bawb am eu cyfraniad cydweithredol i'r ddadl ar Ddiwygio; ac rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r gwahanol Grwpiau Ymgysylltu Barnwrol, y Cyfarwyddwyr Cyflawni rhanbarthol a'u timau a'r holl staff sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen.

Rydym eisoes wedi dechrau digideiddio rhai gwasanaethau er mwyn darparu mynediad symlach a chyflymach at gyfiawnder. Ymhlith y rhain mae:

**Cyflwyno help gyda ffioedd**: ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i bobl wneud cais am help gyda'u ffioedd llys a thribiwnlys.

**Ehangu gwasanaethau fideo**: rydym wedi dechrau cyflwyno ffordd hollol newydd o gynnal ymgyfreitha troseddol, lle mai'r unig ymddangosiadau personol yn y llys fydd rhai mewn treialon a dedfrydu mewn achosion sydd o bwys mawr. Mae dull tebyg yn cael ei ddatblygu'n awr mewn gwaith sifil a theulu a thribiwnlysoedd. Er mwyn sicrhau gwasanaeth digidol symlach, gosodwyd systemau TG uwchraddedig mewn 130 o safleoedd Llys y Goron, llysoedd ynadon a llysoedd sifil; bydd 100 o lysoedd a 17 o safleoedd tribiwnlysoedd yn cael eu cwblhau yn haf y flwyddyn hon.

**Y 'llwyfan cyffredin'**: rhan o raglen y System Cyfiawnder Troseddol sy'n datblygu proses ddigidol unedig ar gyfer staff GLlTEM a Gwasanaeth Erlyn y Goron, cyfreithwyr amddiffyn a'r heddlu.

**Trawsnewid cyfiawnder diannod a Rheoli Achosion yn Well**: mae'r mentrau hyn eisoes yn lleihau oedi yn y llysoedd troseddol, gyda llai o wrandawiadau mewn achosion ar gyfartaledd a mwy o dreialon sy'n effeithiol y tro cyntaf y maent yn cael eu rhestru ar gyfer eu gwrando.

Ar thema cydweithio, roedd hyn yn amlwg hefyd yn y trafodaethau a gafwyd y flwyddyn ddiwethaf ar ddyfodol yr ystad llysoedd a thribiwnlysoedd. Rydym yn ddiolchgar am yr holl sylwadau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad, ac yn ffyddiog y bydd y llwybr rydym yn ei ddilyn yn cyfrannu at ddiwygio a moderneiddio hanfodol yn y gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd, gan sicrhau bod mynediad at gyfiawnder wedi'i ddiogelu.

Er gwaethaf y pwyslais mawr ar ddiwygio dros y flwyddyn ddiwethaf, mae perfformiad ar weinyddu gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd o ddydd i ddydd wedi'i gynnal yn rhagorol, ac wedi gwella mewn nifer o feysydd.  Rydym yn llongyfarch ac yn diolch i'r holl staff a barnwyr sydd wedi gwneud hyn yn bosibl drwy eu hymrwymiad a'u hymroddiad.

Yn olaf, hoffem ddiolch eleni i Natalie Ceeney am ei gwaith yn hyrwyddo'r broses o drawsnewid y mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi dechrau arni.

**Y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS**
**Yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

**Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Thomas o Gwmgiedd**
**Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr**

**Y Gwir Anrhydeddus Syr Ernest Ryder**
**Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd**

## 1.2 Rhagair a chyflwyniad gan y Prif Weithredwr, Kevin Sadler, Prif Swyddog Gweithredol dros dro

Rwyf yn falch iawn o ysgrifennu'r rhagair hwn i Adroddiad Blynyddol GLlTEM. Y flwyddyn ddiwethaf, nododd Natalie Ceeney yn y rhagair hwn mai'r hyn y byddai'n canolbwyntio arno, fel Prif Weithredwr, oedd Diwygio GLlTEM, ac ym mis Tachwedd cadarnhaodd y Canghellor ein bod wedi sicrhau cyllid o fwy na £700 miliwn i sicrhau'r trawsnewid sylfaenol y mae ar ein gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd ei angen. Roedd hyn yn gadarnhad o ymddiriedaeth nid yn unig yn ein cynlluniau a gallu ein staff i'w cyflawni, ond hefyd yn y math o wasanaeth rydym i gyd am ei ddarparu i bawb sy'n ei ddefnyddio.

Fel y mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos, cafwyd cynnydd sylweddol ar foderneiddio ein gwasanaeth yn yr holl awdurdodaethau. Mae ein llysoedd troseddol wedi'u galluogi i weithio'n ddigidol yn awr, ac mae Wi-Fi ar gael i'r holl ddefnyddwyr proffesiynol a thechnoleg ar waith i ganiatáu lanlwytho a dangos tystiolaeth yn ddigidol. Mae ein System Achosion Digidol newydd ar gyfer Llys y Goron eisoes wedi ein harbed rhag argraffu pentwr o bapur a fyddai'n fwy nag adeilad y Shard. Bellach mae tua 90% o'r holl hawliadau i dribiwnlysoedd cyflogaeth yn cael eu cyflwyno ar-lein, ac mae ymgeisio am help gyda ffioedd llys neu dribiwnlys yn haws nag erioed.

Mae'r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau pobl, fel y mae'r gwaith a wneir gan gydweithwyr o ddydd i ddydd, ac rwyf wrth fy modd ein bod wedi gallu sicrhau rhagor o welliannau yn ein perfformiad gweithredol eleni ar gyllideb sy'n lleihau. Boed drwy leihau amseroedd aros mewn achosion troseddol difrifol, neu drwy gwblhau achosion sy'n ymwneud â chystodaeth a chyswllt rhieni â phlant o fewn 14 wythnos (pythefnos yn gynt na'r targed o 16 wythnos), mae'r gwasanaeth i'n cwsmeriaid yn gwella drwy waith caled pawb sydd yn GLlTEM.

Rwyf yn gwybod ar ôl gweithio am saith mlynedd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd fod pawb sy'n gweithio yma wedi ymrwymo'n gadarn i'r system y maent yn ei chynnal a'u bod am ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf posibl i'r rheini sy'n dod i gysylltiad â ni. Am hynny, rwyf yn diolch o waelod calon.

Mae'n anochel bod trawsnewid ar y raddfa hon yn codi her ac ansicrwydd, i'r bobl sy'n rhedeg y system yn anad neb. Mae natur ein hystad yn newid, a'r flwyddyn hon cafwyd cadarnhad y bydd 86 o safleoedd yn cau dros y ddwy flynedd nesaf. Er bod hyn yn rhan hanfodol o'n cynlluniau, nid wyf yn bychanu maint yr effaith y mae cau adeiladau llys yn gallu ei chael ar y rheini sy'n gweithio ynddynt nac ar y cymunedau o'u cwmpas. Mae'r Bwrdd wedi bod yn gwbl glir bod mynediad at gyfiawnder yn ffactor allweddol wrth benderfynu natur ein hystad – mewn ystyr ffisegol a rhithwir – ac rydym yn parhau i gynnig cymorth i'r cydweithwyr hynny sy'n profi'r effaith fwyaf o gau safleoedd.

Rwyf yn sicr y bydd her yn parhau'n gymaint o thema â newid yn y flwyddyn sydd i ddod, ond rwyf hefyd yn gwybod pa mor gryf yw'r cydymrwymiad o fewn y farnwriaeth, yr uwch dîm rheoli ac ymysg pawb sy'n gweithio yn GLlTEM i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid a'n defnyddwyr.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Natalie. Hi oedd wrth y llyw yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, ac oni bai am ei harweiniad, cefnogaeth, egni a brwdfrydedd, rwyf yn sicr na fyddem wedi gwneud llawn gymaint o gynnydd ag a wnaethom.

**Kevin Sadler**
**Prif Weithredwr (Dros Dro) a Swyddog Cyfrifyddu**

## 1.3 Rhagair gan Robert Ayling, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Mae'r adroddiad hwn yn trafod y bumed flwyddyn ers ffurfio GLlTEM ac mae wedi bod yn flwyddyn o gynnydd sylweddol.

Y flwyddyn ddiwethaf, ysgrifennais yn y rhagair hwn fod y Llywodraeth a'r farnwriaeth wedi nodi eu bod yn derbyn mewn egwyddor yr achos o blaid newid yn ein gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd. Y flwyddyn hon, mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi ailddatgan ymrwymiad y farnwriaeth i "chwarae rhan flaenllaw" mewn datblygu rhaglen ddiwygio a fydd yn "dod â'r system gyfiawnder o fewn cyrraedd pawb". Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi sôn am y "ddadl ysgubol" o blaid diwygio'r system y mae staff GLlTEM "yn ymdrechu'n ddewr i'w chadw'n gweithio er gwaethaf ei diffygion". Ac, ym mis Tachwedd, cadarnhaodd y Canghellor y bydd buddsoddiad o £700 miliwn yn cael ei ddarparu i hybu ein cynlluniau "i drawsnewid ein llysoedd fel y byddant yn addas i'r oes fodern".

Roedd sicrhau buddsoddiad a chefnogaeth o'r fath mewn cyfnod anodd o safbwynt ariannol yn gyflawniad sylweddol ac yn gymeradwyaeth drawiadol i'r cynlluniau y mae tîm rheoli GLlTEM wedi'u datblygu. Mae'r Bwrdd a minnau'n ddiolchgar am eu hymdrech barhaus ac am y gefnogaeth gryf a geir bob amser gan y farnwriaeth a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae'r cynlluniau a wnaed ar gyfer ein gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd yn uchelgeisiol, a hynny'n briodol gan fod yr angen am ddiwygio'r system yn bod ers amser maith. Wrth wraidd ein cynlluniau y mae'r anghenion sydd gan y miliynau o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob blwyddyn, a hynny'n aml pan fyddant yn fwyaf agored i niwed, am yr unig dro yn ystod eu bywyd mewn llawer achos. Rwyf yn falch iawn ein bod eisoes wedi dechrau gweithredu'r cynlluniau hynny a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau pobl. Mae amseroedd aros yn gostwng, mae systemau'n cael eu moderneiddio'n unol ag anghenion cwsmeriaid yr unfed ganrif ar hugain, ac mae technoleg ddigidol yn ein helpu i sicrhau bod trefniadau'n rhedeg yn fwy effeithiol.

Y bobl sy'n cyflawni'r cynlluniau hyn yw ein staff, ac rwyf yn diolch iddynt i gyd am eu gwaith caled a diflino dros y flwyddyn a aeth heibio, mewn amgylchiadau a oedd yn ymestynnol yn aml. Maent yn ymestynnol am nad yw newid byth yn rhywbeth hawdd mynd drwyddo, yn enwedig pan nad oes atebion clir i gwestiynau sylfaenol ynghylch ble a sut y byddant yn gwneud eu gwaith. Maent yn ymestynnol am nad ydym eto'n gwybod yr holl atebion i gwestiynau ynghylch beth yn union fydd natur y gwasanaeth yn y dyfodol. Ac maent yn ymestynnol am eu bod wedi llwyddo unwaith eto i sbarduno gwelliannau ym mherfformiad gweithredol y sefydliad wrth i'w gyllideb leihau.

Y flwyddyn hon daeth cyfnodau Syr Peter Gross a Syr Jeremy Sullivan yn aelodau o'r Bwrdd i ben. Hoffwn ddiolch i'r ddau ohonynt am eu gwasanaeth i GLlTEM. Rwyf hefyd yn diolch o waelod calon i Natalie Ceeney, a oedd yn Brif Weithredwr yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef. Er bod ei chyfnod yn Brif Weithredwr yn gymharol fyr, ni ddylid tanbrisio'r rhan a gymerodd Natalie wrth osod y sylfeini ar gyfer y newid sydd wedi dechrau. Roedd yn bleser cydweithio â Natalie, ac oni bai am ei hegni a'i hymrwymiad personol i ddiwygio, rwyf yn gwybod na fyddem mewn sefyllfa mor gryf ag yr ydym heddiw.

**Robert Ayling**
**Cadeirydd**

# Adran 2:
# Ein perfformiad

## 2.1 Amdanom ni – pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae GLlTEM yn gyfrifol am weinyddu'r llysoedd troseddol, sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr, tribiwnlysoedd yn Lloegr, a thribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cafodd ei greu yn 2011, yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Ein rôl yw rhedeg gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd effeithlon ac effeithiol ar gyfer darparu cyfiawnder. Rydym yn rhoi'r gallu i gynnal rheolaeth y gyfraith drwy weinyddu, rydym yn darparu mynediad at gyfiawnder, ac rydym yn darparu'r cymorth sydd ei angen i alluogi barnwyr, aelodau tribiwnlysoedd ac ynadon i arfer eu swyddogaethau barnwrol.

Mae GLlTEM yn gweithredu ar sail partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Ein gwaith ni yw eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Yn y 25 mlynedd diwethaf cafwyd newid sylfaenol ym maes llysoedd a thribiwnlysoedd wrth symud o 150 o sefydliadau ar wahân i greu un sefydliad – Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Yn ystod y blynyddoedd hynny rydym wedi gwneud newidiadau graddol a chynyddol yn ein prosesau i wella ein perfformiad ac effeithlonrwydd busnes. Er gwaethaf hynny, yr hyn sydd gennym o hyd yw model ar gyfer yr 20 ganrif sydd angen ei newid er mwyn delio ag anghenion yr 21 ganrif.

Rydym ar ganol proses o ddiwygio sylfaenol yn y gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd. Byddwn yn darparu mynediad effeithlon, modern at gyfiawnder nid yn unig ar gyfer y presennol ond ar gyfer y dyfodol hefyd. Mae ein system llysoedd a thribiwnlysoedd yn un sy'n annwyl i ni ac sy'n destun edmygedd yma ac mewn gwledydd tramor a rhaid i ni sicrhau bod hynny'n parhau.

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd ein holl wasanaethau'n cael eu trawsnewid er mwyn darparu'n well ar gyfer anghenion defnyddwyr a'r dinasyddion sy'n profi effaith ein gwasanaethau; byddwn yn parhau i wella'r gwasanaethau a gynigiwn i ddefnyddwyr agored i niwed, dioddefwyr troseddu a thystion – yn lleol (yn y ffordd rydym yn trin pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau) ac yn genedlaethol (er mwyn gwella ein seilwaith craidd) yn ogystal â gweithredu ar raddfa a chyflymder priodol. Bydd hyn yn ein galluogi wedyn i ddiwallu anghenion ein defnyddwyr ac i gyflawni ein rôl, sef rhedeg system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithlon ac effeithiol ar gyfer darparu cyfiawnder.

## Yn 2015, rydym wedi sicrhau:

**Cludwyd** mwy na 358,000 o ddiffynyddion i'r llys y flwyddyn ddiwethaf, ac roeddem wedi galluogi tua 80,000 o unigolion i gymryd rhan mewn achosion llys drwy fideo

Rydym yn darparu **cyfieithwyr** ar gyfer tua 155,000 o bobl sy'n cymryd rhan mewn achosion llys a thribiwnlys bob blwyddyn

Trafodir **3.9 miliwn o achosion troseddol, sifil, teulu a thribiwnlys** bob blwyddyn mewn 450 o adeiladau llys yng Nghymru a Lloegr ac adeiladau tribiwnlys yn yr Alban

Fideo – mae **systemau uwchraddedig** have now wedi'u gosod mewn 130 o safleoedd Llys y Goron a llysoedd ynadon a sifil

**Gwella'n sylfaenol** y ffordd y mae defnyddwyr llysoedd sifil a thribiwnlysoedd yn gallu gwneud cais am help i dalu eu ffioedd llys a thribiwnlys, gan symleiddio a gwella'r broses ar gyfer **mwy na 50,000 o bobl** y flwyddyn hon

## Rydym yn cael effaith ar fywydau pobl. Yn 2015–16:




Gwnaed **5,707 o addasiadau rhesymol** ar gyfer cwsmeriaid ag anableddau er mwyn iddynt gael gafael ar wasanaethau a gwybodaeth



**Darparwyd cymorth gan Weinidogion** i fwy na 600 o ASau a ysgrifennodd atynt ynghylch GLlTEM ar ran eu hetholwyr



Mae gan GLlTEM o leiaf un safle **cyswllt fideo o bell** sydd ar gael ym mhob un o'i ranbarthau sy'n galluogi dioddefwyr i roi tystiolaeth o leoliad oddi wrth y llys



Roedd 7,500 o bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed o **508 o ysgolion uwchradd gwladol wedi cymryd rhan mewn treialon ffug** a gynhaliwyd ar 75 o safleoedd llys, lle roeddent yn gallu cael profiad cadarnhaol o'r system gyfiawnder



O ganlyniad i'r llifogydd yng Ngogledd-orllewin Lloegr, roedd yn amhosibl defnyddio nifer o adeiladau llys. Yn ogystal â **symud achosion i safleoedd eraill** o fewn ein hystad bresennol, cydgysylltodd GLlTEM ag awdurdodau lleol a defnyddiwyd canolfannau eraill y tu allan i GLlTEM ar gyfer 800 o achosion.

Erbyn diwedd Rhagfyr 2015, roedd y Gwasanaeth Tystion **wedi cynorthwyo 129,975 o dystion** (43,612 yn chwarter 1, 42,497 yn chwarter 2 a 44,092 yn chwarter 3). Roedd 48% o'r rheini a gafodd gymorth yn chwarter 3 hefyd yn ddioddefwyr (21,243). O'r rheini a gafodd gymorth, roedd 12,284 yn dystion a oedd yn agored i niwed neu'n cael eu bygwth, a 21% (2,563) o'r rhain yn dystion ifanc (dan 18 oed)

Trawsnewid y ffordd y mae defnyddwyr llysoedd sifil a thribiwnlysoedd yn gallu gwneud cais am help i dalu eu ffioedd llys a thribiwnlys, gan **symleiddio a gwella'r** broses, a lleihau amseroedd aros o ddiwrnodau i oriau

**Lleihau'r amser** a gymerir i ddelio ag achosion llys a thribiwnlys ar adegau anodd ym mywydau pobl – er enghraifft, wrth apelio yn erbyn penderfyniad ar fudd-dal neu gytuno ar drefniadau ar gyfer plant pan fydd perthynas yn chwalu

Mae mwy na 42,000 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth **Wi-Fi newydd i Ddefnyddwyr Llys Proffesiynol** bob wythnos

Mae tua **95,000 o dudalennau o wybodaeth ar gael yn ddigidol bellach ar y system Rheoli Achosion Digidol.** Byddai'r rhain wedi'u hargraffu'n driphlyg o'r blaen felly gellir arbed cynhyrchu 285,000 o dudalennau




Cyflwynwyd trefniadau newydd i ganiatáu i ddefnyddwyr cyson y llysoedd sifil dalu eu ffioedd a symud ymlaen ag achosion ar-lein gan ddefnyddio'r **Cyfrif Ffioedd a Throsglwyddo Data yn Ddiogel**



Yn y Tribiwnlys Cyflogaeth, mae mwyafrif helaeth ein defnyddwyr bellach yn gwneud eu ceisiadau ar-lein, gan **arbed ar gynhyrchu ffurflenni papur, storio a phostio**



**Canoli'r broses o ddyroddi'r holl geisiadau am Orchmynion Atafaelu Enillion a Gorchmynion Arwystlo**, gan ei gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol



**Rhoi mwy o allu i gwsmeriaid** sy'n defnyddio llysoedd sifil a theulu i anfon a derbyn gwaith drwy'r e-bost



Lansio prosiect **sy'n treialu camau i ddirprwyo pwerau barnwrol sifil penodol o'r farnwriaeth i Gynghorwyr Cyfreithiol**



Yn y tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, treialwyd trefniant ar gyfer trosglwyddo apelau'n ddigidol rhwng y tribiwnlys a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn yr Alban, **gan leihau'r amser ar gyfer cael ateb i apêl o 50%**

# 2.2 Ein perfformiad: cyflawni blaenoriaethau ac amcanion 2015–16

Yn yr adran hon rydym yn disgrifio'r gweithgareddau a chyflawniadau ar ein pum blaenoriaeth ar gyfer 2015–16.

Ein blaenoriaethau oedd:
1 **Gwella'r gwasanaethau a gynigiwn, gan ddarparu cyfiawnder gwell ar gost is** drwy ddechrau moderneiddio arferion a phrosesau gweithio a defnyddio technoleg fodern i wneud bywyd yn haws i bawb.
2 **Creu glasbrint ar gyfer Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y dyfodol a fydd yn darparu cyfiawnder gwell** drwy ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer GLlTEM yn y dyfodol fel y bydd pawb yn gwybod beth rydym yn ceisio ei gyflawni.
3 **Datblygu pobl a galluogrwydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM drwy ddeall beth fydd ffurf GLlTEM** yn y dyfodol a deall pa dalentau y bydd eu hangen, sut i'w meithrin a ble i gael y sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer glasbrint y dyfodol.
4 **Cryfhau ein ffocws ar gwsmeriaid a gwella'r gwasanaethau i'n defnyddwyr** drwy roi cwsmeriaid yn gyntaf.
5 **Parhau i ddarparu ein gwasanaethau at safonau cyson uchel** drwy ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n caniatáu mynediad at gyfiawnder i bawb, wrth ddatblygu glasbrint ar gyfer y dyfodol.

### Blaenoriaeth 1: Gwella'r gwasanaethau a gynigiwn, gan ddarparu cyfiawnder gwell ar gost is

O dan yr Adolygiad o Wariant yn hydref 2015, sicrhaodd GLlTEM £700 miliwn o gyllid newydd i ddiwygio ein llysoedd a thribiwnlysoedd. Bydd y cyllid yn ein helpu i drawsnewid ein dull o weithredu, gan ddatblygu gwasanaeth sy'n cwrdd â disgwyliadau dinasyddion yr oes ddigidol. Mae'r cyllid hwn yn ychwanegol i'r cyllid o £300 miliwn rydym eisoes yn ei fuddsoddi i greu seilwaith digidol ar gyfer ein llysoedd troseddol. Bydd y buddsoddiad cyffredinol yn arbed mwy na £200 miliwn y flwyddyn i drethdalwyr o 2019–20.

Rydym wedi gweithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion a'r farnwriaeth i ddeall a datblygu eu gweledigaeth ar gyfer llysoedd a thribiwnlysoedd – a sut y bydd y weledigaeth hon yn effeithio ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn ein galluogi i foderneiddio arferion a phrosesau gweithio a defnyddio technoleg fodern i wneud bywyd yn haws i bawb – staff a defnyddwyr fel ei gilydd, rydym wedi dechrau newid ein ffordd o weithio a dylanwadu ar y canfyddiad o'n gwasanaethau. Rydym wedi cyflwyno nifer o newidiadau digidol pwysig, gan ddechrau yn y llysoedd troseddol (lle mae tua hanner gweithgarwch GLlTEM). Mae'r rhain yn cynnwys:
- Cyflwyno gwasanaeth pledio ar-lein ar gyfer troseddau traffig, gan ei gwneud yn haws i ddiffynyddion bledio, a chyflymu proses y llys a'i gwneud yn fwy cymesur wrth ddelio â'r troseddau a lleihau nifer y treialon diangen.
- Cyflwyno'r system eJudiciary, gan roi'r gallu i tua 20,000 o farnwyr ac ynadon i weld canllawiau a gwybodaeth allweddol ar-lein drwy ddefnyddio dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu.

- Cwblhau'r broses o gyflwyno dull Mainc yr ynadon, sydd wedi comisiynu iPads i alluogi ynadon i weld canllawiau eJudiciary a dogfennau digidol yn system Storfa yr ynadon yn syth drwy ddull diogel.
- Cyflwyno'r Rota ar-lein genedlaethol i ynadon sy'n ei gwneud yn haws i ynadon reoli eu hamserlenni.
- Dechrau gweithredu'r System Achosion Digidol (DCS) yn Llys y Goron, i roi'r gallu i bawb sy'n ymwneud â rheoli achosion troseddol i weld dogfennau ar-lein cyn dod i'r llys ac yn y llys, ac i weithio'n ddigidol rhwng gwrandawiadau.
- Datblygu a dechrau treialu dull 'canlyniadau digidol' newydd sy'n darparu hysbysiadau awtomatig, digidol i'r holl bartïon sy'n gysylltiedig â'r achos. Bydd asiantaethau eraill y System Cyfiawnder Troseddol yn gallu gweithredu ar sail y canlyniad yn syth, gan leihau oedi a risgiau i ddiogelwch cyhoeddus.
- Cwblhau'r broses o gyflwyno seilwaith digidol Llys y Goron ar lefel genedlaethol, yn cynnwys mynediad drwy Wi-Fi ar gyfer defnyddwyr llys proffesiynol.
- Parhau i ddatblygu'r 'Llwyfan Cyffredin'. Mae'r rhaglen hon, sy'n bartneriaeth rhwng GLlTEM, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu wedi rhyddhau nifer o wasanaethau newydd ac mae'n parhau i weithio ar ryddhau gwasanaethau pwysig er mwyn sefydlu un llwyfan i fynd ag achosion o'r cam cyn cyhuddo hyd at greu manylion cychwynnol achos yr erlyniad.

Yn benodol, rydym wedi:

Cyflwyno'r **Ystafell Llys Ddigidol** sy'n cynnwys nifer o elfennau allweddol i hwyluso dull mwy effeithlon o ddelio ag achosion llys sy'n defnyddio llai o bapur. Mae'r elfennau hyn yn cynnwys:

**Mae'r Ystafell Llys Ddigidol** yn cynnwys nifer o elfennau allweddol i hwyluso dull mwy effeithlon o ddelio ag achosion llys sy'n defnyddio llai o bapur. Mae'r elfennau hyn yn cynnwys:

- **Mae defnyddwyr llys proffesiynol bellach yn gallu defnyddio Wi-Fi**, sy'n caniatáu iddynt gael mynediad i'w systemau cartref a'r rhyngrwyd, gan wella cynhyrchiant a hwyluso llif yr achosion yn y llys. Bydd hyn yn helpu i leihau rhai o'r ffactorau cyffredin sy'n peri oedi mewn achosion cyfiawnder troseddol drwy leihau'r cyfnodau anghynhyrchiol rhwng sesiynau llys, gwella cyfathrebu a rhoi'r gallu i gael gafael ar ddeunydd ychwanegol o bell. Er enghraifft, drwy allu cysylltu â gwahanol systemau a ffeiliau ar gyfer rheoli achosion, bydd adfocadiaid yr amddiffyniad a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dibynnu'n llai ar fformatau papur.
- **Cyflwynwyd Storfa Ddata mewn llysoedd ynadon** er mwyn awtomeiddio'r trefniadau ar gyfer derbyn gwaith papur achosion oddi wrth Wasanaeth Erlyn y Goron, rhoi mynediad diogel i ddefnyddwyr a gwella'r ffyrdd o gadw ac archifo data.
- **Cyflwynwyd dull ar gyfer cyflwyno dogfennau a chydweithio ar gyfer Llys y Goron** ym mron pob llys troseddol er mwyn ei gwneud yn hawdd rhannu, anodi, marcio, llywio a defnyddio dogfennau treial yn yr ystafell llys gan yr holl bartïon.
- **Cyflwynwyd cyfarpar cyflwyno digidol yn y llys ar gyfer llysoedd ynadon** i ddileu'r angen am ffeiliau achos papur a chaniatáu cyflwyno data digidol yn y llys, gan gynnwys lluniau teledu cylch cyfyng, yn uniongyrchol o liniaduron y partïon.

- **Mae System Achosion Digidol Llys y Goron,** offeryn dogfennau digidol ar y we, yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd yn holl ganolfannau Llys y Goron, i alluogi pawb sy'n ymwneud â rheoli achosion troseddol i weld dogfennau ar-lein cyn dod i'r llys ac yn y llys, ac i weithio'n ddigidol rhwng gwrandawiadau. Mae hyn yn lleihau'r aneffeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â dogfennau papur ac yn rhoi tryloywder ynghylch cyflwyno dogfennau, derbyn datgeliadau a thystiolaeth rhwng partïon.
- **Ehangu gwasanaethau fideo:** rydym yn cyflwyno ffordd hollol newydd o gynnal ymgyfreitha troseddol – lle mai'r unig ymddangosiadau personol yn y llys fydd y rheini ar gyfer treialon a dedfrydu mewn achosion o bwys mawr. Cynhelir popeth arall ar-lein. Ar gyfer treialon, rydym yn rhag-weld y bydd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cael ei chyflwyno drwy fideo. Bydd hyn yn ddewis mwy costeffeithiol yn lle symud pobl o gwmpas. Er mwyn hwyluso hyn, gosodwyd systemau uwchraddedig mewn 130 o safleoedd Llys y Goron, llysoedd ynadon a llysoedd sifil; cwblheir y gwaith mewn 100 o lysoedd a 17 o safleoedd tribiwnlys ar ddechrau haf 2016. Yn ogystal â sicrhau bod cyfraddau defnyddio'r cysylltiadau fideo rhwng y carchar a'r llys a rhwng yr heddlu a'r llys yn cynyddu gan roi manteision cysylltiedig i'r System Cyfiawnder Troseddol, mae hyn yn darparu fframwaith ar gyfer arloesi ym maes fideo a ddatblygir drwy Raglen Newid GLlTEM.

**Parhau i gyflwyno Rhaglen y Llwyfan Cyffredin** yn ystod 2015–16, gan ddarparu nifer o gynhyrchion allweddol yn rhan o'r rhaglen sy'n cynnwys y System Cyfiawnder Troseddol gyfan. Bydd hyn yn arwain yn y pen draw at gynllunio, adeiladu a sefydlu un broses gyffredin ar gyfer gweithio i GLlTEM, staff Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r gweithwyr eraill sy'n ymwneud â'r broses o reoli achosion troseddol. Bydd hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaethau (diffynyddion, dioddefwyr, tystion a defnyddwyr proffesiynol) ryngweithio â'r broses ar-lein – gan ddisodli hen brosesau a systemau sy'n seiliedig ar bapur.

Dim ond camau y mae'n rhaid eu cymryd yn yr ystafell llys a fydd yn digwydd yno. Rhai o'r prif feysydd a gafodd eu datblygu a'u cyflwyno yn 2015–16 oedd:

- **Pledio ar-lein** – mae hyn yn galluogi diffynyddion i ymwneud yn haws â phroses y llys ynadon, gan gynnig modd iddynt ymateb ar-lein i erlyniadau gan yr heddlu am droseddau traffig ffyrdd bach. Rydym yn paratoi i'w gyflwyno'n genedlaethol yn 2016–17 ar gyfer troseddau na ellir rhoi dedfryd o garchar amdanynt. Bydd y gwasanaeth yn ddewis yn lle ymateb drwy'r post neu'r angen i ymddangos yn bersonol yn y llys (gweler Gweithdrefn Un Ynad isod am ragor o wybodaeth).
- **Marcio digidol** – Bydd y llys ynadon yn gallu cofnodi canlyniad ei achosion ar unwaith drwy gynnyrch o'r enw 'digital mark-up'. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2016–17.

Cyflwyno'r **Weithdrefn Un Ynad**: Cyflwynwyd cynllun i dreialu'r Weithdrefn Un Ynad yn Ebrill 2015. Mae'r Weithdrefn Un Ynad wedi rhoi mwy o hyblygrwydd o ran pa bryd ac ym mha le y bydd achosion syml a diwrthwynebiad yn cael eu cynnal (oedolion sydd wedi'u cyhuddo o droseddau diannod na ellir rhoi dedfryd o garchar amdanynt). Yn benodol, mae'r rhain yn achosion a gaiff eu gweinyddu o dan y weithdrefn cyhuddo a hawlio sy'n arwain at gosb ariannol ym mron pob achos. Ymhlith yr erlynwyr y mae Heddlu Llundain, Transport for London (TfL) a'r DVLA.

Bydd y Weithdrefn Un Ynad:
- yn rhoi'r gallu i ddelio â'r achosion ar sail y papurau gan un ynad yn eistedd gyda chynghorydd cyfreithiol
- yn cael gwared â'r gofyniad i'r erlynydd neu'r diffynnydd fod yn bresennol neu i'r achos gael ei wrando mewn ystafell llys draddodiadol;
- yn caniatáu i'r diffynnydd ymwneud â'r llys drwy lythyr neu ymateb ar-lein drwy Cofnodi Ple – gan greu ffeiliau achos digidol.

Treialwyd y weithdrefn yn swydd Bedford, swydd Gaergrawnt a swydd Hertford drwy gydol 2015–16. Cymerodd tua awr a hanner i 43 o achosion gael eu rheoli mewn un prynhawn yn Stevenage; roedd hyn yn golygu bod pob achos wedi'i drafod o fewn llai na dau funud ar gyfartaledd. Cafwyd adborth cadarnhaol ac roedd yr ynadon a chynghorwyr cyfreithiol wedi cael bod y ffordd newydd o weithio'n fwy ymestynnol ond yn symlach, a'u bod yn gallu delio ag achosion yn gyflymach ac felly'n fwy costeffeithiol.



Yn y Tribiwnlys Cyflogaeth, mae tua **90% o'r defnyddwyr bellach yn cychwyn eu hachosion ar-lein**, gan wneud y broses yn fwy effeithlon ac effeithiol



Yn y tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, mae cynllun ar gyfer trosglwyddo apelau'n ddigidol rhwng y tribiwnlys a'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i dreialu yn yr Alban, **gan leihau'r amser ymateb i apelau o 50%**

### Blaenoriaeth 2: Creu glasbrint ar gyfer GLlTEM y dyfodol sy'n darparu cyfiawnder gwell

Yn ein Hadroddiad Blynyddol yn 2014–15 roeddem wedi nodi ei bod yn flwyddyn bwysig o drawsnewid i GLlTEM. Yn 2015–16 roedd angen bod yn glir iawn a phenderfynu i ba gyfeiriad yn union yr oeddem yn mynd. Roedd hyn yn golygu bod yn glir ynghylch y math o GLlTEM rydym yn ei greu ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi:
- Creu gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol a chytuno arni â'r uwch farnwriaeth a Gweinidogion.
- Sicrhau cyllid o dan Adolygiad o Wariant y Llywodraeth i gyflawni Rhaglen Drawsnewid GLlTEM.
- Datblygu a sicrhau cymeradwyaeth i achos busnes y Rhaglen Drawsnewid, i'n galluogi i sicrhau cyllid ar gyfer y newid hwn a chynllunio ar ei gyfer.

- Dechrau rhesymoli'r ystad drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddarpariaeth o lysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, a chael mwy na 2,100 o ymatebion.
- Rydym wedi cytuno i gau 86 o adeiladau llys a thribiwnlys dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r llysoedd hyn yn cael eu tanddefnyddio ac nid ydynt yn addas i'r ffordd rydym yn bwriadu darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol.
- Dechrau gwneud newidiadau a gwelliannau graddol.

Yn benodol, er mwyn sicrhau'r trawsnewid hwn:

Yn yr **awdurdodaethau sifil a theulu ac mewn tribiwnlysoedd**, rydym eisoes wedi gwneud nifer o newidiadau graddol o'r fath i osod y sylfeini ar gyfer trawsnewid llysoedd a thribiwnlysoedd:

- Cyflwyno **Help gyda Ffioedd**: Er Hydref 2015 rydym wedi'i gwneud yn symlach a chyflymach i'r cyhoedd wneud cais am help gyda'u ffioedd llys sifil a thribiwnlys. Rydym wedi ailwampio'r ffurflen gais a chanllawiau ar ôl ystyried adborth gan ddefnyddwyr ac mae ein staff bellach yn gallu holi'r Adran Gwaith a Phensiynau drwy ddull digidol i weld a yw ymgeisydd yn derbyn budd-dal sy'n ei wneud yn gymwys. Yn 2015–16 cwblhawyd mwy na 50,000 o geisiadau drwy'r system newydd hon ac rydym wedi gostwng y nifer a wrthodir oherwydd camgymeriadau gan ddefnyddwyr wrth lenwi'r ffurflen. Yn 2016–17 byddwn yn trefnu i'r gwasanaeth hwn fod ar gael drwy GOV.UK.
- Mae gwasanaethau hanfodol wedi'u **canoli a'u rhesymoli er mwyn rhannu arbenigedd, gwella'r gwasanaeth a lleihau cost**. Ymhlith y gwasanaethau hyn y mae gweinyddu ysgariadau, Gorfodi Cyfatebol ar Orchmynion Cynnal, a'r Llys Gwarchod yn yr awdurdodaeth deulu. Yn y maes sifil, mae Atafaelu Enillion, yn ogystal â Gorchmynion Arwystlo, wedi cael eu canoli, ac mae gweinyddiaeth y Tribiwnlys Trethi Haen Gyntaf wedi'i chanoli.

Yn y llysoedd troseddol, rydym wedi cyflwyno **Rheoli Achosion yn Well**: mae hyn yn cysylltu mentrau allweddol sydd gyda'i gilydd yn gwella'r ffordd o symud achosion drwy'r system er budd pawb sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Troseddol. Y bwriad cyffredinol yw:

- Rheoli achosion yn effeithiol
- Lleihau nifer y gwrandawiadau
- Sicrhau'r cyfrannu ac ymgysylltu mwyaf posibl gan bawb o fewn y system
- Sicrhau cydymffurfio effeithiol â'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol, a Chyfarwyddiadau Ymarfer a Llys

Dechreuwyd gweithredu Rheoli Achosion yn Well (BCM) yn Hydref 2015 drwy dreialu'r broses mewn wyth llys. Dechreuwyd ei roi ar waith yn genedlaethol o Ionawr 2016. Nod ac amcan BCM yw galluogi'r diffynnydd i bledio'n euog yn Llys y Goron ar y cyfle cynharaf a chael ei ddedfrydu yr un pryd. Mae'r system yn darparu proses genedlaethol sengl i'w defnyddio yn holl ganolfannau Llys y Goron, gan adeiladu ar sail y fenter Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (gweler tudalen <OV>) yn y llysoedd ynadon. Rhai o fanteision BCM yw:

- Cyfraddau gwaredu uwch

- Penderfynu ar achosion yn gynharach gyda mwy yn pledio'n euog ar ddechrau'r broses a llai o wrandawiadau – un gwrandawiad os oes modd
- Lleihau nifer y treialon aneffeithiol
- Treialon byrrach
- Nid yw tystion yn dod i'r llys heb fod angen
- Rhestrau aros byrrach

Sicrhau **£700 miliwn** ar gyfer y Rhaglen Newid

Yn Llys y Goron Lerpwl, cododd cyfran y treialon effeithiol i 50%, o'i gymharu â 44% ar gyfartaledd yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd cyfran y treialon chwâl i 35% o 45% yn y flwyddyn cynt.

### Priority 3: Develop the people and capability of HMCTS

Ar ddechrau'r flwyddyn, roeddem wedi cydnabod y bydd ffurf ein sefydliad, wrth drawsnewid ei wasanaethau, yn dechrau bod yn wahanol. Ni fydd yr holl swyddi yr un fath ac, wrth i ni ddigideiddio ein prosesau, bydd angen llai o bobl. Ar yr un pryd, fe fydd rolau gwahanol – yn enwedig wrth ddarparu gwasanaethau digidol, a bydd angen nifer mawr o bobl i brofi, treialu a rheoli newid wrth i ni gyflwyno gwasanaethau newydd. Yn fwy nag erioed, bydd arnom angen y bobl iawn, gyda'r sgiliau iawn, yn y lle iawn ar yr amser iawn.

Er mwyn gwneud hyn yn 2015–16 roeddem wedi datblygu dealltwriaeth glir o ffurf GLlTEM yn y dyfodol a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w gwireddu. Roedd angen i ni feithrin a gwella ein dealltwriaeth o'n pobl, yn ogystal â rhoi'r cymorth, sgiliau ac offer y mae ar ein pobl eu hangen i wneud eu gwaith gan deimlo eu bod yn effeithiol ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u datblygu. Mae rhestr yma o'r gweithgareddau a gafwyd ar y flaenoriaeth hon, ac mae rhagor o fanylion yn adran 3.

Rydym wedi:

- **Datblygu glasbrint clir ar gyfer patrwm y sefydliad yn y dyfodol** a map i sicrhau ein bod yn cyrraedd pen y daith.
- **Pennu'r sgiliau a galluoedd y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol** and ac wedi dyrannu cyllid i gwmpasu a diwallu anghenion dysgu a datblygu i helpu pawb ohonom i drawsnewid y sefydliad (gweler adran 3, tudalen 49).
- **Pennu cyfleoedd cynnar i ddatblygu ein staff presennol ac wedi recriwtio arbenigwyr allanol** i ddarparu galluogrwydd a chapasiti ychwanegol.
- **Dechrau cyfathrebu ac ymgysylltu** â staff GLlTEM i gyfleu ein gweledigaeth a'n bwriad er mwyn meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.
- **Lansio Academi Prentisiaethau GLlTEM ar-lein**
- **Lansio Strategaeth Llesiant**

Yn benodol, rydym wedi:

- Datblygu **Cynllun Gweithredu Cenedlaethol** sy'n amlinellu'r gwaith ar gyfer 2016 yn dilyn canlyniadau ein Harolwg o Bobl yn 2015. Mae'r cynllun wedi'i rannu'n bum thema allweddol a bydd un o gyfarwyddwyr GLlTEM yn arwain ar bob un o'r rhain.
- Pennu lefelau blaenoriaeth galluogrwydd cyfredol drwy gwblhau'r **Adolygiad Sgiliau Blynyddol a'r Arolwg o Alluogrwydd.**
- Parhau i gydweithio â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar y Datganiad Moderneiddio Cyflogaeth er mwyn sicrhau hyblygrwydd o ran tâl a darparu Datganiad Gwerth Cyflogai gwell ar gyfer staff GLlTEM. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnig gwell datblygiad mewn gyrfa i staff ac i symud ymlaen â'r broses o drawsnewid y sefydliad.

### Blaenoriaeth 4: Cryfhau ein ffocws ar gwsmeriaid a gwella'r gwasanaethau i'n defnyddwyr

Yn GLlTEM rydym yn gwybod mai ein pwrpas yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Bellach rydym yn canolbwyntio ar ein defnyddwyr yn gyntaf i fwy o raddau wrth gynllunio'r gwasanaethau hynny. Mae nifer mawr o bobl yn defnyddio'r llysoedd a thribiwnlysoedd pan fyddant yn fwyaf agored i niwed ac arnynt angen cymorth. Rydym yn dibynnu ar dystiolaeth tystion a dioddefwyr er mwyn darparu cyfiawnder.

Yn ystod ein proses o drawsnewid, roedd angen i ni ystyried profiad y defnyddwyr wrth gynllunio gwasanaethau, yn ogystal â'r dull o'u darparu.

Rydym wedi:

- Recriwtio cyfarwyddwr cwsmeriaid i ganolbwyntio ar anghenion ein defnyddwyr a chwsmeriaid am y tro cyntaf, er mwyn gallu meithrin galluogrwydd canolog parhaol ynghylch deall anghenion cwsmeriaid a chynllunio dan arweiniad defnyddwyr.
- Sicrhau ein bod yn elwa o ddealltwriaeth o anghenion defnyddwyr wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
- Parhau i wella'r gwasanaethau a gynigiwn i ddefnyddwyr agored i niwed, dioddefwyr a thystion – yn lleol (o ran y ffordd rydym yn trin pobl wrth iddynt ddefnyddio ein gwasanaethau) ac yn genedlaethol (er mwyn cynnig gwell seilwaith craidd).
- Gwella ein ffordd o ddelio â gwallau yn ein system drwy ddatblygu gweithdrefnau cryfach i leihau swm y ffioedd cyfreithiol rydym yn eu talu ar ôl arestio ar gam, a mireinio gohebiaeth o bob math â'n cwsmeriaid.
- Ymrwymo i gynnig darpariaeth amgen i ddefnyddwyr ein llysoedd a thribiwnlysoedd. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio adeiladau dinesig neu adeiladau addas eraill i ddarparu cysylltiadau fideo neu wrandawiadau.

Yn benodol, rydym wedi:

- Cyflwyno trefniadau newydd i ganiatáu i ddefnyddwyr cyson y llysoedd sifil dalu eu ffioedd a symud achosion ymlaen ar-lein drwy ddefnyddio'r system **Cyfrif Ffioedd a Throsglwyddo Data yn Ddiogel. Yn y Tribiwnlys Cyflogaeth,** .Within the **Employment Tribunal**, mae tua 90% o'r defnyddwyr yn cychwyn eu hachosion ar-lein, gan wneud y broses yn fwy effeithlon ac effeithiol.
- **Canoli'r** broses o ddyroddi'r holl geisiadau am Atafaelu Enillion a Gorchmynion Arwystlo, gan wneud y broses yn fwy effeithlon ac effeithiol.
- **Hybu a gwella'r** cyfleusterau ar gyfer anfon a derbyn gwaith drwy'r e-bost ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio llysoedd sifil a theulu a thribiwnlysoedd.

- **Lleoli 25 o weithwyr achos mewn Tribiwnlysoedd** i ymgymryd â gwaith barnwrol arferol a gaiff ei ddirprwyo iddynt oddi wrth y farnwriaeth.
- **Lansio prosiect** sy'n treialu cynllun i ddirprwyo pwerau barnwrol sifil penodol oddi wrth y farnwriaeth i gynghorwyr cyfreithiol.

Yn y **Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant**, treialwyd cynllun i drosglwyddo apelau'n ddigidol rhwng y tribiwnlys a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn yr Alban, gan leihau'r amser ymateb i apelau o 50%.

Adlewyrchwyd newidiadau yn y **Cod Dioddefwyr a Chyfarwyddeb Dioddefwyr yr UE** drwy newid ffocws a diweddaru'r holl ddeunydd hyfforddi cysylltiedig ar gyfer staff gan ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion. Mae hyn wedi sicrhau bod gwell dealltwriaeth gan staff sy'n gyfrifol am ddioddefwyr a thystion o'r ffordd y mae eu rolau penodol yn cyfrannu at ddarparu gwell gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion.

**Ailgyflwynwyd Eiriolwyr Rhanbarthol** dros Dystion a fydd yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â thystion agored i niwed i sicrhau bod modd dysgu gwersi ym mhob rhan o GLlTEM er mwyn gwella gwasanaethau i gwsmeriaid lle bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys adolygu cwynion a geir mewn perthynas â dioddefwyr a thystion bob mis.

Rydym yn parhau i ddysgu gwersi o'r **Arolwg o Brofiad Tystion.**

Roedd yr arolwg yn dangos:
- bod 93% o ymatebwyr yn 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn' ar y cymorth a gawsant yn y llys.
- bod 81% o ymatebwyr yn teimlo'n llai pryderus a gofidus ac yn gallu ymdopi'n well â rhoi tystiolaeth.
- Ar gyfartaledd, teimlai 62% o ymatebwyr y gallent gysylltu ag asiantaethau eraill os oeddent mewn gwell lle i ddarparu cymorth.
- Teimlai 93% o ymatebwyr eu bod wedi'u hysbysu am broses y llys.
- Byddai 85% o ymatebwyr yn barod i roi tystiolaeth eto.

Roedd y llywodraeth wedi gofyn i'r Comisiynydd Tystion lunio cyfres o adroddiadau annibynnol ar gamau ychwanegol y gellid eu cymryd i gynorthwyo dioddefwyr troseddu. Yn dilyn adolygiad ar **Ddatganiadau Personol Dioddefwyr**, mae GLlTEM yn cymryd camau, gan gydweithio â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r system cyfiawnder troseddol ehangach, i hybu ymwybyddiaeth o ddatganiadau personol dioddefwyr a'r nifer a gyflwynir. Pwrpas datganiadau personol dioddefwyr yw rhoi llais i ddioddefwyr a'u teuluoedd mewn achosion troseddol. Y bwriad yw rhoi cyfle iddynt egluro sut mae'r trosedd wedi effeithio arnynt, yn gorfforol, yn emosiynol, yn seicolegol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall.
- Yn benodol, mae GLlTEM wedi sicrhau bod amcan swydd penodol gan yr holl staff a rheolwyr mewn llysoedd troseddol sy'n rhyngweithio â dioddefwyr a thystion sy'n gysylltiedig â darparu gwell cymorth a'n rhwymedigaethau o dan y Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion.

**Cofnodwyd 5,082 o eiriau o ganmoliaeth** gan gwsmeriaid a oedd yn canmol y gwasanaeth a gawsant gan GLlTEM. Roedd 93% o ymatebwyr yn 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn' ar y cymorth a gawsant mewn llys neu dribiwnlys. Byddai 85% o ymatebwyr yn barod i roi tystiolaeth eto.

**Roedd 15,000 o gwynion gan gwsmeriaid wedi'u datrys** ar y cam cysylltu cyntaf ym mhroses cwynion gweinyddol GLlTEM

Roedd y Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid **wedi ymateb i 1,000 o eitemau o ohebiaeth** at uwch swyddogion y llywodraeth

Mae'r **Gordal Dioddefwyr Surcharge** yn sicrhau bod troseddwyr yn derbyn mwy o gyfrifoldeb am eu troseddau drwy dalu at gost cefnogi dioddefwyr troseddau. Yn 2015/16 roedd y rhan fwyaf o gyllid (£28,309,203.36) ar gyfer dioddefwyr wedi mynd at Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i ddarparu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr troseddu yn eu hardaloedd.

## Blaenoriaeth 5: Parhau i ddarparu ein gwasanaethau at safonau cyson uchel

Wrth i ni fynd drwy broses o newid, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn parhau i ddarparu ar gyfer heddiw. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n rhoi mynediad at gyfiawnder i bawb.

Mae GLlTEM yn mesur perfformiad mewn pedwar maes busnes allweddol: cwsmeriaid ac ansawdd; cyllid a stiwardiaeth; gweithrediadau; a phobl a threfniadaeth.

Yn y rhan fwyaf o'r meysydd, rydym wedi gwella neu gynnal ein perfformiad er ein bod yn derbyn mwy o waith a llai o adnoddau. Mae gennym nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro gwelliannau o ran darparu gwasanaethau'n amserol, a defnydd effeithlon ac effeithiol o ganolfannau gwrando. Mae'r rhain wedi'u rhannu ar draws y gwahanol awdurdodaethau (Llys y Goron, llysoedd ynadon, sifil a theulu a thribiwnlysoedd) i sicrhau ein bod yn ystyried y gwahaniaethau rhwng y gwasanaethau sydd eu hangen ac a ddarperir.

Rydym wedi:
- **Cyflwyno'r fenter Trawsnewid Cyfiawnder Diannod** i leihau oedi mewn llysoedd ynadon (gweler tudalen 28)
- **Clirio rhai ôl-groniadau o dreialon a lleihau amseroedd aros mewn llysoedd ynadon** drwy gynnal blitzes treialon llwyddiannus
- **Byw o fewn ein cyllideb** (gweler adran 2.4.1 am fanylion ein gwariant ar gyllidebau 2015–16).
- **Gwella ein perfformiad mewn perthynas â chwynion i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd a gadarnhawyd** (gweler adran 2.4.3 am fanylion ynghylch perfformiad 2015–16).
- **Lleihau nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd salwch** (gweler adran 3.1 Ein staff a'n strwythur rheoli uwch am fanylion)

Rydym yn mesur ein perfformiad ar sail Dangosyddion Perfformiad Allweddol gweithredol yn yr holl awdurdodaethau, gan geisio gwella ein gwasanaethau a darparu rhai sy'n ymateb i anghenion ein defnyddwyr ac yn cynnig gwell gwerth i'r trethdalwr. Yn benodol, rydym wedi sicrhau'r canlynol o dan yr awdurdodaethau perthnasol.

**Trosedd**: Yn y llysoedd ynadon roedd nifer yr achosion a oedd heb eu trafod wedi gostwng 0.4% o 326,437 ar ddiwedd 2014 i 325,209 ar ddiwedd 2015. Gostyngodd y nifer a dderbyniwyd 1% o 1,607,170 yn 2014 i 1,589,516 yn 2015 tra oedd y nifer a waredwyd wedi codi 1% o 1,570,660 i 1,594,029. Roedd cyfradd treialon effeithiol y llysoedd ynadon wedi codi o 45% yn 2014 i 48% yn 2015.

Yn Llys y Goron, roedd nifer yr achosion a oedd heb eu trafod wedi gostwng 9% yn 2015 o 55,116 ar ddiwedd 2014 i 50,039 ar ddiwedd 2015. Cafwyd gostyngiad o 11% yn nifer yr achosion a aeth i dreial, o 47,497 i 42,651. Roedd y gyfradd treialon effeithiol wedi aros yn gyson ar 50% yn y ddwy flwyddyn.

Nifer y diwrnodau rhwng rhestru achosion troseddol am y tro cyntaf a'u cwblhau mewn llysoedd ynadon oedd 22 diwrnod ar gyfartaledd yn 2015, cynnydd oddi ar 20 niwrnod yn 2014. Roedd nifer y diwrnodau rhwng anfon achos ar gyfer treial i Lys y Goron a'r prif wrandawiad wedi cynyddu o 117 o ddiwrnodau yn 2014 i 136 o ddiwrnodau yn 2015.

**Sifil**: Roedd yr amser cyfartalog ar gyfer delio â hawliad dull carlam neu aml-drywydd rhwng y dyddiad cyhoeddi a threial yr hawliad wedi gwella o 56.8 wythnos yn 2014 i 52.6 wythnos yn 2015.

**Teulu**: Yr amser cyfartalog ar gyfer gwaredu ceisiadau gofal neu oruchwyliaeth yn 2015 oedd 28.3 wythnos, gwelliant oddi ar 29.9 wythnos yn 2014. Roedd canran yr achosion gofal neu oruchwyliaeth a waredwyd o fewn y terfyn amser o 26 wythnos (a gyflwynwyd yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014) wedi gwella o 55% i 58%.

Cymerwyd llai o amser i ddelio ag achosion cyfraith breifat ar gyfartaledd yn 2015, sef 14.5 wythnos o'i gymharu â 16.7 wythnos yn 2014.

**Tribiwnlysoedd**: Yn y Tribiwnlys Cyflogaeth, roedd nifer yr hawliadau sengl a gafwyd wedi gostwng 3% o 17,846 yn 2014 i 17,279 yn 2015. Roedd nifer yr apelau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant a gafwyd wedi codi 8% o 141,440 yn 2014 i 152,207 yn 2015. Roedd nifer yr apelau Mewnfudo a Lloches a gafwyd wedi gostwng 6% o 88,810 i 83,760.

Rydym hefyd wedi:

**Cyflwyno'r fenter Trawsnewid Cyfiawnder Diannod**: Cyflwynwyd y fenter hon ym Mai 2015 ac roedd yn golygu cydweithio'n agos ag asiantaethau eraill. Nod y fenter yw lleihau oedi mewn llysoedd ynadon, cynnal llai o wrandawiadau ym mhob achos a chynyddu nifer y treialon sy'n mynd ymlaen y tro cyntaf iddynt gael eu rhestru. Roedd y tîm Trosedd yng Nghyfarwyddiaeth Datblygu Llysoedd a Thribiwnlysoedd wedi cydweithio â saith o'n partneriaid yn y system cyfiawnder troseddol: Gwasanaeth Erlyn y Goron; heddluoedd; Cymdeithas Clercod Ynadon; y Barnwr Llywyddol a'r farnwriaeth; y Prif Ynad a Chymdeithas yr Ynadon; y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; a Chymdeithas y Cyfreithwyr.

Mae'r rhaglen yn sicrhau bod pob un o'r partïon cysylltiedig yn chwarae ei ran yn fwy effeithiol. Mae 10 nodwedd a fydd yn gwneud y llysoedd ynadon yn fwy effeithiol.

1. Ffeiliau heddlu gyda sicrwydd ansawdd
2. Gwrandawiadau pleon disgwyliedig
3. Brigadu achosion
4. Y patrymau gorau posibl ar gyfer mechnïaeth
5. Cael manylion cyntaf achos yr erlyniad yn gynnar
6. Y personél priodol yn y gwrandawiad
7. Datgelu symlach
8. Disgwyliadau clir o ran effeithiolrwydd
9. Cefnogaeth yr heddlu i wrandawiadau lle disgwylir ple dieuog
10. Cysylltedd (Wi-Fi) ar gyfer pob asiantaeth yn y llys.

Mae hyn yn amlygu'r trefniadau cydweithio sydd gennym ac mae'r broses o ddiwygio ein llysoedd wedi dechrau.

**Darparu blitz treialon**: Roedd nifer o lysoedd ynadon ar draws Llundain, Manceinion a Birmingham wedi cymryd rhan mewn blitz treialon i leihau oedi. Cafwyd cydweithio agos rhwng nifer o dimau yn GLlTEM a phartneriaid yn y system gyfiawnder i sicrhau llwyddiant y prosiect, gan gynnwys barnwyr rhanbarth, ynadon, cynghorwyr cyfreithiol, tywyswyr, Gwasanaeth Erlyn y Goron a rhai sy'n ymwneud ag amddiffyn. Roedd hyn wedi helpu i glirio rhai ôl-groniadau o dreialon a lleihau amseroedd aros.

### Ystadegau perfformiad

Mae GLlTEM wedi ymrwymo i sicrhau tryloywder, yn unol â nodau cyffredinol y llywodraeth. Bob chwarter byddwn yn cyhoeddi ystadegau gwladol ychwanegol ar weithgarwch yn y llysoedd ynadon, Llys y Goron, y Llys Sirol, y Llys Teulu, yr Uchel Lys, y Llys Apêl a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr a thribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael yn www.GOV.UK. Fodd bynnag, er mwyn cael gwybodaeth benodol, ewch i:

Chwarterolyn ystadegol y Llys Troseddol
https://www.gov.uk/government/collections/criminal-court-statistics

Chwarterolyn ystadegol Cyfiawnder Sifil
https://www.gov.uk/government/collections/civil-justice-statistics-quarterly

Chwarterolyn ystadegol y Llys Teulu
https://www.gov.uk/government/collections/family-court-statistics-quarterly

Chwarterolyn ystadegol Tribiwnlysoedd a Chydnabod Rhywedd
https://www.gov.uk/government/collections/tribunals-statistics

Byddwn yn parhau i gyhoeddi ystadegau gwladol chwarterol ar berfformiad y system llysoedd a thribiwnlysoedd a fydd, dros amser, yn dangos yr effaith o drawsnewid GLlTEM.

## 2.3 Gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau ar gyfer 2016–17

2016–17 fydd ail flwyddyn y gweithgarwch trawsnewid ac mae'n gwbl briodol bod GLlTEM wrth fuddsoddi yn pennu ac yn diffinio amcanion strategol clir. Bydd yr amcanion hyn yn ein harwain drwy'r blynyddoedd nesaf ac yn rhoi nod cyffredin i bawb sy'n gyson â'n pwrpas ac yn cadw cyfiawnder ar ganol ein gwaith.

**Ein pwrpas: Cynnal cyfiawnder, hybu moderneiddio a gwelliannau, symleiddio gwasanaethau (datblygu canlyniadau cyfiawn; yn gyflym, yn deg, yn rhwydd ac yn effeithlon)**

Bydd yr amcanion strategol canlynol yn galluogi'r holl staff i ddeall yn glir beth maent yn ei wneud a sut maent yn ei wneud (boed yn aelod o uwch dîm rheoli GLlTEM, yn rheolwr cyflawni lleol neu'n dywyswr llys) a sut maent yn cyfrannu at gyfeiriad cyffredinol GLlTEM.

| **Blaenoriaeth strategol 1: Gwell, Symlach a Rhatach** | **Blaenoriaeth strategol 2: Gwrando, Dysgu, Gwella** | **Blaenoriaeth strategol 3: Cysylltu, Ymddiried, Cyfrannu** |
|---|---|---|
| Gwella ein gwasanaethau | Adeiladu ein sefydliad a'n pobl | Cysylltu ac ymgysylltu â'n partneriaid a defnyddwyr |

Bydd y tri amcan yn hanfodol i holl waith GLlTEM ar gyfer sicrhau gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd diwygiedig.

Rhaid i ni gynllunio ymlaen ymhellach na 2016–17 hefyd, i sicrhau gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd diwygiedig lle bydd profiad y defnyddwyr yn gwbl wahanol.

Rydym wedi dechrau gweithredu ar ein dull trawsnewid cyffredinol, gan gynnwys y Rhaglen Ddiwygio, a gwneud cynnydd sylweddol ar ddiogelu a newid y sylfeini gweithredol, digidol a diwylliannol i sicrhau hynny. Byddwn hefyd yn parhau i symud ymlaen ar gyflawni ein rhaglenni trawsnewid presennol sy'n cyflwyno gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarparwn, ac yn creu'r elfennau sydd eu hangen ar gyfer y Rhaglen Ddiwygio yn ogystal â dechrau gwella ein galluogrwydd ac ymwybyddiaeth fasnachol (SO1, SO2 a SO3).

Drwy gydweithio â'r farnwriaeth a'n partneriaid cyflawni, mae GLlTEM yn adeiladu system gyfiawnder gan ei thrawsnewid i'w gwneud yn symlach, yn gyflymach ac yn fwy effeithlon, a sefydliad sy'n hyblyg ac yn heini. Yng nghyd-destun y newid sylfaenol hwn, gallwn fod yn sicr y bydd y trawsnewid yn effeithio ar bob swydd yn GLlTEM. Felly byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu perfformiad heddiw gan sicrhau gwell perfformiad ar gyfer yfory (SO2 a SO3).

Rhaid i GLlTEM ddod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar y cwsmer sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr ym mhob agwedd o'i waith a rhaid i ni adeiladu ar sail yr hyn rydym wedi'i gyflawni'n barod. Mae hefyd yn golygu meithrin diwylliant lle mae ein staff, ein partneriaid a'r cyhoedd yn eiriolwyr dros GLlTEM yn ogystal â chyfranwyr allweddol. Felly rhaid i ni gael dealltwriaeth dda o farn y cwsmeriaid – pwy yw ein defnyddwyr, beth yw eu barn am ein gwasanaethau, beth maent am ei gael gan GLlTEM diwygiedig? Bydd hyn yn ein galluogi i wneud gwell penderfyniadau rheoli, yn genedlaethol a lleol, ar sail anghenion defnyddwyr gan roi pwyslais ar y defnyddwyr mwyaf agored i niwed (SO1 a SO2).

Mae angen hefyd i ni ysbrydoli a grymuso ein staff er mwyn gwella ac arloesi yn ein gwasanaethau. Mae hyn yn golygu creu amgylchedd lle mae arloesi rhanbarthol a lleol yn cael ei hybu a'i gefnogi.

Drwy gydol yr amser bydd darparu cyfiawnder yn parhau'n ganolog ym mhob agwedd ar ein gwaith a byddwn yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gallu gweld a deall ei fod yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu ein gwasanaethau.

Wrth edrych ymlaen byddwn yn:

### Cyflawni Ail Flwyddyn ein Rhaglen Ddiwygio

Yn ystod 2016–17 rydym yn parhau i gyflawni'r elfennau cynnar yn y rhaglen a fydd yn rhoi'r gallu i drawsnewid ein gwasanaethau.

Byddwn yn cyflwyno model busnes unedig ar draws y system gyfiawnder. Ein nod yw symleiddio prosesau yn yr holl awdurdodaethau, gan eu hawtomeiddio lle bo modd i wella'r gwasanaethau a ddarparwn. Bydd hyn yn cyflymu pethau drwy gadw achosion bach syml allan o'r llysoedd yn gyfan gwbl. Yn 2016–17 byddwn yn datblygu a rhoi prawf ar ddulliau gwrando rhithwir a fydd yn rhoi mwy o allu i ddefnyddio technoleg fideo ac ar-lein i ddileu gwrandawiadau a phrosesau diangen. Rydym yn cyflwyno'r dull Marcio Digidol yn y llysoedd ynadon yn rhan o'r rhaglen drawsnewid ehangach. Byddwn hefyd yn gwella profiad holl ddefnyddwyr proffesiynol y llys drwy sicrhau eu bod yn gallu gweithio'n ddigidol yn y llysoedd.

Byddwn yn moderneiddio ein hystad. Mae nifer o'r 460 o adeiladau llys a thribiwnlys presennol yn ystad GLlTEM yn cael eu tanddefnyddio, mae rhai'n anaddas ar gyfer darparu ein gwasanaethau i gwsmeriaid ac mae nifer ohonynt yn ddrud i'w cynnal. Rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith o foderneiddio ein hystad a chreu gwasanaeth mwy effeithlon ac ystyriol o ddefnyddwyr. Er mwyn hwyluso a chyfrannu i'r broses drawsnewid gyffredinol, mae angen cydgrynhoi ein seilwaith ystadau a symud ymlaen i werthu a gwaredu'r ystad fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd yn Chwefror 2016.

### Datblygu perfformiad heddiw gan sicrhau gwell perfformiad ar gyfer yfory

Gan fod ail flwyddyn y weledigaeth ar gyfer diwygio'r gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd yn galw am osod y sylfeini gweithredol a digidol, bydd angen cael y bobl briodol yn eu lle hefyd, drwy sicrhau ein bod yn dewis y goreuon, yn elwa o'u galluoedd, yn cynnal meincnod uchel, ac yn symud y pwyslais tuag at wobrwyo perfformiad da.

Mae hefyd yn golygu rhag-weld a bodloni'r gofynion am alluogrwydd gan ddilyn y weledigaeth ac unrhyw ffyrdd newydd o weithio sy'n gysylltiedig â hi. Er hynny, mae hyn hefyd yn golygu dod â'n staff presennol gyda ni ar y daith, gan eu trin yn deg a chyda pharch wrth drawsnewid y sefydliad. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i ni feithrin ein gallu i arwain y busnes drwy'r broses o drawsnewid.

Wrth i ni drawsnewid y sefydliad, bydd angen i ni reoli'r newid o'r sefyllfa bresennol i'r un newydd gan barhau i ddarparu gwasanaeth 'busnes fel arfer', ond mae angen i ni adnabod, cadw a recriwtio'r bobl iawn sydd â sgiliau ac ymagwedd briodol i weithredu yn y gwasanaeth yn y dyfodol.

Yn syml, rhaid i GLlTEM ddatblygu a dod yn sefydliad heini yn y tymor hir er mwyn gallu ymaddasu'n well i newidiadau yn anghenion defnyddwyr, gan sicrhau bod strwythur, hinsawdd a galluogrwydd priodol gennym i reoli'r broses o newid a phontio'n dda. Y nod yw sicrhau'r arweinwyr a'r arweinyddiaeth sydd eu hangen ar GLlTEM yn awr ac yn y dyfodol, a meithrin a chynnal gweithlu galluog a gwybodus.

Byddwn yn sefydlu pwrpas cyffredin ac yn sicrhau, wrth osod amcanion, fod modd cysylltu hanfod pob gweithgarwch a gyflawnir yn GLlTEM ag un neu ragor o'r amcanion strategol a bod pob person yn gallu gweld sut y mae'n cyfrannu. Rydym yn cydnabod mai ein hased mwyaf yw ein pobl a bod pobl yn perfformio ar eu gorau pan fydd ganddynt bwrpas.

Byddwn yn paratoi ar gyfer integreiddio rheolaeth ar berfformiad â thalentau a gwobrwyo. Byddwn yn lleihau'r gofyniad am lenwi ffurflenni gan reolwyr ac aelodau staff er mwyn gallu canolbwyntio ar ddatblygiad personol a gyrfa a hwyluso sgyrsiau symlach, byrrach a phwrpasol. Bydd trafodaethau ar reoli talentau'n canolbwyntio ar ddatblygiad personol a gyrfa gan sicrhau bod unigolion yn cael eu harwain ac yn gallu dilyn llwybrau datblygu a gyrfa priodol.

Byddwn yn diffinio ac yn dechrau cynllunio'r strwythur pobl ar gyfer y gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd diwygiedig, gan sicrhau bod arweinyddiaeth yn tyfu, bod galluogrwydd yn gwella a bod talentau'n cael eu cadw. Rydym yn cydnabod bod cynllun presennol y sefydliad yn gymhleth ac aneglur. Mae hyn yn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch beth sydd ei angen i osod y sylfeini ar gyfer newid, i lywio'r newid ac i sicrhau'r trawsnewid. Byddwn yn sicrhau bod strwythurau'r sefydliad yn rhoi'r gallu i gyflawni'r strategaeth ac yn helpu i sefydlu gwasanaethau newydd drwy gasglu a chadw data cywir ar niferoedd staff, lleoliadau a gweithgareddau.

Rhaglen Trawsnewid Cydymffurfio a Gorfodi: Byddwn yn cychwyn proses i drawsnewid ein gwasanaeth cydymffurfio a gorfodi, gan sicrhau ein bod yn dechrau adeiladu gwasanaeth sy'n gwsmer-ganolog ac yn gweithredu ar sail data gan ganolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â gorchmynion y llys. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n timau i gynllunio system newydd a fydd yn y pen draw yn rhoi'r offer a hyfforddiant priodol i staff i ganiatáu iddynt ddarparu gwasanaeth effeithiol. Ochr yn ochr â'r gwaith o gynllunio ein gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, byddwn yn cyfoethogi ac yn ailweithio dyled a oedd wedi'i dileu'n weinyddol cynt er mwyn casglu mwy o ddirwyon.

### Datblygu Ffocws ar y Cwsmer

Er mwyn gwella, rhaid i ni gael dealltwriaeth dda yn gyntaf o farn y cwsmeriaid. Byddwn yn gwneud defnydd o hynny er mwyn gwneud penderfyniadau rheoli gwell, yn genedlaethol ac yn lleol, ar sail anghenion defnyddwyr gan roi pwyslais ar ddefnyddwyr sy'n fwyaf agored i niwed.

Wrth wneud hyn, rhaid i ni beidio â cholli golwg ar yr hyn rydym yn ei wneud yn awr a beth rydym yn ei wneud yn dda. Mae gweithio gyda'n partneriaid, sy'n cynnwys barnwyr ar bob lefel ac ym mhob awdurdodaeth, yn hanfodol i lwyddiant GLlTEM a dylai hyn gael ei feithrin a'i groesawu yn y dyfodol. O ran cyrff allanol, mae angen meithrin ein cysylltiadau ag Adrannau Llywodraeth Eraill a'n partneriaid, gan chwilio am yr arferion gorau a chydgynllunio a darparu gwasanaethau arloesol.

Yn fewnol, rydym am gyrraedd a rhagori ar ein targedau ar ohebiaeth, Cwestiynau Seneddol a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Yn ogystal ag ymateb i gwynion cwsmeriaid yn amserol ac effeithiol, rhaid i ni feithrin ein gallu i ddysgu gwersi oddi wrthynt drwy'r amser ac osgoi methiannau tebyg yn y dyfodol.

Un o'r prif ddyheadau ar gyfer y gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd diwygiedig, sydd hefyd yn un o'r prif fanteision anariannol o drawsnewid GLlTEM, yw y byddwn yn cynnig gwasanaethau gwell o lawer i'r cyhoedd a chymdeithas ehangach. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i ni gael dealltwriaeth o'u hanghenion a'u dymuniadau. Byddwn yn datblygu cyfarwyddiaeth cyfathrebu a chwsmeriaid a fydd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol galluog a rhagweithiol sy'n gallu hybu, hwyluso a chynnal y gweithgarwch sydd ei angen i ddeall ac ymgysylltu â staff, ein holl bartneriaid a'r cyhoedd, yn ystod y broses drawsnewid. Byddwn yn sicrhau bod ein diwygiadau wedi'u seilio ar anghenion y defnyddiwr a bod gweledigaeth gyson a chefnogol yn cael ei sefydlu a'i chynnal.

Byddwn yn gwella profiad y cwsmer ar gyfer dioddefwyr a thystion drwy gydweithio â'r Comisiynydd Dioddefwyr ar ddefnyddio Datganiadau Personol Defnyddwyr a chyda'r Rhaglen Ddiwygio er mwyn gwneud mwy o ddefnydd o wrandawiadau rhithwir. Byddwn hefyd yn cyfrannu i gynlluniau'r Llywodraeth i gyflwyno Cyfraith Dioddefwyr.

# 2.4 Ein perfformiad mewn meysydd eraill y mae'n ofynnol adrodd arnynt

Yn ogystal â'n blaenoriaethau busnes, mae GLlTEM wedi ymrwymo i sicrhau gwelliannau yn yr holl feysydd y mae'n ofynnol i ni adodd arnynt.

## 2.4.1 Cyllid

Rydym wedi rheoli ein gwariant yn ofalus i gwrdd â heriau'r gyllideb yn 2015–16. Yn ogystal â chynyddu incwm o ffioedd, mae ein gwariant gweithredu net yn £82 miliwn yn llai nag yn 2014–15.

Roedd y cynnydd o £87 miliwn yn yr incwm o ffioedd yn 2015–16 wedi'i sbarduno drwy gyflwyno ffioedd uwch am hawliadau arian sifil o werth uchel ym Mawrth 2015, lle mae gwerth y ffi yn gysylltiedig â gwerth yr hawliad. Roedd ffioedd am geisiadau am ysgariad, meddiant a cheisiadau cyffredinol wedi cynyddu ym Mawrth 2016.

Cafwyd gostyngiad mewn gwariant drwy reoli gwariant ar fusnes fel arfer, drwy gyfyngu gwariant ar deithio a chynhaliaeth er enghraifft, a thrwy arbedion effeithlonrwydd o £80 miliwn.

Roedd y cyhoeddiad am gau 86 o adeiladau llys a thribiwnlys dros y ddwy flynedd nesaf wedi ysgogi lleihad mewn gwerth o £150 miliwn yn swm cario'r safleoedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad yn eu hoes economaidd ddefnyddiol.

## 2.4.2 Cynaliadwyedd

Hwn yw pumed Adroddiad Cynaliadwyedd GLlTEM a baratowyd yn unol â chanllawiau 2011–12 a osodwyd gan Drysorlys EM yn 'Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting' a gyhoeddwyd yn:

http://www.gov.uk/government/publications/government-financial-reporting-manual/

Mae'r adroddiad hwn yn cydymffurfio â'r cwmpas a manylion sydd wedi'u nodi yn Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (YGLl). YGLl yw'r prif ysgogydd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ar draws llywodraeth ac maent yn cynnwys nifer o dargedau ar gyfer gwella mewn meysydd fel carbon o ynni, gwastraff, dŵr a bioamrywiaeth.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymrwymo i gyrraedd targedau'r llywodraeth yn y maes hwn, gan leihau ei heffaith amgylcheddol a lleihau costau. Ymhlith y blaenoriaethau y mae lleihau allyriadau carbon, y defnydd o ddŵr a gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.

### Materion a hepgorwyd ac amcangyfrifon

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â 480 o adeiladau. Nid yw adeiladau a feddiannir ar y cyd wedi'u cynnwys oherwydd y cyfyngiad ar y gallu i allosod data dibynadwy ar gynaliadwyedd ar sail data am daliadau gwasanaeth. Roedd 80 o adeiladau'n cael eu meddiannu ar y cyd yn 2015–16. Gan fod y rhain yn fach ac, yn achos rhai a feddiannir ar y cyd, yn destun adroddiadau gan y prif feddiannydd, nid oes nemor ddim gwerth mewn allosod y data ar gynaliadwyedd ar eu cyfer. Mae hyn yn gyson â'r arfer mewn llywodraeth yn gyffredinol a'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf. Nid ydym yn credu bod hepgor y safleoedd hyn yn cael effaith sylweddol ar adrodd ar gynaliadwyedd yn gyffredinol.

### Perfformiad

At ei gilydd, roedd GLlTEM wedi sicrhau gostyngiad o 9% mewn nwyon tŷ gwydr. Roedd amodau'r hinsawdd a brofwyd yn ystod 2015–16 yn debyg iawn i'r rheini yn ystod 2014–15 a chafwyd gaeaf eithriadol o fwyn yn y ddwy flwyddyn. Cafwyd gostyngiad o 10.6% yn y defnydd o drydan a gostyngiad o 5.7% yn y defnydd o nwy ar draws yr ystad.

Rydym wedi rhagori ar y targed ar gyfer carbon drwy leihau ein hystad weinyddol, hyrwyddo gwaith cynnal, cydweithio â'n darparwyr rheoli cyfleusterau i wella perfformiad adeiladau ac wedi cyflawni prosiectau i leihau allyriadau carbon.

| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr (NTG)** | | **2013–14** | **2014–15** | **2015–16** |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (tCO2e) | Cwmpas 1 (Uniongyrchol) Allyriadau ar safleoedd ac o drafnidiaeth rydym yn berchen arni. | 34,797 | 32,938 | 30,506 |
| | Cwmpas 2 (Anuniongyrchol) Ynni a gyflenwyd (Trydan a gwres) | 59,393 | 65,954 | 59,589 |
| | Cwmpas 3 (Arall anuniongyrchol) Teithio ar gyfer busnes a cholledion wrth drosglwyddo ynni a gyflenwyd. | 8,430 | 8,558 | 8,373 |
| | **Cyfanswm yr allyriadau NTG gros** | **102,620** | **107,450** | **98,468** |
| | Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | (14,698) | (16,330) | (10,840) |
| | **Cyfanswm yr allyriadau NTG net** | **87,922** | **91,120** | **87,628** |
| Anariannol (kWh) | Trydan: Grid, CHP ac anadnewyddadwy | 98,984 | 99,124 | 88,585 |
| | Trydan: adnewyddadwy | 32,993 | 33,039 | 29,526 |
| | Nwy | 173,686 | 169,388 | 159,633 |
| | Ffynonellau ynni eraill | 5,395 | 4,507 | 3,385 |
| | **Cyfanswm ynni** | **311,058** | **306,058** | **281,129** |
| Dangosyddion ariannol | Gwariant ar ynni (£miliwn) | 26.2 | 23.6 | 18,9 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol (£miliwn) | 12.7 | 7.8 | 6.4 |

Yn ystod 2015–16, cynhyrchodd ystad GLlTEM gyfanswm o 8,362 o dunelli o wastraff; 34% yn llai na'r ffigur llinell sylfaen ar gyfer 2009–10. O gyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd, dargyfeiriwyd 79% (6,577 o dunelli) oddi wrth waredu mewn safleoedd tirlenwi a chyfeiriwyd 57% (4,770 o dunelli) i'w ailddefnyddio a'i ailgylchu a 19% (1,541 o dunelli) i'w losgi i gynhyrchu ynni o wastraff. Roedd y fenter ailgylchu gwastraff bwyd yn rhanbarthau De-ddwyrain Lloegr, De-orllewin Lloegr a Llundain wedi cyfeirio 259 o dunelli (3%) o wastraff i weithrediadau compostio a threulio anaerobig.

Gellir priodoli'r gostyngiad mewn gwastraff i ddigideiddio, gwell dulliau casglu data a newid mewn ymddygiad.

| Gwastraff | | | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli) | Gwastraff nad yw'n beryglus | Gwastraff tirlenwi | 3,045 | 2,517 | 1,784 |
| | | I'w adfer (treulio anaerobig a chompostio) | 9 | 154 | 259 |
| | | I'w losgi | 5 | 5 | 8 |
| | | Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ ailgylchu | 5,613 | 5,913 | 4,770 |
| | | Ynni o wastraff | 1,388 | 963 | 1,541 |
| | **Cyfanswm y gwastraff a gododd** | | **10,060** | **9,552** | **8,362** |
| **Dangosyddion ariannol** | **Cyfanswm y costau gwastraff (£miliwn)** | | **2.1** | **2.6** | **2.5** |

Mae GLlTEM wedi ymrwymo i leihau'r defnydd o ddŵr ar draws yr ystad a thrwy barhau i ymgysylltu â chontractwyr bydd yn ceisio gwella'r dulliau o gasglu data a lleihau'r defnydd o ddŵr ymhellach.

| Dŵr | | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol | Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd (metrau ciwbig – m3) | 805,947 | 734,613 | 507,895 |
| Dangosyddion ariannol | Cyfanswm costau cyflenwi dŵr (£miliwn) | **2.3** | **2.6** | **2.4** |

Dechreuodd GLlTEM ddefnyddio contract cyflenwi swyddfeydd y Llywodraeth gyfan (GOSG) yn Hydref 2011 a'r gobaith yw y byddwn yn gallu lleihau ein defnydd o bapur gan ddilyn strategaeth ddigidol.

| Papur | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 |
|---|---|---|---|
| Cost (£miliwn) heb gynnwys TAW | **1.6** | **1.1** | **1.4** |

### Llywodraethu, cyfrifoldebau a sicrwydd mewnol

Mae'r broses llywodraethu a sicrwydd gyffredinol yn cael ei rheoli gan Dîm Gweithredu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i weithio ar leihau ei heffaith amgylcheddol ar draws yr ystad.

Mae rhai cyfyngiadau ar gywirdeb ein data ar gynaliadwyedd ariannol ac anariannol ac rydym wedi ymrwymo i wella ansawdd ein rheolaethau mewnol, er enghraifft drwy archwilio mewnol, a thrwy barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

### Polisi ar Weithrediadau Cynaliadwy

O dan y Tîm Gweithrediadau Cynaliadwy newydd, mae polisïau ar lywodraethu ac ar ynni a dŵr yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, sy'n pennu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni a dŵr, yn cael eu hadolygu a bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyhoeddi datganiad polisi canolog ynghyd â chynllun cyflawni byr yn 2016.

Yn y dyfodol, bydd Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a gytunwyd rhwng y partïon cysylltiedig a'r Gyfarwyddiaeth Ystadau, yn cynnwys lefel y gwasanaethau cynaliadwyedd sydd ar gael iddynt a'u priod gyfrifoldebau tuag at y Tîm Gweithrediadau Cynaliadwy.

Yn ogystal â hyn, mae'r Tîm Gweithrediadau Cynaliadwy yn adolygu'r polisi dŵr ac yn bwriadu ymgysylltu â chynrychiolwyr ardaloedd a chontractwyr er mwyn lleihau ein defnydd o ddŵr ymhellach.

### Cynllun Adrannol Sengl y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae'r Cynllun Adrannol Sengl yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y system gyfiawnder a sut y bydd ein diwygiadau uchelgeisiol yn trawsnewid y gwasanaethau a ddarparwn. Cytunwyd â Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM ar y cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r llywodraeth a bod modd ei gyflawni o fewn cyllidebau'r adolygiad o wariant.

https://www.gov.uk/government/publications/moj-single-departmental-plan-2015-to-2020/single-departmental-plan-2015-to-2020

### Polisi masnachol

Yn unol â pholisi masnachol y Weinyddiaeth Cyfiawnder o fabwysiadu'r arferion gorau o ran moeseg, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch wrth gwrdd ag anghenion busnes, dylid dilyn dull cynaliadwy bob amser wrth gaffael.

Yn benodol, mae DEFRA yn darparu manylion Safonau Prynu'r Llywodraeth ar gyfer amrywiaeth o gynhyrchion. Mae'n ofynnol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gydymffurfio â gofynion sylfaenol y safonau hyn a rhaid eu cynnwys ym mhob math o weithgarwch tendro lle maent yn berthnasol.

Rhoddir adroddiad blynyddol ar gyflawni'r safonau hyn o dan Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth ac adroddwyd bod cydymffurfiaeth lwyr â'r rhan fwyaf ohonynt. Yn benodol, y tendr cyfredol am fwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw'r broses caffael gyntaf ar raddfa fawr sy'n defnyddio cerdyn sgorio cytbwys DEFRA, sydd nid yn unig yn cwrdd â gofynion Safonau Prynu'r Llywodraeth ond hefyd yn mynd ymhellach drwy sefydlu datblygu parhaus mewn nifer o feysydd.

Mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder hanes o lwyddiant o ran ei pherfformiad ar y dyhead sydd wedi'i ddatgan gan lywodraeth y bydd 33% o'r gwariant ar gaffael gan lywodraeth yn mynd at fusnesau bach a chanolig eu maint. Hon yw'r adran sy'n perfformio orau, ac roedd £2 biliwn (41.6%) o'r gwariant ar gaffael wedi mynd at fusnesau bach a canolig eu maint yn 2014–15.

### Ymwybyddiaeth gymdeithasol ac amgylcheddol

Mae GLlTEM wedi parhau i fapio nodweddion biolegol ei ystadau er mwyn deall ym mhle y mae angen iddo ddelio â materion statudol a gorfodol mewn perthynas â rhywogaethau a chynefinoedd sydd â blaenoriaeth. Cyflawnwyd y gwaith mapio hwn ar y cyd â rhwydwaith ecoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder a phartneriaid lleol a chenedlaethol ym maes bywyd gwyllt. Mae GLlTEM eisoes wedi darparu nifer o gydgysylltwyr ecoleg gwirfoddol sy'n gweithio gyda'u hymddiriedolaethau natur lleol a phrosiectau natur cenedlaethol fel Big Garden Birdwatch[1] a B-Lines.[2]

### Ymrwymiad Lleihau Carbon

Mae'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (YLlC) yn system orfodol ar gyfer adrodd ar ynni i ddefnyddwyr ynni ar raddfa ganolig a mawr. Rhaid i'r cyfranogwyr baratoi adroddiadau blynyddol manwl ar eu defnydd o ynni a phrynu digon o lwfansau ar gyfer eu priod effaith garbon. Mae Tîm Gweithrediadau Cynaliadwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn rheoli'r YLlC ar ran ei holl adrannau er bod croniadau a chyllidebau'n cael eu rheoli ar lefel yr adrannau. Rhagwelir mai'r lwfansau carbon cysylltiedig ar gyfer 2015–16 fydd £1,648,060.

### Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd

Mae addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd wedi bod yn her i ystad GLlTEM yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig i lysoedd sydd wedi profi'r effeithiau gwaethaf o'r llifogydd a achoswyd ganddo. Fodd bynnag, drwy ddilyn eu cynlluniau busnes wrth gefn ar gyfer safleoedd penodol, mae'r llysoedd wedi gallu parhau â'u gwasanaeth proffesiynol yn ddirwystr. Er hynny, roedd hyn yn dangos bod angen o hyd am gofrestr perygl o lifogydd gyfredol. Mae tîm datblygu cynaliadwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i gydweithio'n agos â GLlTEM ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ddiweddaru ei holl gofrestrau risg ac, os oes modd, darparu unrhyw ymchwil newydd ar y newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu i'r rhanbarthau neu ardaloedd a darparwyr rheoli'r cyfleusterau.

### Cynlluniau gweithredu ar fioamrywiaeth

Mae GLlTEM wedi cydweithio'n agos â'i ddarparwr rheoli cyfleuster ar ei safle dynodedig yn Llys y Goron Snaresbrook a rhwydwaith ecoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder i gyflawni Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Yn ogystal â hyn, er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol ar y safle, mae rhwydwaith ecoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi drafftio Cytundeb Rheoli Safle, sy'n pennu cynlluniau ac amcanion rheoli statudol ar gyfer cynefinoedd a fydd yn diogelu nodweddion biolegol pwysig y safle. Ymhlith y gwelliannau a gafwyd yn ddiweddar y mae sefydlu gwarchodfa ymlusgiaid a choridorau bywyd gwyllt a rhaglen uchelgeisiol ar gyfer gosod blychau nythu.

---

[1] Mae rhagor o fanylion ar gael am Biodiversity 2020 – www.gov.uk

[2] Mae rhagor o fanylion ar gael am safleoedd dynodedig Ewropeaidd – http://jncc.defra.gov.uk/page-1527

### Prawfesur gwledig

Mae ystad y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cadw ei hyblygrwydd wrth edrych ar ei hystad weithredol, a thrwy system gynllunio gadarn a blaengar mae tîm datblygu cynaliadwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymateb yn gyflym i faterion cynllunio fel cynlluniau trafnidiaeth, asesiadau effaith ecolegol, yn ogystal â chynlluniau cymdeithasol a chymunedol lleol. Drwy gydweithio'n agos â thimau prosiectau a thimau dylunio technegol yr ystad ar ddechrau cynlluniau adeiladu newydd yn benodol, rydym wedi gallu delio â materion polisi pwysig mewn perthynas â'r uchod a materion eraill mwy blaengar fel yr ôl troed carbon, amrywiaethu gwledig a gwasanaethau ecosystem ar lefel y dirwedd.

### Adeiladu cynaliadwy

Mae'n ofynnol bod pob cynllun adnewyddu ac adeiladu o'r newydd yn cael ei asesu ar sail Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) a'i fod yn cyrraedd safon 'da iawn' yn achos gwaith adnewyddu a 'rhagorol' yn achos gwaith adeiladu o'r newydd. Yn ogystal â hyn, mae'r adran wedi ymrwymo i leihau maint y gwastraff adeiladu a anfonir i safleoedd tirlenwi ac yn sicrhau bod yr holl brosiectau mawr ar gyfer adnewyddu neu adeiladu o'r newydd yn cynnwys cymalau sy'n gofyn am fanylion ynghylch ffrydiau gwastraff. Yn ystod 2015–16 roedd 13 o gynlluniau adeiladu o'r newydd a dau gynllun adnewyddu wedi'u cofrestru neu eu cwblhau. Roedd pob un ohonynt wedi cyrraedd y safon ofynnol o dan BREEAM.

## 2.4.3 Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol yn 2015–16

Mae'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (OSGI) yn ymchwilio i gwynion oddi wrth unigolion sydd wedi cael gwasanaeth gwael gan adrannau llywodraeth, sefydliadau cyhoeddus eraill a'r GIG yn Lloegr. Mae ganddo bŵer cyfreithiol i ymchwilio a gwneud penderfyniad terfynol ynghylch gwasanaethau cyhoeddus ar ran unigolion. Mae hefyd yn gallu argymell sut i gywiro camgymeriadau a gofyn i sefydliadau lunio cynlluniau gweithredu i ddangos sut y byddant yn cael eu cywiro.

Ymchwiliodd yr OSGI i 75 o gwynion yn erbyn GLlTEM ym mlwyddyn galendr 2015.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod canran y cwynion a oedd heb gael eu cadarnhau gan yr OSGI yn uwch na'r ffigurau ar gyfer y ddwy flynedd blaenorol.

| | 2015 | % | 2014 | % | 2013 | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymchwiliadau a gwblhawyd gan yr OSGI | 63 | 100 | 51 | 100 | 30 | 100 |
| Cwynion yn erbyn GLlTEM a gadarnhawyd | 9 | 14 | 8 | 14 | 8 | 26 |
| Cwynion a gadarnhawyd yn rhannol | 20 | 32 | 17 | 34 | 10 | 33 |
| Cwynion yn erbyn GLlTEM a oedd heb eu cadarnhau | 34 | **54** | 26 | **52** | 12 | **40** |

Yn unol ag egwyddorion yr OSGI, mae GLlTEM wedi gweithredu system i rannu'r gwersi a ddysgwyd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth i gwsmeriaid yn parhau i wella. Er enghraifft, roedd aelod o'r cyhoedd wedi profi oedi hir wrth orfodi gwarant

am nad oedd cyfleuster i ychwanegu ail ddiffynnydd drwy ddull electronig. O ganlyniad i ymchwiliad yr OSGI i'r gŵyn, datblygodd GLlTEM broses newydd ar gyfer hawlwyr sy'n dyroddi gwarantau ar y cyd â llaw.

Yn ogystal â hyn, mae GLlTEM wedi ymgymryd â gwaith gyda staff ar draws y rhanbarthau i wella ymwybyddiaeth o ddelio â chwynion. O ganlyniad i hyn, cafwyd ffyrdd gwell o gofnodi cwynion, a hynny'n dangos y pwys rydym yn ei roi ar ddysgu oddi wrth ein cwsmeriaid ac ymateb i'r adborth a gawn.

**Kevin Sadler**
**Prif Weithredwr (Dros Dro) a Swyddog Cyfrifyddu**
4 Gorffennaf 2016

# Adran 3: Ein hadroddiad ar reolaethau, llywodraethu ac atebolrwydd

# 3.1 Ein strwythur yn 2015–16: ein staff a'n strwythur rheoli uwch

Mae GLlTEM yn sefydliad gwasgaredig sydd â gwariant blynyddol o tua £1.7 biliwn a chynlluniau incwm o £914 miliwn. Mae'r sylfaen gostau gyffredinol yn cynnwys tri maes gwariant gweddol gyfartal: staff GLlTEM, barnwyr sy'n derbyn cyflog neu ffioedd, ac ystadau.

Rydym yn cyflogi tua 16,000 o staff cyfwerth ag amser llawn ac yn gweithio gyda 1,800 o farnwyr amser llawn, 7,500 o farnwyr sy'n derbyn ffioedd a thua 19,500 o ynadon mewn 471 o adeiladau.

AFel y dangosir isod, mae nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu cyflogi'n barhaol gan GLlTEM wedi gostwng 953 rhwng 2014–15 a 2015–16, ac mae'r costau staff cysylltiedig wedi gostwng o £509 miliwn yn 2014–15 i £501 miliwn yn 2015–16. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y farnwriaeth. Mae gwybodaeth am gostau a niferoedd y farnwriaeth ar dudalen 107.

Yn ogystal â hyn, mae staff galluog iawn a gyflogir gan asiantaethau ac o dan gontractau yn gweithio yn GLlTEM, a'u nifer yn cyfateb i 1,077 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, ac yn cyflawni rolau rheng flaen gan mwyaf. Gan y bydd ein gweithlu'n lleihau dros y 4 i 5 mlynedd nesaf, rydym wedi recriwtio staff i gyflawni rolau ar sail dros dro o fwriad er mwyn lleihau'r risg o ddileu swyddi ein gweithlu presennol, ac i leihau'r costau hirdymor am ddileu swyddi o ganlyniad i gyflogi staff yn awr gan wybod na fyddwn yn gallu cynnig rôl dymor hir iddynt.

## 3.1.1 Ein staff

Mae ein staff yn hanfodol i'n llwyddiant. Mae natur a graddfa'r moderneiddio a wynebwn wrth newid ein ffordd o weithredu drwy awtomeiddio yn creu galwadau newydd ar ein staff. Yr her i'n harweinwyr yw cynnal y gwasanaeth i'n defnyddwyr wrth ddatblygu a darparu gwasanaeth a fydd wedi'i drawsnewid yn sylfaenol a gofalu yr un pryd am ein pobl i'w helpu i ymdopi â'r ansicrwydd a'r amwysedd a geir yn sgil newid.


Felly rydym wedi datblygu egwyddorion sylfaenol ar gyfer y ffordd y byddwn yn ymgysylltu â'n pobl. Byddwn yn eu cynnwys yn y broses o newid er mwyn rhoi cyfle iddynt ddylanwadu ar y dyfodol a chael rhan ynddo, a byddwn yn trin pobl fel oedolion drwy ddeialog gonest, tryloyw ac amserol ynghylch newid.

Ar ddiwedd 2015, rhoesom raglen ddatblygu ar waith ar gyfer ein harweinwyr gan roi pwyslais yn gyntaf ar feithrin gallu mewn ymddygiad arwain sy'n ddilys, yn hunanymwybodol ac yn emosiynol ddeallus. Yn y cam cyntaf roedd y tîm gweithredol a thua 200 o'r arweinwyr mwyaf dylanwadol ym mhob rhan o GLlTEM wedi cynnal ymarfer proffilio deallusrwydd emosiynol i hybu hunanymwybyddiaeth a llunio cynlluniau datblygu personol gyda chymorth hyfforddwyr.

Byddwn yn elwa o'r gwersi a ddysgir o'r gweithgareddau hyn wrth ehangu'r rhaglen ddatblygu i gynnwys yr holl arweinwyr wrth ddechrau rhoi'r rhaglen newid gyfan ar waith.

### Nifer cyfartalog y staff a gyflogir1

Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a dalwyd yn ystod y flwyddyn oedd 16,286 (2014–15: 17,033) ac roedd hyn yn cynnwys y canlynol:




### Y costau staff oedd:[1]

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflogau | 369,472 | 384,803 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 23,042 | 24,304 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 72,130 | 66,139 |
| Costau staff asiantaeth | 34,878 | 26,352 |
| Ymadael cynnar gwirfoddol | 1,699 | 8,240 |
| | **501,221** | **509,838** |
| Ychwanegu: secondiadau i mewn | 561 | 111 |
| | **501,782** | **509,949** |
| Llai: costau a adenillwyd yng nghyswllt secondio allan | (490) | (486) |
| **Cyfanswm y costau staff** | **501,292** | **509,463** |


[1] Bydd yr adran hon yn cael ei harchwilio.

### Absenoldeb oherwydd salwch

Ar ôl cyrraedd lefel sefydlog yn ail hanner 2014–15, cafwyd gwelliant o ran nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd salwch ac mae hyn wedi parhau drwy gydol y flwyddyn.

Ar ddiwedd Mawrth roedd y ffigur wedi gostwng i 8.3 diwrnod y person (yn cynnwys ymadawyr) o 8.7 diwrnod yn 2014–15.

Mae hyn yn ganlyniad i'r gweithgarwch gwella a gyflawnwyd yn 2015–16 ar ôl mabwysiadu Cynllun Iechyd a Llesiant GLlTEM, ond gellir sicrhau gostyngiadau pellach yn y flwyddyn i ddod.




### Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae GLlTEM wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried gwahanol anghenion ein staff a phawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn hyrwyddo diwylliant lle mae staff a defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu trin yn deg a chyda pharch. Rydym yn sicrhau ein bod yn sensitif i anghenion pobl sy'n agored i niwed neu wedi'u hallgáu'n gymdeithasol.

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau cydraddoldeb i staff a defnyddwyr gwasanaethau anabl. Rydym wedi mabwysiadu polisi ar addasiadau rhesymol sy'n darparu ar gyfer cynnig cyngor, cymorth ac arweiniad ynghylch sut i ystyried a gwneud addasiadau rhesymol fel bod pobl anabl yn gallu cael ein gwasanaethau. Mae canllawiau ar gefnogi staff anabl a darparu addasiadau rhesymol wedi'u cynnwys yn Llawlyfr Abledd y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r adran wedi'i hawdurdodi i ddefnyddio'r Cynllun Dau Dic ac mae'n cymryd rhan yn y Cynllun Gwarantu Cyfweliad i ymgeiswyr sydd ag anabledd.


Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg 2013–16 yn amlinellu sut y mae GLlTEM yn gweithredu'n unol â'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail

eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae ein cynllun yn disgrifio'r ffordd rydym yn ymateb i'r newidiadau mynych yn y cyd-destun yng Nghymru o ran ein gwasanaethau Cymraeg a darpariaeth ar draws y system gyfiawnder ehangach. Wrth weithredu'r cynllun yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd Uned Iaith Gymraeg GLlTEM wedi delio â llwyth cynyddol o waith cyfieithu, gan ehangu ei sylfaen gwsmeriaid ymhellach. Mae ein gwasanaeth Llinell Gymorth Gymraeg hefyd yn ehangu gan chwarae rhan bwysig wrth wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid a lleihau nifer y cwynion yng nghyswllt y Gymraeg.

Fel un o deulu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, rydym wedi penodi eiriolwyr dros amrywiaeth sy'n darparu arweiniad ac yn canolbwyntio ar ein strategaeth ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â rhwydweithiau staff i hyrwyddo a hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Rydym yn cymryd rhan yn llwyddiannus yn rhaglen Amser i Newid yr elusennau iechyd meddwl yn ogystal ag annog ein staff i ddod yn Ffrindiau Dementia.

Mae'r holl staff yn cael cyfarwyddyd a hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gwybod sut i gwrdd â gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu gwaith pob dydd ym mhob un o'n meysydd busnes.


Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried anghenion pob unigolyn wrth ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau mewn perthynas â'u cyflogeion a'u defnyddwyr gwasanaethau eu hunain. Rydym yn dangos ein bod yn rhoi'r sylw dyledus angenrheidiol i'r ddyletswydd hon drwy asesu effeithiau ar gydraddoldeb ar ddechrau ac yn ystod camau i ddatblygu polisi a phrosiectau newid mawr. Mae hyn yn sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cymryd gan y bobl briodol ar yr adeg briodol.



Ar 31 Mawrth 2016, roedd y rhaniad o ran rhywedd ymysg cyflogeion fel a ganlyn:

| | Dynion | Menywod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Aelodau bwrdd gweithredol ac anweithredol | 4 (44%) | 5 (56%) | **9** |
| Uwch reolwyr (Uwch Weision Sifil) | 23 (56%) | 18 (44%) | **41** |
| Cyflogeion eraill | 4,795 (29%) | 11,856 (71%) | **16,651** |
| **Cyfanswm** | **4,822 (29%)** | **11,879 (71%)** | **16,701** |

Cymharu ethnigrwydd ar sail Cyfrif Pennau




## Ymgysylltu â chyflogeion

Lansiwyd Arolwg Pobl 2015 yn Hydref 2015 i roi cyfle i staff roi eu barn am amrywiaeth o bynciau sy'n effeithio arnynt (gweler isod). Roedd y canlyniadau ar gyfer GLlTEM yn dangos cyfradd ymateb o 66% (2% yn is nag yn yr arolwg blaenorol) a Mynegrif Ymgysylltu o 51% (2% yn is nag yn yr arolwg blaenorol).

Cynhaliwyd gweithdai 'gweithredu ar ganlyniadau' lleol a lluniwyd cynlluniau gweithredu lleol ac adroddir ar y rhain yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Fodd bynnag, yn dilyn Arolwg Pobl 2014, drwy gydol 2015, o dan arweiniad eiriolwyr ymgysylltu â chyflogeion, datblygodd GLlTEM gynllun cynhwysfawr i ymateb a chymryd camau. Mae nifer o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni ers hynny, ac wedi cael eu hategu gan fentrau a chynlluniau gweithredu lleol.

**Rhaglen ddatblygu** – Gan ddilyn adborth, roedd y Gwasanaeth Cydymffurfio a Gorfodi Cenedlaethol wedi sefydlu a rhedeg rhaglen ddatblygu ar gyfer staff ym Mandiau E ac F. Nod y rhaglen oedd helpu i ddatblygu staff gweinyddol a hybu ymwybyddiaeth o'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol gan reolwyr GLlTEM. Ar ôl cwblhau'r rhaglen, cafodd staff eu hannog i gymryd rhan mewn gwahanol weithdai ymgysylltu a rhoddwyd cyfleoedd iddynt ddirprwyo dros reolwyr llinell gyntaf. Yn y digwyddiad terfynol, roedd y cyfranogwyr wedi darparu cyflwyniadau i grwpiau, i aelodau o'r uwch dîm rheoli ac i'w rheolwyr llinell am yr hyn roeddent wedi'i ddysgu drwy'r rhaglen.

Roedd Asha Kumari wedi cymryd rhan yn y cwrs ac ers hynny mae wedi ennill Lwfans Cyfrifoldeb Dros Dro am gyflawni rôl ar lefel uwch am gyfnod penodol. Fe ddywedodd am y rhaglen:

> "Cefais fy rhoi mewn tîm gyda phedwar arall nad oeddwn wedi cwrdd â nhw o'r blaen a gwnes i nifer o ffrindiau da dros y chwe mis. Erbyn diwedd y cwrs roeddwn yn gallu sefyll o flaen llond ystafell o bobl a rhoi ein cyflwyniad yn hyderus. Teimlad braf iawn oedd gallu trechu fy ofn mwyaf, rhywbeth nad oeddwn erioed wedi meddwl y byddwn yn gallu ei wneud.
>
> "Ers cymryd rhan yn y rhaglen rwyf yn teimlo fy mod yn gallu wynebu heriau newydd gyda barn wahanol a chwilio am atebion a ffyrdd o weithio, ac mae hyn wedi rhoi hyder i mi ymgysylltu a herio pobl – rhywbeth na fyddwn wedi'i wneud o'r blaen. Mae hyn wedi fy helpu yn fy mywyd personol hefyd. Byddwn yn argymell cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu i rywun." Mae cyn-gyfranogwyr y rhaglen yn gweithredu fel hyfforddwyr yn y rhaglenni newydd ac mae hyn wedi hybu eu datblygiad ymhellach.

Dywedodd Zoe Evison (Swyddog cydymffurfio a gorfodi) o Avon a Gwlad yr Haf:

> "Roeddwn wedi penderfynu cymryd rhan yn y rhaglen hon yn wreiddiol er mwyn cael dealltwriaeth o rôl y rheolwr a chael rhagor o wybodaeth gan obeithio y byddai o gymorth i mi, fy nghydweithwyr a phob un o'n rhanddeiliaid. Roeddwn am roi her i mi fy hun, ehangu fy nghyfleoedd a chael dealltwriaeth o waith ehangach y Gwasanaeth Sifil."

## Dysgu a datblygu

**Arolwg Galluogrwydd GLlTEM**
Yn Hydref a Thachwedd 2014 cynhaliwyd Arolwg Galluogrwydd ar draws y sefydliad a'r canfyddiadau arwyddocaol oedd

**Arolwg Galluogrwydd:**
Dywedodd 92% o'r staff a holwyd eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y ddarpariaeth dysgu a datblygu sydd ei hangen arnynt

Dywedodd 88% o'r staff a holwyd eu bod **yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen** i wneud eu swydd bresennol

**Cododd tair blaenoriaeth o'r arolwg o ran galluogrwydd ar gyfer 2015–2016**
- Arwain a rheoli newid
- Sgiliau digidol
- Craffter busnes GLlTEM – rydym yn galw'r wybodaeth a'r cyd-destun o ran busnes yn graffter busnes: mae hyn yn rhywbeth unigryw i GLlTEM ac yn cynnwys elfennau o graffter masnachol ac ariannol ac yn gosod y sgiliau hyn yng nghyd-destun busnes penodol ein ffordd o weithredu.

Mewn ymateb i ganlyniadau'r arolwg o alluogrwydd, lluniodd GLlTEM lyfrynnau i'r holl staff sy'n tynnu sylw at y prif flaenoriaethau ar gyfer datblygu yn 2015–16; yn nodi'r gwersi perthnasol i'w dysgu gan wahanol grwpiau o staff a chysylltu staff a rheolwyr â'r opsiynau datblygu sydd ar gael. Yn ogystal â gweithgarwch datblygu unigol drwy Civil Service Learning (CSL), cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau i gwrdd â'r anghenion penodol hyn gan gynnwys y canlynol:

**Arwain a rheoli newid:**
- Rhoddwyd cyfle i holl uwch arweinwyr GLlTEM fynd i o leiaf un o ddigwyddiadau CSL ac o leiaf un dosbarth meistr ar arwain newid.
- Roedd 200 o'r prif arweinwyr yn GLlTEM wedi ymgymryd â phroffilio deallusrwydd emosiynol i'w helpu i adnabod eu cryfderau arwain a meysydd i'w datblygu, ac maent yn dilyn setiau dysgu gweithredol i ategu'r gwersi a ddysgwyd.
- Darparwyd rhaglen ddatblygu genedlaethol ar gyfer staff a enwebwyd gan y busnes.
- Roedd nifer wedi dechrau dysgu ar gyfer cymwysterau rheoli CMI a gwahanol brentisiaethau.
- Roedd rhanbarthau wedi cynnig digwyddiadau rheoli newid i staff Band C sydd ag anghenion penodol a chynhaliwyd amrywiaeth o raglenni datblygu teilwredig yn y rhanbarthau ar gyfer staff Band D ('adeiladu'r dyfodol' – arwain newid) a Band E ac F.

**Digidol:**

- Rhoddwyd hyfforddiant teilwredig penodol i bobl sy'n gweithio gyda chynhyrchion digidol newydd.
- Mae'r holl gynghorwyr cyfreithiol wedi gwneud dadansoddiad o fylchau sgiliau a lle nodwyd anghenion generig am ddysgu, trefnwyd i gynhyrchion CSL fod ar gael iddynt yn ogystal ag eraill fel teipio cyflym.

**Craffter busnes**

- Rhoddwyd cyfle i'r holl uwch arweinwyr fynd i ddigwyddiad a gynhaliwyd gan CSL ar ymwybyddiaeth ariannol a masnachol.
- Cafodd fideo a deunydd e-ddysgu eu datblygu a'u cynnig i'r holl staff.
- Mae amrywiaeth o ddeunydd dysgu wedi bod ar gael i staff ar sgiliau masnachol ac ariannol – gyda modiwlau penodol ar gyfer staff mewn gwahanol Fandiau.



Cefnogi ein blaenoriaethau allweddol a meithrin gallu o ran arwain a rheoli newid drwy **ddarparu cyfleoedd dysgu i 1,713 o'n harweinwyr**

## Ein hymrwymiad i'r Proffesiwn Cyflawni Gweithredol

Mae Proffesiwn Cyflawni Gweithredol y Gwasanaeth Sifil yn sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau a'r diogelwch sydd eu hangen arnynt. Mae 280,000 o aelodau'r proffesiwn yn darparu gwasanaethau a diogelwch ar draws y gwasanaeth sifil. I staff yn GLlTEM, mae'r Proffesiwn Cyflawni Gweithredol yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu gyrfa yn ogystal ag ymdeimlad o hunaniaeth broffesiynol.

Yn 2015, roeddem wedi rhedeg 93 o weithdai i feithrin gallu 1,556 o aelodau'r proffesiwn yn GLlTEM yn y meysydd canlynol:

- addasu'ch ymddygiad ar gyfer y cwsmer
- dileu gelyniaeth a rheoli gwrthdaro
- delio â galwadau ffôn ymestynnol mewn amgylchedd teleffoni
- technegau cyf-weld ymchwiliol

Derbyniodd GLlTEM ei gohort cyntaf o brentisiaid o dan y Cynllun Prentisiaethau Cyflawni Gweithredol yn Rhagfyr 2015. Prentisiaeth lefel 3 yw hon ac ar ôl ei chwblhau'n llwyddiannus bydd y prentisiaid yn dod yn aelodau parhaol o GLlTEM.

Gan gynnwys y prentisiaid, mae **351 o aelodau'r proffesiwn yn gweithio i ennill cymwysterau** ar hyn o bryd, rhwng lefel 2 a lefel 7

**Tystysgrif Lefel 2** i Dywyswyr Llys – 140 a **Diploma Lefel 3** mewn Clercio mewn Llysoedd a Thribiwnlysoedd – 69

Mae 284 o'n staff yn cynyddu eu galluogrwydd drwy ymgymryd â **phrentisiaethau** mewn meysydd sy'n cynnwys gwasanaeth cwsmeriaid, arwain timau a TG

## Datgeliadau eraill ynghylch staff

Mae'r adrannau canlynol wedi'u cynnwys er mwyn bodloni gofynion seneddol am adrodd ac atebolrwydd ac maent yn cael eu harchwilio.

### Niferoedd staff yr uwch wasanaeth sifil

Mae pob un o'n cyfarwyddwyr gweithredol yn uwch weision sifil. Roedd cyfanswm o 45 o uwch weision sifil yn GLlTEM ar 31 Mawrth 2016 (31 Mawrth 2015: 33).

| | Nifer staff yr uwch wasanaeth sifil | |
|---|---|---|
| **Band cyflog (£)** | **2015–16** | **2014–15** |
| 60,000 – 70,000 | 17 | 16 |
| 70,000 – 80,000 | 10 | 5 |
| 80,000 – 90,000 | 9 | 5 |
| 90,000 – 100,000 | 2 | 3 |
| 100,000 – 110,000 | 3 | 1 |
| 110,000 – 120,000 | - | 2 |
| 120,000 – 130,000 | 2 | - |
| 130,000 – 140,000 | - | - |
| 140,000 – 150,000 | - | - |
| 150,000 – 160,000 | - | - |
| 160,000 – 170,000 | 1 | - |
| 170,000 – 180,000 | 1 | 1 |
| 180,000 – 190,000 | - | - |
| **Cyfanswm staff yr uwch wasanaeth sifil** | **45** | **33** |

### Adrodd ar gynlluniau digolledu'r gwasanaeth sifil a chynlluniau digolledu eraill – pecynnau ymadael

Mae crynodeb o'r ymadawiadau isod:

| Cost pecynnau ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol 2015–16 | Nifer y diswyddiadau gorfodol 2014–15 | Nifer yr ymadawiadau eraill 2015–16 | Nifer yr ymadawiadau eraill 2014–15 | Cyfanswm yr ymadawiadau 2015–16 | Cyfanswm yr ymadawiadau 2014–15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| < £10,000 | - | - | 2 | 15 | 2 | 15 |
| £10,000 – £25,000 | - | - | 12 | 83 | 12 | 83 |
| £25,001 – £50,000 | - | - | 10 | 95 | 10 | 95 |
| £50,001 – £100,000 | - | - | 13 | 44 | 13 | 44 |
| £100,001 – £150,000 | - | - | 3 | 6 | 3 | 6 |
| £150,001 – £200,000 | - | - | - | - | - | - |
| £200,001 – £250,000 | - | - | - | - | - | - |
| £250,001 – £300,000 | - | - | - | - | - | - |
| £300,001 – £350,000 | - | - | - | - | - | - |
| £350,001 – £400,000 | - | - | - | - | - | - |
| £400,001 – £450,000 | - | - | - | - | - | - |
| £450,001 – £500,000 | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl math** | **-** | **-** | **40** | **243** | **40** | **243** |
| **Cyfanswm cost y pecynnau ymadael yn ôl math (£000)** | **-** | **-** | **1,699** | **8,240** | **1,699** | **8,240** |

Talwyd costau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifyddir costau ymadael yn llawn pan fydd GLlTEM wedi cytuno ar yr ymadawiad ac wedi ymrwymo iddo. Lle mae GLlTEM wedi cytuno ar ymddeol cynnar, telir y costau ychwanegol gan GLlTEM ac nid gan PCSPS. Telir costau am ymddeol ar sail afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

### Adolygu trefniadau treth penodeion y sector cyhoeddus

Yn ystod y cyfnod cyfredol, mae GLlTEM wedi adolygu trefniadau treth ei holl benodeion nad ydynt ar y gyflogres. Roedd yn ofynnol i'r holl gontractwyr a oedd o fewn cwmpas yr adolygiad ddarparu tystiolaeth o gydymffurfio o ran treth. Mae un contractwr nad yw wedi darparu sicrwydd ac sydd wedi'i gyfeirio i Gyllid a Thollau EM ar 31 Mawrth 2016. Mae'r unigolyn hwn wedi gadael GLlTEM. Mae hyn wedi'i drafod ymhellach yn y Datganiad Llywodraethu.

Mae rhagor o fanylion am benodeion a gymerwyd ymlaen oddi ar y gyflogres yng nghyfrifon cyfunol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

**Cynllun pensiwn**
Mae PCSPS yn gynllun â buddion wedi'u diffinio nad yw wedi'i ariannu sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr, sy'n paratoi ei gyfrifon ei hun, ond nid yw GLlTEM yn gallu dynodi ei gyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol ar ei gyfer. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2015–16, roedd cyfraniadau cyflogwr o £71.9 miliwn (2014–15: £65.9 miliwn) yn daladwy i PCSPS ar un o bedair cyfradd rhwng 20.0% a 24.5% (2014–15: rhwng 16.7% a 24.3%) o dâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer ar ôl gwneud prisiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddion wrth eu cronni, nid pan fydd y costau'n cael eu hysgwyddo, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol. Mae balans cyfraniadau'r cyflogwr hefyd yn cynnwys cost gwasanaeth gyfredol y cynllun pensiwn drwy gydweddiad.

**Costau gwasanaethau ymgynghori**
Y gwariant ar wasanaethau ymgynghori yn 2015–16 oedd £8.8 miliwn (2014–15: £6.6 miliwn).

## 3.1.2 Sut rydym yn gweithio – Partneriaeth yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd: Y Ddogfen Fframwaith.

Mae GLlTEM yn gweithredu mewn amgylchedd unigryw. Rydym yn darparu'r system gynnal, gan gynnwys y seilwaith ac adnoddau, ar gyfer gweinyddu busnes y llysoedd yng Nghymru a Lloegr a'r tribiwnlysoedd hynny drwy'r Deyrnas Unedig y mae'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol amdanynt. Rydym yn darparu'r cymorth sydd ei angen i alluogi'r farnwriaeth, aelodau tribiwnlysoedd ac ynadon i arfer eu swyddogaethau barnwrol yn annibynnol.

Mae'r Ddogfen Fframwaith yn adlewyrchu cytundeb a wnaethpwyd rhwng yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ar bartneriaeth rhyngddynt mewn perthynas â llywodraethu, ariannu a gweithredu GLlTEM yn effeithiol.

Ni fydd yr Arglwydd Ganghellor na'r Arglwydd Brif Ustus nac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn ymyrryd (yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol) yng ngweithrediadau GLlTEM o ddydd i ddydd ac maent wedi rhoi'r cyfrifoldeb dros oruchwylio arweinyddiaeth a chyfeiriad yr asiantaeth yn nwylo ei fwrdd. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am weithrediadau a gweinyddu'r asiantaeth o ddydd i ddydd.

Yr amcanion a gytunwyd ar gyfer GLlTEM a nodwyd yn y Ddogfen Fframwaith yw:
- darparu gweinyddiaeth i gynnal system llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n deg, effeithlon a hygyrch;
- cynnal barnwriaeth annibynnol ar gyfer gweinyddu cyfiawnder;
- hyrwyddo gwelliannau parhaus mewn perfformiad ac effeithlonrwydd ym mhob agwedd ar weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd;
- cydweithio'n effeithiol â sefydliadau ac asiantaethau cyfiawnder eraill, gan gynnwys y proffesiynau cyfreithiol, i wella mynediad at gyfiawnder;
- cydweithio ag adrannau ac asiantaethau llywodraeth, fel y bo'n briodol, i wella ansawdd ac amseroldeb eu penderfyniadau er mwyn lleihau nifer yr achosion sy'n dod o flaen tribiwnlysoedd a llysoedd.

Mae bwrdd GLlTEM yn gyfrifol am oruchwylio arweinyddiaeth a chyfeiriad GLlTEM wrth gyflawni'r nod a'r amcanion a osodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

## 3.1.3 Bwrdd ac uwch dîm rheoli GLlTEM



### Aelodau anweithredol



**Robert Ayling (Cadeirydd).** Robert yw Cadeirydd presennol Dŵr Cymru a chyn hynny roedd yn Gadeirydd Dyson Cyf ac yn Gadeirydd International Dispute Resolution Centre Cyf. Mae'n gyfreithiwr wrth ei alwedigaeth, wedi ymarfer am 20 mlynedd yn y Ddinas yn Llundain ac fel uwch gynghorydd cyfreithiol i'r llywodraeth yn yr Adran Masnach a Diwydiant. Roedd yn Rheolwr Gyfarwyddwr ac yn Brif Weithredwr British Airways ccc rhwng 1993 a 2000.



**Victoria Cochrane**. Mae Victoria wedi ymgymhwyso'n gyfreithiwr a threuliodd fwy nag 20 mlynedd yn ymgyfreitha, mewn ymarfer preifat yn gyntaf ac wedyn fel Cwnsler Cyffredinol i Ernst & Young. Ymgymerodd â chyfrifoldeb dros ansawdd, cydymffurfio a risg yn Ernst & Young yn 2003 a thros y pum mlynedd diwethaf mae wedi bod yn aelod o'i Fwrdd Gweithredol Rhyngwladol gan arwain ar Risg ar lefel fyd-eang. Mae'n awr yn gyfarwyddwr anweithredol ar Perpetual Income & Growth Investment Trust Company ccc.



**Rachel Osborne**. Rachel yw'r Cyfarwyddwr Cyllid, Menter Grŵp yn Vodafone, ac mae wedi dal y swydd hon ers Medi 2015. Cyn hynny roedd yn cyflawni nifer o rolau strategol a chyllidol uwch yn John Lewis Partnership, Kingfisher ccc a PepsiCo. Mae ganddi arbenigedd helaeth iawn ym maes rheolaeth ariannol, rheoli risg, datblygu perfformiad a strategaethau masnachol, ac mae hefyd wedi cyflawni rhaglenni mawr ar gyfer trawsnewid TG.



**Ian Playford**. Yn ei swydd ddiwethaf roedd Ian yn Gyfarwyddwr Eiddo Grŵp yn Kingfisher ccc lle'r oedd yn goruchwylio strategaeth, rheolaeth a buddsoddi ar gyfer cyfalaf y Grŵp ledled Ewrop, Rwsia a Tsieina. Cyn hynny roedd yn dal swyddi gweithredol yn Parkridge Holdings ac Aviva ac mae wedi gweithio ym mhob sector a disgyblaeth mewn busnes eiddo tirol ledled Ewrop ac Asia.

### Aelodau eraill



**Liz Doherty.** Penodwyd Liz yn aelod o fwrdd GLlTEM gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae Liz yn uwch swyddog cyllid gweithredol a chanddi 30 mlynedd o brofiad ym maes cyllid rhyngwladol mewn nifer o sefydliadau rhyngwladol mawr mewn gwahanol ddiwydiannau. Treuliodd Liz fwy nag 20 mlynedd yn cyflawni nifer o rolau cyllidol ar lefel cyfarwyddwr yn Unilever, un o'r cwmnïau mwyaf yn y byd ym maes nwyddau traul cyflym eu gwerthiant. Mae Liz hefyd yn aelod anweithredol o Fwrdd Adrannol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

## Aelodau barnwrol



**Yr Arglwydd Ustus Gross (Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr) – hyd Ragfyr 2015** Cafodd yr Arglwydd Ustus Gross ei alw i'r Bar ym 1977, a daeth yn Gwnsler y Frenhines ym 1992. Roedd yn Gofiadur rhwng 1995 a 2001 a chafodd ei benodi'n farnwr yn Adran Mainc y Frenhines yn 2001. Cafodd ei ddynodi'n Farnwr yn y Llys Masnachol yn 2002, ac roedd yn Farnwr â Gofal yn y Llys Masnachol rhwng 2009 a 2010. Roedd yn Farnwr Llywyddol Cylchdaith De-ddwyrain Lloegr (2005 – 2008). Fe'i penodwyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Sefydlog ar Ddiogelwch Barnwrol yn 2009, cafodd ei benodi i'r Llys Apêl yn 2010, a'i benodi'n Ddirprwy Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr yn Hydref 2011 ac yn Uwch Farnwr Llywyddol yn Ionawr 2013.



**Yr Arglwydd Ustus Fulford (Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr) o Ionawr 2016** Cafodd Syr Adrian Fulford ei wneud yn Gofiadur Llys y Goron ym 1995 (a'i ailbenodi yn 2001). Daeth yn Farnwr Uchel Lys yn 2002. Fe'i penodwyd i Adran Mainc y Frenhines. Er iddo ddod yn farnwr yn y Llys Troseddol Rhyngwladol yn 2003, parhaodd â'i waith yn yr Uchel Lys, gan lywyddu mewn nifer o achosion amlwg. Cafodd ei ethol yn un o 18 o farnwyr y Llys Troseddol Rhyngwladol yn 2003 am gyfnod o naw mlynedd, ac mae wedi'i aseinio i'r Adran Dreialon. Tyngodd lw ar gyfer y swydd yn 2003. Cafodd ei benodi'n Arglwydd Ustus Apêl ym Mai 2013. Penodwyd yr Arglwydd Ustus Fulford yn Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr, ac mae yn y swydd hon er 1 Ionawr 2016.



**Yr Arglwydd Ustus Sullivan (Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd) hyd Fedi 2015** Mae Syr Jeremy Sullivan wedi arbenigo mewn cyfraith weinyddol drwy gydol ei yrfa fel adfocad a barnwr. Ei brif feysydd ymarfer wrth y bar oedd cyfraith weinyddol, llywodraeth leol, seneddol, cynllunio ac amgylcheddol. Cafodd sidan ym 1982 ac roedd yn Dwrnai Cyffredinol i EUB Tywysog Cymru rhwng 1994 a 1997, pan gafodd ei benodi'n Farnwr yn yr Uchel Lys, Adran Mainc y Frenhines, a'i enwebu'n un o Farnwyr y Llys Gweinyddol. Olynodd yr Arglwydd Carnwath yn Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ym Mehefin 2012.



**Syr Ernest Ryder (Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd) o Fedi 2015** Daeth Syr Ernest Ryder yn Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ym Medi 2015. Galwyd Syr Ernest i'r Bar ym 1981 a'i benodi'n Gwnsler y Frenhines ym 1997. Daeth yn Gofiadur yn 2000. Fe'i penodwyd yn Farnwr Uchel Lys, a'i aseinio i'r Adran Deulu yn 2004. Ef oedd y barnwr â gofal am adolygiad moderneiddio cyfraith teulu yn 2012. Fe'i penodwyd yn Arglwydd Ustus Apêl yn 2013.



**Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker, CBE** Penodwyd Michael Walker yn farnwr rhanbarth yn Ebrill 1994. Ers Medi 2007 mae wedi'i secondio i Swyddfa'r Uwch Farnwr Llywyddol. Cyn ei benodi i'r fainc, roedd yn bartner mewn cwmni o gyfreithwyr cymorth cyfreithiol yn Ne Llundain. Rhwng 2000 a 2011 ef oedd Ysgrifennydd Mygedol Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi. Mae wedi bod yn aelod o Gyngor y Barnwyr ers Gorffennaf 2002 ac fe'i penodwyd yn un o gyfarwyddwyr Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn 2008.

## Aelodau gweithredol – bywgraffiadau isod:

Natalie Ceeney Prif Weithredwr
Lynne Hamilton Cyfarwyddwr Cyllid
Kevin Sadler Cyfarwyddwr Datblygu Llysoedd a Thribiwnlysoedd
Guy Tompkins Cyfarwyddwr Gweithrediadau

## Uwch dîm rheoli GLlTEM



**Natalie Ceeney CBE (Prif Weithredwr, GLlTEM)** Ymunodd Natalie â GLlTEM yn Brif Weithredwr yn Ionawr 2015. Mae gyrfa Natalie wedi rhychwantu'r sectorau cyhoeddus a phreifat, mewn rolau lle'r oedd yn arwain ar faterion gweithredol a strategol. Cafodd Natalie ei hurddo'n Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd yn 2010.

Roedd Natalie, a gyhoeddodd ei bod yn gadael GLlTEM ym Mai 2016, yn gyfrifol am weinyddu'r asiantaeth ac am ei gweithrediadau o ddydd i ddydd ac am arwain ei staff. Fel Prif Weithredwr, roedd yn gweithio o dan gyfarwyddyd cyffredinol y Bwrdd. Yn ogystal â hyn, Natalie oedd yr uwch swyddog cyfrifol ar gyfer Rhaglen Drawsnewid GLlTEM.



**Lynne Hamilton (Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraethu a Pherfformiad)** Ymunodd Lynne â GLlTEM yn 2015, ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Cyllid a Materion Masnachol yn Llywodraeth Cymru. Mae gan Lynne brofiad blaenorol o weithio mewn swyddi a oedd yn ymwneud â pholisi uwch, cyflawni a chyllid lle'r oedd yn rheoli timau mawr, cyllidebau cymhleth mawr a rhaglenni gwella perfformiad helaeth..

Mae Lynne yn gyfrifol am sicrhau cryfder y trefniadau ar gyfer rheoli, llywodraethu a rheolaethau ariannol yn GLlTEM, yn ogystal â chadeirio'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Newid a Buddsoddi.




**Kevin Sadler (Cyfarwyddwr Datblygu Llysoedd a Thribiwnlysoedd)** Cafodd Kevin yrfa gynnar amrywiol mewn swyddi gweithredol a pholisi ac mewn swyddfeydd preifat yn yr Adran Nawdd Cymdeithasol, Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Gwaith a Phensiynau cyn ymgymryd â rolau yn yr Adran Materion Cyfansoddiadol lle'r oedd wedi goruchwylio newid ac ailstrwythuro ar draws yr adran ac wedi rhedeg y prosiect i greu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Yn ei swydd flaenorol roedd Kevin yn Brif Weithredwr y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Mae Kevin yn gyfrifol am y strategaeth fusnes genedlaethol, polisi gweithredol a moderneiddio llysoedd a thribiwnlysoedd, a chyhoeddwyd ei benodi'n Brif Weithredwr Dros Dro GLlTEM ym Mai 2016.



**Guy Tompkins (Cyfarwyddwr Gweithrediadau)** Dechreuodd Guy ei yrfa yn y gwasanaeth sifil yn swyddog clercol yn yr Adran Gyflogaeth. Ers hynny mae wedi dal amrywiaeth fawr o swyddi gan gynnwys swyddi cyflawni gweithredol yn Canolfan Byd Gwaith, y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a GLlTEM.

Fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau, prif gyfrifoldeb Guy yw arwain tua 16,000 o bobl wrth gyflawni'r holl weithgareddau busnes fel arfer, gan sicrhau bod newidiadau i ddiwygio'r busnes yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.



**Julie Nerney (Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddiwygio) hyd Fawrth 2016** Julie oedd yn arwain Rhaglen Ddiwygio GLlTEM, y Rhaglen Newid bellach. Mae ganddi gyfoeth o brofiad o arwain newid ar raddfa fawr, ar ôl cyflawni nifer o raglenni llywodraeth ymestynnol dros y deng mlynedd diwethaf a rhedeg y gweithrediadau trafnidiaeth llwyddiannus iawn ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012.

Fel Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddiwygio, roedd yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn meddu ar y galluogrwydd, y cynlluniau a'r adnoddau sydd eu hangen i drawsnewid y gwasanaeth.



**Richard Goodman (Cyfarwyddwr Newid) o fis Mawrth 2016**. Ymunodd Richard ag uwch dîm rheoli GLlTEM ym Mawrth 2016. Dechreuodd Richard ar ei yrfa mewn swyddi polisi a gwaith achosion gweithredol ac wedyn ymgymerodd â nifer o rolau lle'r oedd yn gweithio ar strategaeth a diwygio'r gweithlu. Yn 2011 ymunodd Richard ag Asiantaeth Ffiniau'r DU yn gyfarwyddwr gweithrediadau rhyngwladol, gan arwain ar waith diogelwch yr asiantaeth mewn gwledydd tramor a gweithrediadau ar fisâu. Ar ôl cyfnod yn y Dwyrain Canol, gadawodd a gwasanaeth sifil a dod yn gyfarwyddwr polisi yng Ngwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Ymunodd â GLlTEM i weithio ar y rhaglen ddiwygio yn 2015.

Fel Cyfarwyddwr Newid, mae Richard yn gyfrifol am gadw'r broses drawsnewid yn GLlTEM ar y llwybr cywir – ac ymgymerodd â'r cyfrifoldeb dros gyflawni'r Rhaglen Ddiwygio ar ôl Julie Nerney.



**Kevin Gallagher (Cyfarwyddwr Newid Digidol) Ymunodd Kevin â GLlTEM yn 2015**. Cyn hynny, roedd yn Brif Swyddog Gwybodaeth yn Channel 4, lle'r oedd wedi arwain ar roi lle blaenllaw i wasanaethau digidol ym model busnes Channel 4. Roedd ei rôl hefyd yn ymwneud â chynyddu'r defnydd o ddata i ddeall anghenion cwsmeriaid er mwyn dylanwadu ar ymddygiad cwsmeriaid. Cyn ymuno â Channel 4, roedd Kevin wedi gweithio mewn sefydliadau yn y sectorau preifat a chyhoeddus gan gynnwys y Bwrdd Cymorth Cyfreithiol.

Mae Kevin yn gyfrifol am arwain ar ein strategaeth TG a digidol, ac am gynllunio'r seilwaith y bydd ei angen yn y dyfodol i hyrwyddo newid a chyflawni'r strategaeth.



**Faran Johnson (Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol) Ymunodd Faran â GLlTEM yn 2015**. Mae ganddi fwy nag 20 mlynedd o brofiad ym maes Adnoddau Dynol ar lefelau gweithredu ac arwain ac mae wedi gweithio yn y sectorau cyllid, manwerthu, gwasanaethau, technoleg a chyfryngau. Yn ei rolau arwain ym maes Adnoddau Dynol mae Faran wedi bod yn gyfrifol am reoli newid trawsffurfiol ar raddfa fawr a sicrhau perfformiad busnes rhagorol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â chyflogeion a gwella'r amgylchedd gweithio.

Fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol GLlTEM, mae'n gyfrifol am ddatblygu talentau, ymgysylltu â staff ac amrywiaeth. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod ein strategaeth gweithlu yn addas ar gyfer rheoli'r newid a gyflawnir wrth drawsnewid GLlTEM.



**Sidonie Kingsmill (Cyfarwyddwr Cwsmeriaid)** Ymunodd â GLlTEM yn 2015 ac mae ganddi brofiad helaeth o wneud defnydd o farn cwsmeriaid er mwyn gwella gwasanaethau a phrofiadau ar gyfer defnyddwyr. Ei swydd ddiweddaraf cyn ymuno â GLlTEM oedd Cyfarwyddwr Brandiau Grŵp yn Tesco, ac mae hefyd wedi gweithio i gwmnïau fel Procter & Gamble a Metro International Newspapers.

Fel Cyfarwyddwr Cwsmeriaid, mae'n gyfrifol am sicrhau bod GLlTEM yn arwain ar wella profiad cwsmeriaid ar draws llywodraeth.

**Swyddogion eraill sy'n bresennol yng nghyfarfodydd yr uwch dîm rheoli**



**Barry Hooper (Cyfarwyddwr Masnachol)** Ymunodd â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn 2015. Mae wedi'i gyfethol yn aelod o uwch dîm rheoli GLlTEM gan ei fod wedi'i benodi'n Uwch Arbenigwr Masnachol y Weinyddiaeth dros GLlTEM a'r Rhaglen Newid. Mae wedi dal nifer o swyddi uwch yn y sectorau gwasanaethau ariannol, telathrebu a modurol dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae Barry wedi bod yn aelod o Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS) er 1992 ac o Sefydliad Siartredig Marchnata er 2001.

Fel Cyfarwyddwr Masnachol, mae Barry yn gyfrifol am lywodraethu materion rheoli masnachol, comisiynu a diffinio gwasanaethau ynghyd â rheoli risg yn effeithiol yng nghyswllt caffael a chyflenwyr ar lefel perfformiad a chontractio.

## 3.2 Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn ar gydnabyddiaeth ariannol wedi cael eu harchwilio a chyfeirir atynt yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

### Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau'r bwrdd

Mae'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol wedi'i baratoi'n unol â'r gofynion yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a ddyroddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r Prif Weinidog yn pennu'r polisi ar gydnabyddiaeth ariannol uwch weision sifil gan ddilyn cyngor annibynnol oddi wrth Gorff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Gosodwyd cyflogau aelodau bwrdd GLlTEM yn dilyn trafodaethau rhwng Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'i Chyfarwyddwyr Cyffredinol yn unol â'r rheolau yng Nghod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Nid oes gan GLlTEM Bwyllgor Tâl. Mae swyddogaethau allweddol y pwyllgor hwn yn cael eu trafod drwy Bwyllgor Gweithlu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae manylion yn yr adrannau sy'n dilyn am dâl a buddion pensiwn aelodau bwrdd GLlTEM a wasanaethodd yn ystod 2015–16.

## TTabl 1 – Taliadau cydnabyddiaeth i aelodau bwrdd GLlTEM yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016

| | 2015–16 | | | | | 2014–15 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm cyflog a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Bonysau a dalwyd | Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1,000 agosaf) | Cyfanswm | Cyfanswm cyflog a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Bonysau a dalwyd | Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1,000 agosaf) | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Robert Ayling, Cadeirydd Annibynnol | 15–20 | Dim | Dim | Dim | **15–20** | 15–20 | Dim | Dim | Dim | **15–20** |
| Natalie Ceeney, Prif Weithredwr | 175–180 | Dim | Dim | 69 | **245–250** | 40–45 (175–180 CBL)[3] | Dim | Dim | 8 | **50–55** |
| Steve Gillespie, Cyfarwyddwr, Cyllid a Llywodraethu (Hyd 12 Ebrill 2015) | 0–5 (90–95 CBL)[3] | Dim | Dim | 1 | **0–5** | 90–95 | Dim | Dim | 53 | **145–150** |
| Lynne Hamilton, Cyfarwyddwr, Cyllid, Llywodraethu a Pherfformiad (o 13 Ebrill 2015) | 100–105 (105–110 CBL)[3] | 34.9 | Dim | 85 | **220–225** | Dim | Dim | Dim | Dim | **Dim** |
| Guy Tompkins, Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 90–95 | 9.6 | Dim | 77 | **175–180** | 85–90 | 15.9 | Dim | 19 | **115–120** |

| | 2015–16 | | | | | 2014–15 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm cyflog a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Bonysau a dalwyd | Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1,000 agosaf) | Cyfanswm | Cyfanswm cyflog a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Bonysau a dalwyd | Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1,000 agosaf) | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Kevin Sadler, Cyfarwyddwr, Datblygu Llysoedd a Thribiwnlysoedd | 100–105 | Dim | 10–15 | 28 | **140–145** | 95–100 | Dim | 10–15 | 18 | **130–135** |
| Rachel Osborne, Cyfarwyddwr Anweithredol | 10–15 | 0.1[1] | Dim | Dim | **10–15** | 5–10 (10–15 CBL)[2] | Dim | Dim | Dim | **5–10** |
| Ian Playford, Cyfarwyddwr Anweithredol | 10–15 | 2.1[1] | Dim | Dim | **10–15** | 5–10 (10–15 CBL)[2] | 0.6[1] | Dim | Dim | **5–10** |
| Victoria Cochrane, Cyfarwyddwr Anweithredol | 10–15 | 0.1[1] | Dim | Dim | **10–15** | 0–5 (10–15 CBL)[2] | 0.1[1] | Dim | Dim | **5–10** |
| Liz Doherty, Cyfarwyddwr Anweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (o 18 Ionawr)3 | 0–5 (5–10 CBL)[2] | Dim | Dim | Dim | **0–5** | Dim | Dim | Dim | Dim | **Dim** |

[1] Yn cynnwys ad-daliadau am gostau teithio i gyfarfodydd busnes angenrheidiol.
[2] FCyfwerth â blwyddyn lawn
[3] Mae Liz Doherty yn gyfarwyddwr anweithredol ar fwrdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ei thâl am gyflawni'r rôl honno wedi'i ddatgelu yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae'r aelodau barnwrol canlynol o fwrdd GLlTEM yn cael tâl fel barnwyr ac nid ydynt yn cael taliadau ychwanegol fel cyfarwyddwyr.

- Yr Arglwydd Ustus Sullivan, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (hyd 17 Medi 2015)
- Syr Ernest Ryder, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (o 18 Medi 2015)
- Yr Arglwydd Ustus Gross, Uwch Farnwr Llywyddol (hyd 31 Rhagfyr 2015)
- Yr Arglwydd Ustus Fulford, Uwch Farnwr Llywyddol (o 4 Ionawr 2016)
- Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker, Cynrychiolydd Barnwrol

### Cyflog

Mae cyflog yn cwmpasu symiau pensiynadwy ac amhensiynadwy ac yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt o bosibl: cyflogau gros; goramser; hawliau neilltuedig i bwysoliadau Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n agored i'w drethu yn y DU. Nid yw'r ffigurau a ddangosir yn cynnwys symiau sy'n ad-daliadau am dreuliau a ysgwyddwyd yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau'r unigolyn. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau cronnus a wnaed gan yr asiantaeth ac sydd wedi'u cofnodi felly yn y cyfrifon hyn.

### Bonysau

Mae bonysau wedi'u seilio ar lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac maent yn cael eu gwneud o dan y broses arfarnu. Mae bonysau'n ymwneud â'r perfformiad yn y flwyddyn y maent yn dod yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau a gofnodwyd yn 2015–16 yn ymwneud â pherfformiad yn 2014–15 ac mae'r bonysau cymharol a gofnodwyd ar gyfer 2014–15 yn ymwneud â'r perfformiad yn 2013–14.

### Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion sydd wedi'u darparu gan y cyflogwr a'u trin fel enillion trethadwy gan Gyllid a Thollau EM.

### Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr uchaf ei dâl (£000) | 175–180 | 175–180 |
| Cyfanswm y tâl canolrifol (£) | 19,585 | 20,050 |
| Cymhareb | 9.1:1 | 8.9:1 |

Roedd y gydnabyddiaeth ariannol yn amrywio o £10,000–£15,000 i £175,000–£180,000 (2014–15: £10,000–15,000 i £175,000–£180,000).

Yn 2015–16, nid oedd unrhyw gyflogai wedi cael tâl a oedd yn fwy na chydnabyddiaeth y cyfarwyddwr uchaf ei dâl (2014–15: dau).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân sy'n gysylltiedig â pherfformiad, lwfansau buddion mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

### Contractau gwasanaeth

O dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 mae'n ofynnol bod penodiadau i'r gwasanaeth sifil yn cael eu gwneud yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau lle gellir gwneud penodiadau fel arall.

Mae'r swyddogion sy'n cael eu trafod yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored, heblaw am gyfarwyddwyr anweithredol a benodir am gyfnod o dair blynedd. Byddai terfynu cynnar, heblaw am gamymddwyn, yn arwain at ddigolledu'r unigolyn fel y nodwyd yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

### Tabl 2 Contractau aelodau bwrdd GLlTEM

| Enw | Dyddiad cychwyn y contract | Cyfnod yn weddill | Cyfnod rhybudd |
|---|---|---|---|
| Robert Ayling | 1 Ebrill 2011 (adnewyddwyd 1 Ebrill 2015) | 2 flynedd a 3 mis | 1 mis |
| Natalie Ceeney (hyd Awst 2016) | 5 Ionawr 2015 | Hyd ymddeol | 3 mis |
| Steve Gillespie (hyd 12 Ebrill 2015) | 22 Tachwedd 1976 | Hyd ymddeol | 3 mis |
| Lynne Hamilton | 13 Ebrill 2015 | Hyd ymddeol | 3 mis |
| Guy Tompkins | 7 Tachwedd 2005 | Hyd ymddeol | 3 mis |
| Kevin Sadler | 10 Medi 1984 | Hyd ymddeol | 3 mis |
| Rachel Osborne | 1 Awst 2014 | 1 flwyddyn a 4 mis | 1 mis |
| Ian Playford | 1 Awst 2014 | 1 flwyddyn a 4 mis | 1 mis |
| Victoria Cochrane | 1 Tachwedd 2014 | 1 flwyddyn a 7 mis | 1 mis |
| Liz Doherty | 18 Ionawr 2016 | 2 flynedd a 5 mis | 1 mis |
| Yr Arglwydd Ustus Sullivan[1] | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Syr Ernest Ryder[1] | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Yr Arglwydd Ustus Gross[1] | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Lord Justice Fulford[1] | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker[1] | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

**Nodiadau:**

1 Nid yw aelodau barnwrol yn gweithredu o dan gontract.

## Buddion pensiwn

### Tabl 3 – Buddion pensiwn aelodau bwrdd GLlTEM a gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) y buddion hynny yn ystod ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

| Enw | Pensiwn a gronnir ar yr oedran pensiwn ar 31/3/16 a'r cyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar yr oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/03/16 £000 | CETV ar 31/03/15 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Robert Ayling **Cadeirydd Annibynnol** | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] |
| Natalie Ceeney (hyd Awst 2016) | 5–10 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 5–7.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 66 | 7 | 44 |
| Steve Gillespie **Cyfarwyddwr, Cyllid a Llywodraethu** (hyd 12 Ebrill 2015) | 45–50 ynghyd â chyfandaliad o 135–140 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 939 | 925 | 1 |
| Lynne Hamilton **Cyfarwyddwr, Cyllid, Llywodraethu a Pherfformiad** | 40–45 ynghyd â chyfandaliad o 50–55 | 2.5–5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5–5 | 751 | 644 | 59 |
| Guy Tompkins **Cyfarwyddwr Gweithrediadau** | 35–40 ynghyd â chyfandaliad o 110–115 | 2.5–5 ynghyd â chyfandaliad o 10–12.5 | 751 | 629 | 65 |
| Kevin Sadler, **Cyfarwyddwr, Datblygu Llysoedd a Thribiwnlysoedd** | 35–40 ynghyd â chyfandaliad o 115–120 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5–5 | 805 | 720 | 24 |
| Rachel Osborne | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] |
| Ian Playford | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] |
| Victoria Cochrane | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] |
| Liz Doherty | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] | Amherthnasol[1] |

**Nodiadau:**
[1] Ni wneir cyfraniadau pensiwn ar ran aelodau bwrdd anweithredol GLlTEM.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – 'Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill' neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yn cyfateb i oedran pensiwn y wladwriaeth yr aelod (neu 65 oed os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw mae'r holl weision sifil a benodwyd o'r newydd a mwyafrif y rheini sydd eisoes mewn gwasanaeth wedi ymuno ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran yn PCSPS: 3 yn darparu buddion ar sail y cyflog terfynol (**classic, premium** neu **classic plus**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos)** gydag oedran pensiwn arferol o 65.

These statutory arrangements are unfunded with the cost of benefits met by monies voted by Parliament each year. Pensions payable under **classic**, **premium**,

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu a thelir cost y buddion ag arian a roddir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac alpha yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau. Roedd aelodau presennol PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi aros yn PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn trosglwyddo i **alpha** rywdro rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Mae buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n trosglwyddo i **alpha** yn cael eu 'bancio', a bydd buddion y rheini sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae buddion gan swyddog yn PCSPS ac yn **alpha**, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Bydd aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 yn gallu dewis un ai'r trefniant priodol â buddion wedi'u diffinio neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu ag arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae'r cyfraniadau gan gyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau **classic** (ac aelodau **alpha** a oedd yn aelodau o **classic** yn union cyn ymuno ag **alpha**) a rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau **premium**, **classic plus**, **nuvos** a holl aelodau eraill **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hynny, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn y tair blynedd cyntaf yn daladwy ar ôl ymddeol. Yn achos **premium**, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, ni thelir cyfandaliad yn awtomatig. Yn ei hanfod, mae **classic plus** yn gynllun hybrid lle mae buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd yn fras â **classic** a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd â **premium**. Yn **nuvos** bydd yr aelod yn cynnull pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif yr aelod o'r pensiwn a enillwyd yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno a'r pensiwn a gronnwyd yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau. Mae buddion yn **alpha** yn cynyddu mewn ffordd debyg i **nuvos**, heblaw bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos caiff aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol sydd rhwng 3% a 12.5% hyd 30 Medi 2015 a 8% a 14.75% o 1 Hydref 2015 (yn ôl oed yr aelod) mewn cynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewiswyd gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid yw'r cyflogai'n gorfod cyfrannu ond, os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniadiau cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy hyd 30 Medi 2015 a 0.5% o'r cyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 i

dalu am gost yswiriant i ddiogelu buddion rhag risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd iechyd gwael).

Y pensiwn a gronnwyd sydd wedi'i ddyfynnu yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd yr oedran pensiwn neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 i aelodau **classic, premium** a **classic plus**, 65 i aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes buddion gan y swyddog yn PCSPS ac yn **alpha**, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae rhagor o fanylion ar gael am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

### Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth y buddion mewn cynllun pensiwn wedi'u cyfalafu yn ôl asesiad gan actiwari sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw'r buddion y mae'r aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn dibynnol sy'n daladwy i briod yr aelod o'r cynllun. Mae'r CETV yn daliad o gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangoswyd yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i holl gyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid y gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn gymwys iddo'n unig. Caiff y CETV ei gyfrifo'n unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n rhoi cyfrif am unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan gymerir y buddion pensiwn.

### Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV

Yr elfen o'r cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd sy'n cael ei ariannu gan y Trysorlys yw hwn. Nid yw'n cynnwys y cynnydd o ganlyniad i chwyddiant a chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Caiff ei gyfrifo drwy gymryd ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau a diwedd y cyfnod.

## 3.3 Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 7(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, rhoddodd Trysorlys EM gyfarwyddyd i GLlTEM baratoi datganiad o gyfrifon (y Cyfrifon) ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail sydd wedi'u nodi yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a ddyroddwyd gan Drysorlys EM ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'r Cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o sefyllfa'r asiantaeth ac o'i halldro adnoddau net, ei defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi cyfrifon GLlTEM , mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r gofynion yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a ddyroddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- barnu ac amcangyfrif ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwysadwy sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y Cyfrifon
- paratoi'r Cyfrifon ar sail busnes hyfyw
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi dynodi Prif Weithredwr GLlTEM yn Swyddog Cyfrifyddu GLlTEM. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol a thros ddiogelu asedau GLlTEM a thros baratoi cyfrifon GLlTEM, wedi'u hamlinellu ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu sydd wedi'i ddyroddi gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yn  Managing Public Money.

# 3.4. Datganiad llywodraethu

## Cyflwyniad


Mae GLlTEM yn asiantaeth i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Ein nod allweddol yw rhedeg system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithlon ac effeithiol sy'n rhoi'r gallu i gynnal rheolaeth y gyfraith ac yn darparu mynediad at gyfiawnder i bawb. Mae'r sefydliad yn gweithredu'n unol â'r Ddogfen Fframwaith sydd wedi'i chyhoeddi gennym sy'n disgrifio'r sail i bartneriaeth weithredol rhwng yr Arglwydd Ganghellor (yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder), yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

Fel Prif Weithredwr rwyf yn gyfrifol am weithrediadau a gweinyddiaeth yr asiantaeth o ddydd i ddydd ac am arweinyddiaeth ei staff. Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn atebol i Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac yn y pen draw i'r Senedd.

Fe'm penodwyd yn Swyddog Cyfrifyddu yn dilyn ymadawiad Natalie Ceeney ar 27 Mai 2016. Ymgymerais â chyfrifoldeb personol dros lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg ar gyfer GLlTEM. Rwyf wedi ystyried y wybodaeth a'r sicrwydd a ddarparwyd gan Natalie Ceeney ac rwyf yn fodlon arnynt a bod y systemau a phrosesau angenrheidiol ar waith gennyf i gynnal system effeithiol o reolaeth fewnol sydd o gymorth i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion gan ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau rwyf yn bersonol atebol amdanynt.

## Fframwaith llywodraethu a strwythur rheoli 2015–16

Mae llywodraethu o fewn GLlTEM yn cael ei ddarparu drwy fwrdd a gweithrediaeth gadarn sydd wedi'u disgrifio yn y Polisi Dirprwyo Awdurdod. Yn 2015–16, roedd y rhain fel a ganlyn:



### Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau Llywodraeth Ganolog – Cod Arfer Da

Mae'r cod hwn yn gymwys i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae GLlTEM wedi mabwysiadu'r prif egwyddorion fel arferion da. Rydym yn parhau i gydymffurfio â gofynion perthnasol ac eithrio'r Pwyllgor Enwebiadau fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Y flwyddyn hon, rydym wedi sefydlu Pwyllgor Pobl sy'n gyfrifol am ystyried cynllunio ar gyfer talentau ac olyniaeth o fewn y sefydliad. Yn ogystal â hyn roedd y bwrdd wedi trafod rheolaeth ar berfformiad a thalentau ar gyfer ein huwch weithredwyr yn ei gyfarfod ym Mawrth 2016. Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer y sefydliad yn cael eu goruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r bwrdd a hefyd gan y weithrediaeth o ddydd i ddydd.

## Bwrdd GLlTEM a'i is-bwyllgorau

| Bwrdd GLlTEM |
|---|
| Cyffredinol<br>• Adolygwyd ei Gylch Gorchwyl a chytuno arno ym mis Gorffennaf 2015.<br>• Cyfrifoldeb cyffredinol dros Lywodraethu Corfforaethol o fewn GLlTEM.<br>• Cytunwyd ar Bolisi Dirprwyo Awdurdod 2015–16 ar gyfer y bwrdd a'r weithrediaeth ym Mai 2015.<br><br>Prif gyflawniadau'r Bwrdd<br>• Mae'r bwrdd yn trafod perfformiad a chyllid ym mhob cyfarfod.<br>• Datblygwyd cerdyn sgorio cytbwys newydd yn ystod y flwyddyn i fonitro a dangos cynnydd ar gyflawni ein blaenoriaethau busnes.<br>• Mae trafodaethau ynghylch yr Adolygiad o Wariant, ein hystad a diwygiadau i drawsnewid y sefydliad wedi bod yn allweddol yn ystod y flwyddyn.<br><br>Adolygiadau o effeithiolrwydd<br>• Cwblhaodd ei hunanasesiad perfformiad blynyddol ym Mai 2015 ac roedd y canlyniadau'n dda.<br>• Ymhlith y camau gweithredu allweddol a nodwyd roedd y bwriad i gynnal trafodaethau manwl chwarterol ar berfformiad. Rhai o'r pynciau ar gyfer trafodaethau manwl oedd cyllid, perfformiad yn y llysoedd troseddol, a phob agwedd ar reoli cyfleusterau.<br>• Cytunwyd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ymgymryd â rôl yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ac yn gweithredu fel dirprwy gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd.<br>• Cwblhawyd gwerthusiad 2015–16 ym Mawrth 2016. Cafodd y canlyniadau eu dadansoddi a'u trafod yng nghyfarfod mis Mai er mwyn cytuno ar gynllun gweithredu i'w gyflawni yn ystod 2016–17. |

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyffredinol
- Adolygwyd ei Gylch Gorchwyl a chytuno arno yn Ebrill 2015.
- Ei Gadeirydd yw'r Uwch Gyfarwyddwr Anweithredol.
- Corff cynghori sy'n cynorthwyo'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu
- Mae'n helpu'r bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau yng nghyswllt rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu.
- Mae'n adolygu'r sicrwydd a roddir i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr, yn ddibynadwy ac yn gywir.
- Mae'r cadeirydd yn darparu adroddiad sy'n tynnu sylw at faterion a'u codi at lefel y bwrdd ar ôl pob cyfarfod chwarterol o'r pwyllgor.

Prif gyflawniadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- Mae trafodaethau manwl ar risgiau yn y gofrestr risg wedi bod yn eitemau pwysig ar yr agenda.
- Cynhaliwyd trafodaethau sylweddol ar reoli contractau cynnal ystadau, cynllunio cydnerthedd TG a pharhad busnes. Canolbwyntiwyd hefyd ar weithredu argymhellion yr Archwilwyr Mewnol.

Adolygiadau o effeithiolrwydd
- Cyflawnodd ei hunanasesiad perfformiad blynyddol yn Ebrill 2015.
- Roedd y canlyniadau'n dangos lefel uchel o hyder yng ngweithrediadau'r pwyllgor.
- Cytunwyd i ganolbwyntio i fwy o raddau ar sicrwydd yng nghyswllt y risgiau strategol i'r asiantaeth ac ar raglenni a'r cynnydd arnynt, heb golli golwg ar risgiau i fusnes fel arfer.
- Rhoddwyd sylw i gamau gweithredu yn ystod y flwyddyn ac mae sesiwn flynyddol ychwanegol ar gyfer adolygu effeithiolrwydd wedi'i hamserlennu ar gyfer Ebrill 2016 a bydd gweithgareddau gwella'n rhan o gynllun gweithredu ar gyfer 2016–17.

## Bwrdd newid GLlTEM

Cyffredinol
- Adolygwyd ei Gylch Gorchwyl a chytuno arno ym mis Gorffennaf 2015.
- Ei Gadeirydd yw'r Cyfarwyddwr Datblygu Llysoedd a Thribiwnlysoedd.
- Cyfrifoldeb cyffredinol dros gyflawni a llywodraethu'r portffolio o raglenni a phrosiectau a oedd y tu allan i'r rhaglen drawsnewid ehangach.
- Mae'n cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a bwrdd GLlTEM ar reoli a chyflawni'r portffolio newid ar sail y strategaeth drefniadol; gwireddu buddion y portffolio newid; risgiau a materion allweddol sy'n gysylltiedig â'r portffolio newid; a hyfywedd ar gyfer parhau â phrosiectau.
- Bydd y cyfrifoldebau'n cynnwys hwyluso goruchwyliaeth effeithiol dros y portffolio newid a gwella'r ffyrdd o lywodraethu, penderfynu a blaenoriaethu mewn perthynas ag adnoddau sy'n rhan o weithgareddau newid.
- **Bydd y bwrdd newid a bwrdd y rhaglen ddiwygio yn cael eu disodli gan fwrdd y portffolio newid yn 2016–17.**

Prif gyflawniadau'r Bwrdd Newid
- Datblygwyd adroddiad misol newydd i dynnu sylw at faterion sy'n canolbwyntio ar adrodd drwy eithriad ar gyflawni prosiectau newid yn amserol gan gydymffurfio â gofynion o ran ansawdd a chost.
- Mae wedi derbyn a thrafod crynodeb ariannol misol o'r prosiectau newid sy'n disgrifio eu perfformiad ar gostau a buddion disgwyliedig.
- Rhoddodd flaenoriaeth i rannu gwybodaeth rhwng prosiectau a gwella parhaus gan gynnwys adroddiadau chwarterol i'r bwrdd ar wersi a oedd wedi'u dysgu a'u rhannu yn y portffolio
- Cafodd gyfle yn aml i ganmol rheolwyr prosiect, timau prosiect ac Uwch Swyddogion Cyfrifol am gyflawni prosiectau cymhleth ac uchel eu proffil gyda'r lleiaf o atgyfeirio at y bwrdd.

Adolygiadau o effeithiolrwydd
- Bwrdd newydd yw hwn felly ni chynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd yn ystod 2015. Cwblhawyd yr adolygiad cyntaf o effeithiolrwydd yn Chwefror 2016 a thrafodwyd y canlyniadau yng nghyfarfod y bwrdd ym Mawrth 2016.
- Roedd y canlyniadau'n dangos bod lefel uchel o hyder gan aelodau yn y trafodaethau ac yn y penderfyniadau a wnaed.
- Gan fod disgwyl y bydd y bwrdd newid yn dod i ben, roedd yr hunanasesiad ar ffurf ymarfer dysgu gwersi yn hytrach na datblygu cynllun gweithredu.
- Rhannwyd y gwersi allweddol a ddysgwyd o'r adolygiad o effeithiolrwydd â'r timau ysgrifenyddiaeth ar gyfer byrddau eraill.

## Bwrdd y rhaglen ddiwygio

Cyffredinol

- Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl ym Mawrth 2015.
- Cadeirydd bwrdd y rhaglen ddiwygio yw'r Prif Weithredwr sydd hefyd yn Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y rhaglen.
- Mae'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen ddiwygio yn unol â'r achos busnes a gymeradwywyd, a hefyd â'r weledigaeth a bennwyd gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus a'r Uwch Farnwr Llywyddol, ac yn unol â mandad y rhaglen.
- **Peidiodd bwrdd y rhaglen ddiwygio â bod yn is-bwyllgor i'r bwrdd o 2016–17 ar ôl creu bwrdd portffolio newid GLlTEM.**

Prif gyflawniadau bwrdd y rhaglen ddiwygio

- Roedd cynnydd ar gynlluniau'r rhaglen, sefyllfa ariannol y rhaglen, ac adnabod a lliniaru risgiau a materion allweddol yn eitemau sefydlog ar y rhaglen.
- Roedd arddull a chyflwyniad yr adroddiadau wedi'u mireinio drwy gydol 2015–16 gyda'r bwriad o roi adroddiadau craff a mwy effeithiol a chryno i aelodau'r bwrdd. Sefydlwyd pecyn adrodd cryno i ddisgrifio cynnydd ar y rhaglen, risgiau a materion a oedd yn codi.
- Cynhaliodd ddwy drafodaeth fanwl am gynnwys achos busnes y rhaglen ym Mehefin 2015 a Chwefror 2016.
- Hefyd cynhaliodd drafodaeth fanwl ar nifer o bynciau sy'n ymwneud â strategaeth gyffredinol y rhaglen.

Adolygiadau o effeithiolrwydd

- Cynhaliodd drafodaeth ar yr adolygiad o effeithiolrwydd yn Ebrill 2015.
- Ar gyfer 2015–16, cynhaliwyd hunanasesiad blynyddol o berfformiad yn ystod Mawrth 2016.

## Rhestr presenoldeb ar gyfer bwrdd ac is-bwyllgorau GLlTEM

| | Y bwrdd | | Pwyllgor archwilio a sicrhau risg | | Bwrdd newid | | Bwrdd y rhaglen ddiwygio | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys |
| Robert Ayling – Cadeirydd Annibynnol | 14 | 14 | | | | | | |
| Victoria Cochrane – Aelod Bwrdd Anweithredol | 13 | 14 | 7 | 7 | | | | |
| Rachel Osborne – Aelod Bwrdd Anweithredol | 11 | 14 | | | | | | |
| Ian Playford – Aelod Bwrdd Anweithredol | 10 | 14 | | | | | 8 | 10 |
| *Yr Arglwydd Ustus Sullivan – Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (1 Ebrill i 17 Medi 2015)* | 5 | 5 | | | | | | |
| *Syr Ernest Ryder – Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (o 18 Medi 2015)* | 8 | 9 | | | | | 3 | 3 |
| *Yr Arglwydd Ustus Fulford (o 4 Ionawr 2016)* | 3 | 4 | | | | | 7 | 10 |
| *Yr Arglwydd Ustus Gross – Uwch Farnwr Llywyddol* | 9 | 10 | | | | | 7 | 7 |
| (o 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2015) | 14 | 14 | 7 | 7 | 6 | 6 | | |
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker – Aelod Barnwrol | 14 | 14 | 7* | 7* | | | 10 | 10 |

| | Y bwrdd | | Pwyllgor archwilio a sicrhau risg | | Bwrdd newid | | Bwrdd y rhaglen ddiwygio | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys |
| Natalie Ceeney – Prif Weithredwr | 13 | 14 | 7* | 7* | 2 | 6 | 4 | 5 |
| Lynne Hamilton – Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraethu a Pherfformiad | 11 | 14 | | | 3 | 6 | | |
| Guy Tompkins – Cyfarwyddwr Trosedd | 13 | 14 | | | 6 | 6 | | |
| *Kevin Sadler – Cyfarwyddwr Llysoedd Sifil a Theulu a Thribiwnlysoedd* | 2 | 3 | | | | | | |
| *Liz Doherty – Cyfarwyddwr Anweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (o 18 Ionawr 2016)* | | | | | 1 | 6 | | |
| Julie Nerney – Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddiwygio (1 Ebrill 2015 i 24 Mawrth 2016) | | | | | 5 | 6 | | |
| Y Barnwr John Aitken | | | 7 | 7 | | | | |
| *Y Barnwr Brian Doyle* | | | 2 | 3 | | | | |
| Tom Taylor – Aelod Annibynnol Anweithredol (o 1 Gorffennaf 2015) | | | | | 3 | 5 | | |
| Faran Johnson – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | | | | | 5 | 6 | | |
| Lucy Garrod – Cyfarwyddwr Cyflawni Canolbarth Lloegr | | | | | 2 | 6 | | |
| Kevin Gallagher – Cyfarwyddwr Newid Digidol | | | | | 1 | 1 | | |
| *Damon Norville – Newid Digidol* | | | | | | | 3 | 4 |
| *Craig Watkins, Cyfarwyddwr, Cyllid Corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (hyd 31 Gorffennaf 2015)* | | | | | | | 6 | 6 |
| John McGovern, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Cyllid Corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (o 1 Awst 2015) | | | | | | | 4 | 10 |
| Matthew Coats, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | | | | | | | |

* Yn bresennol fel mynychwr parhaol a gorfodol yn hytrach nag aelod parhaol o'r pwyllgor

## Gweithrediaeth GLlTEM a'i his-bwyllgorau

### Uwch dîm rheoli

- Ei Gadeirydd yw Prif Weithredwr GLlTEM

Mae'n gyfrifol am gynorthwyo'r Prif Weithredwr wrth weinyddu a chyflawni gweithrediadau GLlTEM o ddydd i ddydd, am arwain staff GLlTEM ac am fodloni gofynion y Swyddog Cyfrifyddu.

Prif gyfrifoldebau
- Pennu'r arweiniad a'r cyfeiriad
- Bod yn weladwy i'r sefydliad ac oddi mewn iddo
- Bod yn atebol am gyflawni nodau ac amcanion
- Cytuno ar argymhellion a'u cyflwyno i fwrdd GLlTEM, drwy'r Prif Weithredwr ac aelodau'r bwrdd gweithredol ar faterion sy'n cynnwys, ymysg pethau eraill:
  - Dyraniadau cyllideb ac amrywiadau o fewn y flwyddyn;
  - Amcanion strategol; perfformiad a risg, yn cynnwys gwella parhaus;
  - Polisïau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r effaith ar weinyddiaeth llysoedd a thribiwnlysoedd
- Monitro perfformiad
- Sefydlu a chynnal perthynas waith gryf rhwng staff a'r farnwriaeth
- Creu a chynnal y fframwaith llywodraethu corfforaethol a rheolaethau
- Datblygu cynlluniau strategol ar gyfer y gwasanaeth;
- Monitro perfformiad y Weinyddiaeth Gyflawnder a Gwasanaethau a Rennir;
- Sicrhau bod yr holl faterion sydd wedi'u neilltuo i'r bwrdd yn cael eu hystyried mewn ffordd agored ac amserol

### Uwch dîm rheoli diwygio

- Ei Gadeirydd oedd Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddiwygio nes bod y strwythur llywodraethu wedi aeddfedu yn ystod 2015–16 ac nad oedd angen cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd. Mae'r agenda a oedd yn cael ei thrafod yn y cyfarfodydd hyn wedi cael ei throsglwyddo bellach i Fwrdd y Portffolio Newid.

Prif gyfrifoldebau:
- Maent yn cynnwys trafod a ffurfio cynigion ar gyfer patrwm y sefydliad yn y dyfodol a sicrhau bod cynigion ar gyfer dyfodol GLlTEM yn gyson â'r patrwm hwnnw.

### Pwyllgor Buddsoddi mewn Newid

- Ei Gadeirydd yw Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraethu a Pherfformiad
- Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer 2015–16

Prif gyfrifoldebau:
- Adolygu'r holl geisiadau am newid ac, os cyflwynwyd achos digonol o blaid symud ymlaen, cymeradwyo cychwyn gweithgarwch y prosiect.
- Sicrhau bod yr holl geisiadau am newid lle rhoddir cymeradwyaeth i gychwyn gweithgarwch yn unol â blaenoriaethau GLlTEM a'r agenda ar ddiwygio.
- Cynhyrchu a rheoli cyfres o gynigion er mwyn gallu penderfynu ar flaenoriaethau.
- Os na chyflwynwyd achos digonol neu os credir nad yw'r prosiect yn flaenoriaeth, rhoi cyfarwyddyd i ohirio neu atal gweithgarwch y prosiect.
- Dyrannu'r holl brosiectau newydd a gymeradwyir i'w llywodraethu un ai gan y rhaglen ddiwygio neu fwrdd GLlTEM.
- Categoreiddio'r holl brosiectau nad ydynt yn ymwneud â diwygio.
- Cymeradwyo diwygiadau i'r broses ymgeisio am newid a'u goruchwylio.

**Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad**

- Ei Gadeirydd yw'r Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraethu a Pherfformiad
- Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer 2015–16

Prif gyfrifoldebau:

- Goruchwylio a llywodraethu'r holl adroddiadau ar berfformiad yn GLlTEM
- Archwilio a deall y prif ddangosyddion perfformiad ariannol ac anariannol yn GLlTEM er mwyn pennu risgiau a chyfleoedd, a chamau gweithredu priodol
- Uwchgyfeirio materion i'r Uwch Dîm Rheoli gan argymell camau gweithredu, os yw'r cerdyn sgorio yn dangos bod risg i'r Cynllun Busnes neu'r sefyllfa ariannol
- Y broses flynyddol ar gyfer gosod cyllidebau a dyrannu adnoddau
- Goruchwylio'r broses flynyddol ar gyfer gosod cyllidebau a dyrannu adnoddau a gwneud argymhellion i'r Uwch Dîm Rheoli (Terfyn Gwariant Dirprwyedig Adnoddau, Terfyn Gwariant Dirprwyedig Cyfalaf, incwm o ffioedd, incwm a dirwyon a thaliadau o adrannau llywodraeth eraill)
- Adolygu a goruchwylio rheolaeth ar incwm a dyledion, a'r cysylltiadau rhwng GLlTEM ac adrannau llywodraeth eraill sy'n sail i'r ffrydiau incwm hynny

**Pwyllgor Pobl**

- Ei Gadeirydd yw'r Prif Weithredwr
- Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer 2015–16

Mae ei brif gyfrifoldebau'n cynnwys:

- Hyrwyddo ein strategaeth pobl gan gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant, iechyd a llesiant a galluogrwydd
- Ymgysylltu'n rhagweithiol ar reoli talentau a chynllunio olyniaeth (ar gyfer y presennol a'r dyfodol)
- Gwneud penderfyniadau ar y gweithlu mewn perthynas â phobl
- Darparu Adroddiad Blynyddol i'r bwrdd.

## Rheoli risg

Roedd fframwaith rheoli risg ar waith drwy gydol y flwyddyn i adnabod, monitro, rheoli ac adrodd ar y risgiau neu fygythiadau i'r gallu i gyflawni ein hamcanion. Mae'r polisi risg yn cwmpasu gweithgareddau mewn rhanbarthau, mewn cyfarwyddiaethau canolog ac ar lefel gorfforaethol ac yn rhoi'r gallu i reoli risgiau ar y lefel briodol, gan eu huwchgyfeirio os oes angen.

Byddwn yn darparu diweddariad o'r strategaeth risg i'r sefydliad i'w weithredu yn y flwyddyn ariannol newydd.

**Asesu Risg yn 2015–16** – Cynhaliwyd gweithdy risg gan fy uwch dîm rheoli ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn adnabod y risgiau i'r gallu i gyflawni ein prif amcanion. Ystyriwyd risgiau gan y bwrdd a chytuno arnynt wedyn. Mae'r gofrestr risg wedi cael ei monitro, ei hadolygu a'i chynnal gan yr uwch dîm rheoli a chafwyd adolygiadau ffurfiol rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Y risgiau canlynol yw'r rheini sydd wedi'u pennu'n risgiau mwyaf i ni drwy gydol y flwyddyn.

### Y risgiau pennaf

Un risg rydym wedi'i rheoli'n gyson drwy gydol y flwyddyn adrodd yw'r **diffyg sgiliau a galluogrwydd** a nodwyd i gyflenwi'r angen ar y lefel uwch yn yr holl swyddogaethau allweddol. Er mwyn lliniaru'r risg, rydym wedi cynnal gweithgarwch sylweddol drwy gydol y flwyddyn, gan wneud penodiadau o ansawdd uchel i'r uwch dîm rheoli ac i swyddi cyfarwyddwyr a dirprwy gyfarwyddwyr allweddol sy'n gyfrifol am gyfarwyddo ac arwain y sefydliad drwy'r broses drawsnewid. Mae bwrdd GLlTEM

wedi datblygu a chytuno ar Strategaeth Pobl a Sefydliad yn 2016–17 felly disgwylir y bydd newidiadau sylweddol yn cael eu cyflwyno'n raddol drwy gydol y broses o drawsnewid llysoedd a thribiwnlysoedd.

Risg ychwanegol sydd hefyd yn gysylltiedig â phobl yw'r posibilrwydd o **golli personél allweddol sydd eu hangen am eu sgiliau**, eu harweinyddiaeth a'u profiad. Fel y nodwyd yn gynharach, crëwyd uwch dîm rheoli cadarn yn ystod 2015 gyda phenodiadau allweddol; ailbenodwyd Cadeirydd bwrdd GLlTEM am dair blynedd ychwanegol a thrwy benodi'r Uwch Farnwr Llywyddol, Dirprwy ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, roeddem yn ceisio sicrhau bod yr arweinyddiaeth weithredol a barnwrol yn parhau'n gryf. Rydym hefyd yn cryfhau ansawdd ac yn cynyddu nifer yr arweinwyr ym mhob maes o dan lefel y gweithredwyr, er mwyn lleihau'r risg o brofi methiant ar bwyntiau penodol. Rhoddwyd sylw a blaenoriaeth i'r risg hon yn y Pwyllgor Pobl sydd newydd ei sefydlu. Fodd bynnag, gwireddwyd y risg hon wedyn ar ôl diwedd y flwyddyn drwy gyhoeddi ymadawiad Prif Weithredwr GLlTEM yn ogystal â phersonél allweddol eraill yn ystod 2015–16. Felly parheir i roi sylw helaeth i'r risg hon yn 2016, a hon yw'r risg lefel uchaf i GLlTEM ar hyn o bryd.

Oherwydd maint a graddfa rhaglen drawsnewid GLlTEM, rydym wedi parhau i reoli risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Rhaglen. Un risg allweddol oedd **natur gymhleth y trefniadau llywodraethu roedd eu hangen**. Oherwydd statws GLlTEM fel asiantaeth sy'n cael ei chydberchenogi gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, sy'n rheoli cyfres o raglenni newid mawr, cafwyd gorgyffwrdd a dyblygu mewn trefniadau llywodraethu a oedd yn bygwth rhwystro cynnydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, rydym wedi canolbwyntio ar gynnal cysylltiadau effeithiol â'n partneriaid allweddol er mwyn sicrhau bod ceisiadau'n symud mor gyflym â phosibl drwy'r prosesau priodol. Comisiynwyd adolygiadau allanol i ystyried y trefniadau llywodraethu a galluogrwydd a chafwyd eu hadroddiadau ar ddechrau 2016–17. Cafwyd ymgysylltu effeithiol o ganlyniad i hyn ac mae'r holl argymhellion ar lywodraethu a galluogrwydd yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau cefnogaeth ddigonol i'r rhaglen.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi nodi risg yng nghyswllt dibyniaeth rhaglen **newid y llysoedd a thribiwnlysoedd ar ein partneriaid** a'r angen am amgylchedd cefnogol sy'n cwmpasu deddfwriaeth, agweddau ariannol a'n cyflenwyr. Rydym wedi defnyddio dull effeithiol o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn rheoli hyn. Roedd yr adolygiadau allanol a nodwyd uchod wedi ystyried a oes amgylchedd cefnogol priodol ar gyfer llywodraethu ac mae argymhellion yn cael eu gweithredu yn yr un modd i sicrhau bod cefnogaeth ddigonol i'r rhaglen.

Yn ystod 2015–16 roeddem wedi rheoli'r risg o fethu â **sicrhau'r incwm a ragwelwyd** ar gyfer gwasanaethau fel y byddai diffyg yn y gyllideb. Rhoddwyd sylw penodol i hyn drwy gydol y flwyddyn drwy sefydlu proses cynllunio ar y cyd dan arweiniad cyfarwyddwr, ymysg pethau eraill. Rydym wedi penodi cyfarwyddwr a dirprwy gyfarwyddwr i feithrin a hyrwyddo ein dealltwriaeth o anghenion ein defnyddwyr. Rydym wedi adolygu ein dulliau llywodraethu a'n trefniadau ar gyfer

ffurfio rhagolygon a chymeradwyo a bydd atebolrwydd priodol yn cael ei sefydlu a'i ddyrannu ar gyfer ein ffrydiau incwm allweddol. O ganlyniad i hyn a'r cyhoeddiad yn Rhagfyr 2015 am ddiddymu Tâl y Llysoedd Troseddol, ac addasu cyllideb GLlTEM ar ôl hynny, mae'r risg hon wedi lleihau'n sylweddol. Ar gyfer y dyfodol, mae wedi'i gydnabod bod incwm yn cael ei benderfynu'n bennaf gan ddewisiadau o ran polisi a wneir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ehangach, ac felly mai'r adran a ddylai fod yn gyfrifol am incwm: oherwydd hyn mae'r risg hon wedi'i thynnu oddi ar y gofrestr risg. Bydd GLlTEM yn rhoi pob cymorth i'r weinyddiaeth wrth reoli ei risg drwy ganolbwyntio'n ddyfal ar gasglu incwm.

### Rheoli'r risg o dwyll

Mae gwerth cyffredinol a nifer y digwyddiadau twyllodrus a nodwyd gennym yn isel o ystyried natur a maint y sefydliad a nifer y trafodion a gyflawnir bob dydd. Mae gennym fframwaith rheoli effeithiol sy'n cynnwys rheolaethau ar y risg o dwyll sydd â'r amcan o atal, darganfod ac atal gweithgarwch twyllodrus ac afreolaidd. Rydym yn dilyn polisi dim goddefgarwch tuag at dwyll ac afreoleidd-dra a bydd y tîm ymchwiliadau ymroddedig yn ymchwilio'n drwyadl i bob digwyddiad y caiff ei hysbysu amdano, yn nodi ac yn ymdrin â gwendidau rheoli ac yn erlyn am droseddu ym mhob achos o dwyll 'prima facie'.

### Ein hymagwedd at 'Chwythu'r Chwiban'

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi dyroddi diweddariad o'i pholisi ar chwythu'r chwiban sy'n weithredol o Ebrill 2015. Mae'r polisi diwygiedig wedi symleiddio'r broses ar gyfer cyflogeion er mwyn rhoi mwy o hyder iddynt godi pryderon ac mae hefyd yn gryfach o ran gwella dealltwriaeth ac eglurder. Yn ystod y flwyddyn hon roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi asesu digonolrwydd ein trefniadau chwythu'r chwiban. Roedd nifer yr achosion o chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn yn gymharol isel. Roedd yr arolwg pobl blynyddol yn dangos bod lefel uchel o ymwybyddiaeth a hyder yn y polisi.

### Ein dull o ddiogelu gwybodaeth

Rydym yn delio â gwybodaeth bersonol sensitif iawn ar ran pobl sy'n gysylltiedig â gwrandawiadau ac rydym yn rhoi pwys mawr ar ein cyfrifoldeb i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei diogelu. Ein polisi yw hunangyfeirio pob digwyddiad o bwys yng nghyswllt data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac asiantaethau eraill i wella ein system ymhellach a dysgu gwersi.

### Trefniadau goruchwylio llywodraethu a sicrhau risg

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Rwyf yn cael gwybodaeth drwy waith fy rheolwyr gweithredol ar gyfer fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Maent yn gyfrifol am ddatblygu, cynnal ac adrodd ar y fframwaith rheolaeth fewnol, a hefyd ar sylwadau ac argymhellion a wneir gan archwilwyr mewnol ac allanol yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae trefniadau ar waith ar gyfer adrodd ar gydymffurfio a rheoli safonau ym mhob rhan o'r sefydliad ac mae trefniadau ar gyfer adrodd ar sicrwydd bob chwarter blwyddyn ac uwchgyfeirio materion pwysig a risgiau i'r haen rheoli nesaf lle bo'n briodol.

Yn ogystal â hyn, rwyf fi a bwrdd GLlTEM yn cael sicrwydd drwy'r canlynol:

- Adroddiadau cynhwysfawr gan y weithrediaeth ar y sefyllfa gyfredol o ran perfformiad a chyllid yn holl gyfarfodydd y bwrdd.
- Gweithdrefnau ariannol a gweinyddol sy'n dirprwyo awdurdod cyllidol ac yn gwahanu dyletswyddau ar brosesau ariannol allweddol.
- Sicrwydd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer darparu gwasanaethau a rennir.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn goruchwylio'r prosesau rheoli risg a'r system rheolaeth fewnol yn y sefydliad i sicrhau eu bod yn ddigonol ac effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol yn rheolaidd, yn cynnal trafodaethau manwl ar ein risgiau allweddol ac yn goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon GLlTEM, fel y mae'r weithrediaeth a bwrdd GLlTEM.
- Adolygiadau rheolaidd o'r proffil risgiau ac effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol drwy dderbyn cofnodion oddi wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, drwy adolygu adroddiadau ar berfformiad a thrwy adborth uniongyrchol oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor.
- Adroddiadau Archwilio Mewnol (gweler isod).
- Adroddiadau Gwerth am Arian ac adroddiadau eraill a gynhyrchir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

### Barn yr archwilwyr mewnol a'r archwiliad blynyddol

Un o'r prif ffynonellau sicrwydd annibynnol yn yr asiantaeth yw gweithgareddau ei gwasanaeth archwilio mewnol a ddarperir gan wasanaeth Archwilio a Sicrwydd Mewnol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r rhaglen archwilio mewnol yn rhoi sylw manwl i'r prif risgiau i'r asiantaeth ac mae trefniadau ar waith i sicrhau fy mod i, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn cael fy hysbysu am unrhyw faterion o bwys sy'n dangos nad yw'r prif risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol.

Roedd Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi barn gyffredinol o 'gymedrol', ac roedd mwyafrif yr adroddiadau archwilio yn rhoi sgôr 'gymedrol' neu 'sylweddol'. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, mae'r Archwilwyr Mewnol wedi nodi thema gyson o ddiffyg cydymffurfio â rheolaethau systemau ac wedi mynegi pryder hefyd nad yw'r diffygion o ran rheolaeth a nodwyd yn eu harchwiliadau wedi cael eu hadlewyrchu bob amser mewn adroddiadau ar Reolaethau Gweithredu Safonol. Felly mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi nodi bod y farn gyffredinol am sicrwydd ar gyfer 2015–16 yn agos iawn rhwng 'cymedrol' a 'cyfyngedig' ond penderfynodd y byddai 'cymedrol' yn fwy priodol.

### Adroddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei hadroddiad 'Efficiency in the Criminal Justice System' ar 1 Mawrth 2016. Yn ei harchwiliad, roedd wedi edrych ar effeithlonrwydd y system cyfiawnder troseddol rhwng y pwynt lle mae'r heddlu neu

Wasanaeth Erlyn y Goron yn cyhuddo'r diffynnydd a diwedd yr achos llys. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan gynnwys GLlTEM a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Casgliad yr adroddiad oedd, er bod y rheolaeth ar achosion wedi gwella er 2010, nad yw'r system cyfiawnder troseddol yn rhoi gwerth am arian ar hyn o bryd. Mae'n nodi y bydd y rhaglen ddiwygio bresennol yn mynd i'r afael â nifer o feysydd lle mae aneffeithlonrwydd ond na fydd yn dileu'r rhesymau sylfaenol am aneffeithlonrwydd. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion sy'n ceisio creu cyd-ddealltwriaeth o effeithiolrwydd a gwella'r gweithio ar draws y system a bydd hyn yn cael ei ystyried o dan yr agenda gyffredinol ar drawsnewid sy'n cael ei chyflawni yn GLlTEM.

### Casgliad

Rwyf wedi fy modloni bod trefniadau effeithiol ar waith gennym ar gyfer llywodraethu, rheoli a sicrhau risg fel y nodwyd yn y datganiad hwn. Mae'r trefniadau'n cael eu hadolygu'n barhaus i'w haddasu i newidiadau yn ein hamgylchedd risg.

Lle nodwyd materion pwysig o ran rheolaeth yn y datganiad hwn, rwyf wedi fy modloni eu bod yn cael eu hadolygu'n drwyadl a bod camau lliniaru priodol, effeithiol a chymesur yn cael eu cymryd i reoli'r materion hynny.

## 3.5 Heriau cyfredol wrth reoli

Yn ystod 2015–16 roedd trefniadau llywodraethu priodol ar waith yn GLlTEM i liniaru heriau wrth reoli. Cododd y methiannau a heriau canlynol wrth reoli:

**Cymryd pobl ymlaen oddi ar y gyflogres** – Yn ystod y flwyddyn nid oedd GLlTEM yn gallu cydymffurfio'n llawn â rheolaethau oddi ar y gyflogres Trysorlys EM. Nodwyd bod unigolyn sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol wedi'i gymryd ymlaen drwy drefniant oddi ar y gyflogres am fwy na chwe mis. Nodwyd y diffyg cydymffurfio yn ystod adolygiadau GLlTEM o drefniadau treth rhai a benodwyd oddi ar y gyflogres, sy'n cael eu cynnal i gydymffurfio â rheolaethau Trysorlys EM.

Cymerwyd camau ar unwaith ar ôl nodi'r diffyg cydymffurfio drwy ymgysylltu â'r unigolyn, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Thrysorlys EM. Roeddem wedi ceisio rheoleiddio'r trefniadau a'n sicrhau ein hunain ynghylch trefniadau treth yr unigolyn oherwydd pwysigrwydd yr unigolyn i brosiectau allweddol yn GLlTEM. Nid yw'r unigolyn bellach yn ymwneud â gweithgareddau ar ran GLlTEM na'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Er bod camau wedi'u cymryd ar unwaith, nid oedd yn bosibl osgoi cyfnod o wariant afreolaidd o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfio â rheolaethau Trysorlys EM ar drefniadau oddi ar y gyflogres. Rwyf wedi cymryd camau pellach i osgoi methiannau tebyg o ran rheoli yn y dyfodol, gan gynnwys camau i gryfhau'r rheolaethau sydd ar waith ar bwynt caffael gwasanaethau oddi ar y gyflogres a sicrhau nad yw cyllidebau'n cael eu dirprwyo i unigolion a gymerir ymlaen drwy drefniadau oddi ar y gyflogres.

**Treuliau barnwrol** – Gwnaeth GLlTEM ymrwymiadau i wneud taliadau am dreuliau i dri uwch aelod o'r farnwriaeth o gyfanswm amcangyfrifedig o £330,000. Mae'r trafodion hyn yn daliadau arbennig, yn ôl y diffiniad gan Drysorlys EM yn Managing Public Money, gan eu bod yn mynd y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei dalu fel arfer i aelodau o'r farnwriaeth. Roedd natur y taliadau hyn yn dangos bod bwlch yn ein polisi ar gyfer gwneud taliadau i'r farnwriaeth mewn amgylchiadau penodol ac, o ganlyniad, mae'r polisi'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd i roi sylw i hyn.

**Rheoli cyfleusterau cyflawn (ystadau)** – Caffaelwyd y contract gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ond mae'n effeithio ar weithrediadau GLlTEM ac rydym yn cadw cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros y gyllideb. Nodwyd gwendidau yn y contract a allai arwain at ordalu'r cyflenwr ac rydym yn defnyddio dulliau sicrhau a monitro ynghyd â dulliau ychwanegol i liniaru'r risg hon.

Ar lefel weithredol, parheir i gael adroddiadau ar faterion sy'n ymwneud â methiant i ddarparu gwasanaethau'n unol â'r contractau rheoli cyfleusterau cyflawn. Mae uwch dimau rheoli rhanbarthol yn cofnodi methiannau ac maent yn cynnal deialog â darparwyr rheoli cyfleusterau cyflawn. Caiff materion eu huwchgyfeirio

i dîm ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fel y bo'n briodol. Mae'r Cyfarwyddwr Ystadau a Dirprwy Gyfarwyddwr Rheoli Masnachol a Chontractau yn cydgysylltu ag uwch reolwyr y darparwr i geisio datrys y materion. Mae'r cyflenwr wedi caffael goruchwyliaeth ychwanegol drwy gontractwr arall er mwyn adolygu'r broses reoli gan roi pwyslais ar gydymffurfio, gan gynnwys monitro perfformiad a dadansoddi effeithiol drwy archwiliadau sy'n mynd ar wraidd y mater.

**Ffurflen Ysgariad E** – Yn Rhagfyr 2015 cafodd nam ei ddarganfod yn y cyfleuster cyfrifo yn un o ffurflenni'r Weinyddiaeth Cyfiawnder o'r enw 'Ffurflen E'. Mae'r ffurflen wedi'i rhagnodi gan y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Teulu er mwyn galluogi pobl i ddatgelu gwybodaeth ariannol yn ystod achosion ysgariad ac achosion tebyg. Roedd ymchwiliadau pellach gan y weinyddiaeth wedi dod o hyd i broblem debyg ynglŷn â ffurflen gysylltiedig o'r enw Ffurflen E1 yn Ionawr 2016. Roedd y diffyg yn golygu bod y cyfrifiannell awtomatig yn y ffurflen yn cyfrifo'r cyfanswm anghywir ar gyfer asedau net yr unigolyn drwy fethu â didynnu rhwymedigaethau penodol.

Roedd yr ymchwiliad wedi canfod bod y fformiwla ddiffygiol yn bresennol mewn fersiynau o Ffurflen E a oedd ar-lein rhwng Ebrill 2014 a chanol Rhagfyr 2015 a rhwng Ebrill 2011 ac Ionawr 2012 ac mewn fersiwn flaenorol o Ffurflen E1 a oedd ar-lein rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012.

GLlTEM a arweiniodd yr ymchwiliad i ddarganfod nifer y bobl roedd y gwall yn effeithio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o fwy na 37,000 o achosion a ddangosodd ei bod yn bosibl bod tua 3,600 ohonynt wedi defnyddio fersiwn ddiffygiol o un ai Ffurflen E neu Ffurflen E1 a oedd yn cynnwys y gwall cyfrifo. Roeddem wedi ysgrifennu at y partïon mewn achosion a oedd wedi'u cau (deliwyd ag achosion byw wrth iddynt symud ymlaen), sef tua 4,500 o bobl, i'w hysbysu am y broblem ddichonol ac amlinellu'r gwahanol opsiynau a oedd ar gael iddynt. Ar 1 Ebrill 2016 dim ond naw cais a oedd wedi'u gwneud i ailystyried achosion ac roedd pum cais wedi'u gwrthod.

Er mwyn diogelu rhag digwyddiadau tebyg, rwyf wedi sicrhau, ar y cyd â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, ein bod yn cael dealltwriaeth glir o bwy sy'n gyfrifol am yr holl ffurflenni a dogfennau. Mae hyn yn golygu y bydd yr adran y mae dogfennau'n dod ohoni'n cymryd cyfrifoldeb dros y ffurflenni a'u cywirdeb; ac y bydd perchennog wedi'i enwi ar gyfer pob ffurflen, i sicrhau bod cymhelliad i sicrhau ansawdd a chroeswirio cywirdeb gyda gwahanol swyddogaethau; y bydd pob ffurflen yn cael ei dilysu a'i phrofi gan ddefnyddwyr trydydd parti; ac y bydd canllawiau clir yn cael eu darparu i dimau ynghylch pa bryd a sut i uwchgyfeirio unrhyw fater sy'n ymwneud â ffurflenni.

**Kevin Sadler**
**Prif Weithredwr (Dros Dro) a Swyddog Cyfrifyddu**
4 Gorffennaf 2016

# 3.6 Adroddiad atebolrwydd Seneddol

Mae'r adrannau canlynol wedi'u cynnwys i fodloni gofynion seneddol o ran adrodd ac atebolrwydd ac maent yn cael eu harchwilio.

### Colledion:

| | 2015–16 | | 2014–15 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr achosion | £000 | Nifer yr achosion | £000 |
| Colledion arian parod | 1,981 | 385 | 1,455 | 370 |
| Dileu gweinyddol | 155 | 82 | 61 | 11 |
| Taliadau difudd | 10 | 691 | 8 | 1 |
| Colledion mewn effaith | 1 | 8,956 | - | - |
| **Cyfanswm y colledion** | **2,147** | **10,114** | **1,524** | **382** |

Yn 2015–16 cafwyd dwy golled (2014–15: dim) dros £300,000.

Mae colled o £9.0 miliwn wedi'i chydnabod mewn perthynas â gwariant paratoadol nad yw bellach yn ofynnol ar brosiect i allanoli gwasanaethau cydymffurfio a gorfodi llysoedd troseddol. Ar ôl ailystyried y gofynion, penderfynwyd nad allanoli'r gwasanaethau hyn i un cyflenwr oedd yr opsiwn gorau i GLlTEM. Roedd y penderfyniad hwn wedi'i seilio ar yr angen i sicrhau bod unrhyw gontract a osodwyd yn ateb y gofynion yn llwyr, yn rhoi'r gwerth gorau i'r trethdalwr ac yn cydymffurfio â chyfraith caffael.

Mae taliad difudd o £359,000 wedi'i gydnabod am y premiwm i ymadael â les tir ac adeiladau.

### Taliadau arbennig:

| | 2015–16 | | 2014–15 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr achosion | £000 | Nifer yr achosion | £000 |
| Taliadau digolledu | 252 | 747 | 285 | 354 |
| Cydnabyddiaeth | 1,549 | 1,091 | 1,397 | 1,291 |
| Taliadau allgontractiol | 462 | 81 | 395 | 1,043 |
| Taliadau allstatudol ac allreoliadol | - | - | - | - |
| Taliadau diswyddo arbennig | - | - | - | - |
| Benthyciadau | - | - | - | - |
| Rhoddion | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y taliadau arbennig** | **2,263** | **1,919** | **2,077** | **2,688** |

Yn ychwanegol at yr uchod, gwnaeth GLlTEM ymrwymiadau i wneud taliadau am dreuliau i dri uwch aelod o'r farnwriaeth ac iddynt gyfanswm gwerth amcangyfrifedig o £330,000. Mae'r trafodion hyn yn daliadau arbennig, yn ôl y diffiniad gan Drysorlys EM yn Managing Public Money, am eu bod yn mynd y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei dalu fel arfer i aelodau o'r farnwriaeth.

### Rhoddion elusennol

Darparodd GLlTEM roddion elusennol o gyfanswm o £15,000 yn 2015–16 (2014–15: £15,000). Darparwyd y rhoddion hyn i sefydliadau elusennol i gefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau GLlTEM.

### Incwm o ffioedd

Mae'n ofynnol i GLlTEM ddatgelu canlyniadau perfformiad ar gyfer y meysydd yn ei weithgareddau lle codir ffioedd a thaliadau. Nid yw'n fwriad i'r dadansoddiad fodloni'r gofynion yn IFRS 8 'Operating Segments' nad yw'n gymwys i GLlTEM o dan FReM.

Mae GLlTEM yn cynnwys y meysydd busnes canlynol: llysoedd sifil a theulu, tribiwnlysoedd, llysoedd troseddol a llysoedd eraill. Mae GLlTEM yn casglu ac yn adrodd ar ffioedd a godwyd sydd wedi'u pennu gan bolisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac a welir yng ngorchmynion ffioedd offerynnau statudol. Cyflwynodd y llywodraeth ddiwygiadau ar adennill costau drwy ffioedd ar 22 Ebrill 2014, codi ffioedd uwch am hawliadau am arian ar 9 Mawrth 2015, a ffioedd uwch pellach yn cynnwys ysgariad a meddiant ar 21 Mawrth 2016. Mae'r system 'Help gyda ffioedd' (peidio â chodi ffioedd) ar gael i sicrhau na wrthodir mynediad i lysoedd i unigolion os na allant fforddio'r ffi. Dim ond meysydd busnes y llysoedd sifil a'r tribiwnlysoedd sydd â systemau ar gyfer codi ffioedd.

Mae GLlTEM yn adrodd ar godi ffioedd yn segmentau busnes y llysoedd sifil a'r tribiwnlysoedd. Mae dwy ffrwd fusnes ym musnes y llysoedd sifil: teulu (yn cynnwys profiant a'r Llys Gwarchod) a sifil (yn cynnwys busnes sifil yn y llysoedd sirol, llysoedd uwch a'r llysoedd ynadon). Ym musnes y tribiwnlysoedd ceir tair ffrwd fusnes: mewnfudo a lloches, cyflogaeth, a thribiwnlysoedd eraill sy'n codi ffioedd (yn cynnwys tiroedd, eiddo preswyl, hapchwarae a chydnabod rhywedd). Mae'r tabl isod yn dangos gwariant gweithredu'r awdurdodaethau hynny sy'n cael eu hariannu gan incwm o ffioedd (llai ffioedd sydd wedi'u dileu) a'r graddau y mae incwm o ffioedd yn eu hariannu.

Mae'r gorchmynion ffioedd diweddaraf yn Atodiad A ar dudalen 134.

| | Gwerth y ffioedd a godwyd £000 | Ffioedd a ddilëwyd £000 | Incwm a gasglwyd £000 | Gwariant £000 | Gwarged/ (diffyg) o'r ffioedd a godwyd £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Busnes sifil** | | | | | |
| Teulu | 160,719 | (7,792) | 152,927 | (202,510) | (49,583) |
| Sifil | 521,847 | (22,756) | 499,091 | (404,024) | 95,063 |
| **Cyfanswm y busnes sifil** | **682,566** | **(30,548)** | **652,018** | **(606,534)** | **45,480** |
| **Busnes tribiwnlysoedd** | | | | | |
| Lloches a mewnfudo | 12,705 | (1,422) | 11,283 | (94,921) | (83,639) |
| Cyflogaeth | 12,477 | (3,910) | 8,567 | (65,844) | (57,277) |
| Tribiwnlysoedd eraill | 1,206 | (35) | 1,171 | (15,408) | (14,236) |
| **Cyfanswm busnes tribiwnlysoedd** | **26,388** | **(5,367)** | **21,021** | **(176,173)** | **(155,152)** |
| **Cyfanswm busnes GLlTEM 2015–16** | **708,954** | **(35,915)** | **673,039** | **(782,707)** | **(109,672)** |
| **Cyfanswm busnes GLlTEM 2014–15** | **605,593** | **(19,862)** | **585,731** | **(817,927)** | **(232,196)** |

**Kevin Sadler**
**Prif Weithredwr (Dros Dro) a Swyddog Cyfrifyddu**
4 July 2016

# Adran 4:
# Craffu allanol

# 4.1 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Rwyf yn ardystio i mi archwilio datganiadau ariannol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian Parod, Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u nodi ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad am Staff, yr Adroddiad am Daliadau a'r Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol y dywedir yn yr adroddiadau hynny ei bod wedi'i harchwilio.

### Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwiliwr

Fel yr eglurwyd yn fwy manwl yn y Datganiad am Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Rwyf i'n gyfrifol am archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt, yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Ar gyfer archwiliad rhaid sicrhau digon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatgan sylweddol, pa un a yw hynny wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM; a chyflwyniad y datganiadau ariannol yn gyffredinol. Yn ogystal â hynny, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol i nodi anghysonderau o bwys o'u cymharu â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth o bwys sydd i bob golwg yn anghywir yn ei hanfod, neu'n anghyson ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad. Os byddaf yn dod i wybod am unrhyw beth sy'n ymddangos yn gamddatganiad neu'r anghysonder sylweddol, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Mae gofyn i mi sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob mater o bwys, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y

datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 31 Mawrth 2016, ac o'r gost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a ddyroddwyd o dani.

### Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiadau am Staff a Thaliadau ac o'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad am Berfformiad a'r Adroddiad am Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am y materion canlynol, y byddaf yn eich hysbysu amdanynt os credaf:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu na chafwyd datganiadau digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau am Staff a Thaliadau ac o'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
6 Gorffennaf 2016

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

# Adran 5:
# Ein gwariant

# 5.1 Cyfrifon

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | 2015–16 £000 | Wedi'i ailddatgan 2014–15 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu | 8 | (741,224) | (654,169) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(741,224)** | **(654,169)** |
| | | | |
| Costau staff | 3 | 501,292 | 509,463 |
| Costau'r farnwriaeth | 3 | 462,846 | 449,258 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 4 | 589,978 | 613,270 |
| Taliadau am ddibrisiant a lleihad mewn gwerth | 5 | 212,342 | 39,228 |
| Gwariant arall nad yw'n arian parod | 6 | 126,884 | 113,272 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **1,893,342** | **1,724,491** |
| | | | |
| **Gwariant gweithredu net** | | **1,152,118** | **1,070,322** |
| | | | |
| Costau cyllid | 7 | 26,410 | 25,105 |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **1,178,528** | **1,095,427** |

## Gwariant Cynhwysfawr Arall

| | Nodiadau | 2015–16 £000 | 2014–15 £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau net** | | **1,178,528** | **1,095,427** |
| (Ennill)/colled net ar ailbrisio eiddo a chyfarpar | | (234,691) | (186,830) |
| (Ennill)/colled net ar ailbrisio asedau anniriaethol | | (713) | (541) |
| (Ennill)/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 17.2 | (58) | 221 |
| **Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr** | | **943,066** | **908,277** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 95 i 133 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | 2015–16<br>£000 | Wedi'i ailddatgan<br>2014–15<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Eiddo a chyfarpar | 9 | 3,246,886 | 3,164,065 |
| Asedau anniriaethol | 11 | 55,063 | 43,770 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 13 | 1 | 43 |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol** | | **3,301,950** | **3,207,878** |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Asedau wedi'u dal i'w gwerthu | 10 | 8,717 | 9,673 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 13 | 82,266 | 105,945 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 14 | 14,414 | 22,602 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **105,397** | **138,220** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **3,407,347** | **3,346,098** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 15 | (247,785) | (291,448) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | (10,910) | (10,865) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(258,695)** | **(302,313)** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **3,148,652** | **3,043,785** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 15 | (370,350) | (399,836) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | (146,806) | (136,387) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | **(517,156)** | **(536,223)** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **2,631,496** | **2,507,562** |
| | | | |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 1,840,120 | 1,895,706 |
| Cronfa ailbrisio | | 791,376 | 611,856 |
| **Cyfanswm ecwiti'r trethdalwyr** | | **2,631,496** | **2,507,562** |

**Kevin Sadler**
**Prif Weithredwr (Dros Dro) a Swyddog Cyfrifyddu**
4 Gorffennaf 2016

Mae'r nodiadau ar dudalennau 95 i 133 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Lifau Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | 2015–16 | Wedi'i ailddatgan 2014–15 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net am y flwyddyn | | (1,178,528) | (1,095,427) |
| Addasiadau ar gyfer costau tybiannol a chostau nad ydynt yn arian parod | 16 | 481,385 | 293,224 |
| Addasiadau ar gyfer costau cyllid | 7 | 26,410 | 25,105 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | | (93,759) | (98,431) |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | | 129,584 | 200,784 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 17 | (7,033) | (8,133) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(641,941)** | **(682,878)** |
| | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo a chyfarpar | 16.1 | (42,827) | (43,902) |
| Elw o waredu eiddo a chyfarpar ac asedau a ddaliwyd i'w gwerthu | | 7,678 | 16,159 |
| Prynu asedau anniriaethol | 11 | (8,842) | (5) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(43,991)** | **(27,748)** |
| | | | |
| **Llif arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cyllid o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | | 698,000 | 729,000 |
| Elfen gyfalaf mewn contractau Menter Cyllid Preifat | | (8,926) | (8,926) |
| Elfen gyfalaf mewn lesoedd ariannu | | (228) | (109) |
| Ad-dalu benthyciadau Awdurdodau Lleol | | (2,093) | (2,717) |
| Llog a dalwyd | 7 | (9,009) | (9,711) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau ariannu** | | **677,744** | **707,537** |
| | | | |
| **Cynnydd / gostyngiad net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod o fewn y cyfnod** | 14 | **(8,188)** | **(3,089)** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 14 | **22,602** | **25,691** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 14 | **14,414** | **22,602** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 95 i 133 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | Wedi'i ailddatgan Cronfa gyffredinol | Wedi'i ailddatgan Cronfa ailbrisio | Wedi'i ailddatgan Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2014** | | **1,863,904** | **447,988** | **2,311,892** |
| Cyllid o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | | 729,000 | - | **729,000** |
| Setliad rhwng cwmnïau â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | | 132,146 | - | **132,146** |
| Gwariant gweithredu net | | (1,095,427) | - | **(1,095,427)** |
| Gwariant tybiannol: | | | | |
| Cyflogau barnwrol o'r gronfa gyfunol | 16 | 140,520 | - | **140,520** |
| Tâl yr archwilwyr allanol | 16 | 320 | - | **320** |
| Ailgodi taliadau o fewn yr adran | 16 | 101,961 | - | **101,961** |
| Ailbrisio eiddo a chyfarpar | | - | 186,830 | **186,830** |
| Ailbrisio asedau anniriaethol | | - | 541 | **541** |
| Ailddosbarthu o'r gronfa ailbrisio | | 23,503 | (23,503) | **-** |
| Ennill actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 17.2 | (221) | - | **(221)** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2015** | | **1,895,706** | **611,856** | **2,507,562** |
| Cyllid o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | | 698,000 | - | **698,000** |
| Setliad rhwng cwmnïau â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | | 119,822 | - | **119,822** |
| Gwariant gweithredu net | | (1,178,528) | - | **(1,178,528)** |
| Gwariant tybiannol: | | | | |
| Cyflogau barnwrol o'r gronfa gyfunol | 16 | 141,943 | - | **141,943** |
| Tâl yr archwilwyr allanol | 16 | 300 | - | **300** |
| Ailgodi taliadau o fewn yr adran | 16 | 106,935 | - | **106,935** |
| Ailbrisio eiddo a chyfarpar | | - | 234,691 | **234,691** |
| Ailbrisio asedau anniriaethol | | - | 713 | **713** |
| Ailddosbarthu o'r gronfa ailbrisio | | 55,884 | (55,884) | **-** |
| Ennill actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 17.2 | 58 | - | **58** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2016** | | **1,840,120** | **791,376** | **2,631,496** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 95 i 133 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# 5.2 Nodiadau i'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2015-16 a ddyroddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u dehonglwyd ar gyfer y sector cyhoeddus.

Lle mae FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y credwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol GLlTEM er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan GLlTEM wedi'u disgrifio isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau y credwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

## 1.1 Sail paratoi

Mae cyfrifon GLlTEM wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol sydd wedi'i addasu i roi cyfrif am ailbrisio eiddo a chyfarpar ac asedau anniriaethol ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

Wrth baratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol, mae'n ofynnol defnyddio amcangyfrifon critigol penodol ar gyfer cyfrifyddu (gweler nodyn 1.19). Mae hefyd yn ofynnol i'r rheolwyr arfer eu crebwyll wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu.

## 1.2 Newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu a datgeliadau

### a) Newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu

Mae GLlTEM wedi adolygu'r pwyntiau cydnabod ar gyfer incwm o ffioedd profiant ac incwm o ffioedd gwrandawiadau Llysoedd Sirol. Gwnaed hyn er mwyn darparu gwybodaeth fwy perthnasol a dibynadwy.

Mae hyn wedi arwain at ailddatgan gweddillau a thrafodion a gofnodwyd yn flaenorol ac mae'r diwygiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn yr ailddatganiadau o'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gyfer 2014–15. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn nodyn 26.

### b) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae IFRS 13 'Fair Value Measurement' mewn grym ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015, ac mae wedi'i chymhwyso'n rhagweithiol yn y cyfrifon hyn. Mae'r safon hon yn diffinio gwerth teg, yn gosod fframwaith unffurf ar gyfer mesur gwerth teg ac yn darparu gofynion cysylltiedig o ran datgelu. Nod y safon hon yw creu methodoleg gyson ar gyfer cyfrifo gwerthoedd teg i'w

chymhwyso mewn Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol eraill.

I gyd-fynd â datgan IFRS 13, mae FReM wedi addasu a dehongli IAS 16 'Property, Plant and Equipment' ac IAS 38 'Intangible Assets' i'w cymhwyso at y sector cyhoeddus.

Mae'r newidiadau hyn wedi'u cymhwyso fel pe baent mewn grym o 1 Ebrill 2015 ac maent wedi'u hadlewyrchu yn y cyfrifon hyn.

c) Safonau newydd, diwygiadau a dehongliadau a ddyroddwyd ond nad ydynt mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2014 ac sydd heb eu mabwysiadu'n gynnar

Nid yw IFRS 15 'Revenue from contracts with customers' ac IFRS 9 'Financial Instruments' mewn grym eto ar gyfer adroddiadau'r sector cyhoeddus. Disgwylir na fyddant yn cael effaith sylweddol ar gyfrifon GLlTEM yn y dyfodol.

d) Newidiadau o ran cyflwyniad ac ailddosbarthu

Yn unol â phrosiect Symleiddio Cyfrifon Trysorlys EM, mae'r dull o gyflwyno'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wedi'i adolygu i'w wneud yn fwy cyson â gofynion IAS 1 'Presentation of Financial Statements'. Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth wedi'i dosbarthu ar yr un sail ag y cafodd ei chofnodi ar gyfer y flwyddyn gyfredol, rydym wedi gwneud newidiadau mewn dosbarthiadau ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn nodiadau 4, 5 a 6 i'r cyfrifon.

Yn ogystal â hyn, mae manylion am gostau a niferoedd staff wedi'u datgelu yn yr adran ar Ein staff yn yr adroddiad am Atebolrwydd ar dudalen <?>. Mae GLlTEM hefyd wedi ailddosbarthu incwm o ffioedd beilïaid i gostau gwasanaethau ar gontract. Yr effaith ar wariant gweithredu net yw dim. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodiadau 4 ac 8 i'r cyfrifon.

## 1.3 Incwm gweithredu

Mae incwm gweithredu yn incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu GLlTEM ac sydd felly wedi'i gydnabod yn refeniw yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn unol ag IAS 18. Mae rhagor o wybodaeth yn nodyn 8.

Mae incwm gweithredu wedi'i ddatgan heb gynnwys TAW.

Incwm o ffioedd yw symiau am wasanaethau a roddwyd i ddefnyddwyr llysoedd sifil, llysoedd teulu a thribiwnlysoedd. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r ffrydiau incwm, y pwynt cydnabod yw cychwyn y cais, sy'n digwydd yn syth ar ôl cael y cais. Yn achos ffrydiau incwm eraill o ffioedd am geisiadau nad ydynt yn cael eu cychwyn ar unwaith, mae gwerth yr incwm lle cafwyd tâl ond lle nad yw gwaith wedi'i gwblhau eto yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn incwm a ohiriwyd. Mae'r incwm a ohiriwyd yn cael ei gydnabod yn incwm wedyn ar ôl cwblhau'r gwasanaeth.

Mae incwm o ffioedd yn cael ei ddatgan heb gynnwys ffioedd a ddilëwyd ac esemptiadau. Mae'r cynllun dileu ffioedd wedi'i ragnodi yn y Gorchmynion Ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd ac nid yw ffioedd a ddilëwyd yn cael eu casglu gan GLlTEM.

Mae incwm gweithredu hefyd yn cynnwys derbyniadau oddi wrth gyrff llywodraeth eraill am ddarparu gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd. Mae incwm yn cael ei adennill yn unol â'r cytundeb lefel gwasanaeth cysylltiedig ar sail costau llawn.

Mae cyllid o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn unol â'r gofynion yn FReM.

## 1.4 Datganiad Ymddiriedaeth GLlTEM

Mae GLlTEM, fel yr Asiantaeth Weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n gyfrifol am gasglu dirwyon a chosbau ariannol a osodwyd gan y system cyfiawnder troseddol, yn paratoi Datganiad Ymddiriedaeth ar wahân y dylid ei ddarllen ar y cyd ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon GLlTEM.

Mae'r Datganiad Ymddiriedaeth yn rhoi cyfrif am ddirwyon a chosbau a osodwyd gan y system cyfiawnder troseddol fel refeniw sy'n daladwy yn y pen draw i'r Gronfa Gyfunol, ar sail gros. Mae hefyd yn rhoi cyfrif am yr arian parod a'r gweddillau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol a thrydydd partïon mewn perthynas â chasglu symiau'r dirwyon a chosbau.

## 1.5 Gwariant tybiannol

Mae gwariant tybiannol yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Cyflogau a chostau nawdd cymdeithasol uwch farnwyr a gaiff eu hariannu o'r Gronfa Gyfunol
- Tâl i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am archwiliadau o gyfrifon a Datganiad Ymddiriedaeth GLlTEM
- Y defnydd gan GLlTEM o wasanaethau corfforaethol a ddarperir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

## 1.6 Eiddo a chyfarpar

Mae segmentau gweithredu'n cael eu dadansoddi'n unol ag IFRS 8 'Operating Segments' ynghyd â'r llinellau gwybodaeth a gyflwynwyd i'r prif benderfynwr gweithredol sef, fel y penderfynwyd i ddiben y cyfrifon hyn, y Bwrdd .

## 1.7 Eiddo a chyfarpar

### Cydnabod yn gyntaf a throthwy cyfalafu

Cydnabyddir eitemau o eiddo a chyfarpar, gan gynnwys y gwariant dilynol ar asedau

presennol, yn gyntaf ar sail eu cost os yw'n debygol y bydd buddion economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r ased yn dod i ran GLlTEM a bod modd mesur cost yr ased mewn ffordd ddibynadwy. Bydd yr holl gostau am waith atgyweirio a chynnal a chadw arall yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn ariannol pan fyddant yn codi.

Y trothwy cyfalafu ar gyfer asedau unigol yw £10,000.

Os prynwyd nifer sylweddol o asedau unigol sydd ar eu pen eu hunain yn is na'r trothwy cyfalafu ar gyfer un prosiect unigol, ymdrinnir â hwy fel pe baent yn grŵp o asedau. Y trothwy cyfalafu ar gyfer grŵp o asedau yw £1 miliwn. Os yw cost yr eitem yn is na'r terfyn a ragnodwyd, ond bod yr eitem yn rhan annatod o becyn y mae cyfanswm ei werth yn uwch na'r lefel cyfalafu, yna bydd yr eitem yn cael ei chyfalafu. Mae'r holl drothwyon yn cynnwys TAW na ellir ei hadennill.

Lle mae cyllidebau cyfalaf yn cael eu dal yn ganolog gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder fel rhiant-adran, bydd y gwariant yn cael ei gyfalafu'n gyntaf yng nghyfrifon y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'i drosglwyddo i GLlTEM ar ôl cwblhau'r prosiect cysylltiedig.

### Dull prisio dilynol

Ar ôl eu cydnabod yn gyntaf, mae tir ac adeiladau (yn cynnwys anheddau) yn cael eu cofnodi ar sail eu gwerth teg, yn unol â'r dehongliad yn FReM, ar sail prisiadau proffesiynol ar gyfer pob eiddo a gynhelir unwaith bob pum mlynedd o leiaf. Rhwng prisiadau proffesiynol, mae'r gwerthoedd cario yn cael eu haddasu drwy gymhwyso mynegrifau neu drwy brisiadau pen bwrdd.

Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r prisiadau proffesiynol gan ddilyn Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, sy'n cael ei alw'n 'Llyfr Coch'.

Mae'r rhan fwyaf o'r llysoedd troseddol wedi'u dynodi'n adeiladau arbenigol na ellir eu gwerthu ar y farchnad agored. Caiff adeiladau arbenigol eu prisio ar sail cost ddibrisiedig eu hailadeiladu mewn ffordd a fyddai'n cyfateb i adeilad modern, yn unol â'r Llyfr Coch, gan ystyried natur ddarfodol swyddogaeth yr eiddo. Mae gwelliannau lesddaliadol yn cael eu prisio ar sail eu gwerth teg yn unol â Mynegai Prisiau Tendro'r Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu sydd wedi'i lunio gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Mae asedau a oedd wedi'u dal yn fwyaf diweddar ar gyfer eu potensial gwasanaeth ond sydd bellach dros ben yn cael eu prisio ar sail eu gwerth cyfredol ar gyfer eu defnydd presennol os oes cyfyngiadau a fyddai'n atal eu rhoi ar y farchnad ar y dyddiad adrodd. Os yw GLlTEM yn gallu eu rhoi ar y farchnad, yna dylai'r asedau dros ben gael eu prisio ar sail eu gwerth teg yn unol ag IFRS 13.

Wrth benderfynu a yw ased nad yw'n cael ei ddefnyddio yn ased dros ben, mae GLlTEM wedi asesu a oes cynllun pendant i ailddefnyddio'r ased yn y dyfodol fel

ased gweithredol. Os oes cynllun pendant, yna nid yw'r ased dros ben a chedwir y gwerth cyfredol. Fel arall, ystyrir bod yr ased dros ben a chaiff ei brisio'n unol ag IFRS 13.



### Hierarchaeth gwerthoedd teg a mewnbynnau

Y dull prisio a gaiff ei gymhwyso at yr holl ffigurau Gwerth Teg ar gyfer eiddo Dros Ben yw dull y farchnad yn unol ag IFRS 13; mae'n defnyddio prisiau a gwybodaeth berthnasol arall a grëir gan drafodion yn y farchnad sy'n ymwneud ag asedau o'r un fath neu rai tebyg.

Mae pob un o'r mewnbynnau i'r dull hwn yn fewnbynnau Lefel 2. Mewnbynnau Lefel 2 yw mewnbynnau y gellir eu harsylwi ar gyfer yr ased, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Y mewnbynnau a ddefnyddir yw tystiolaeth o'r farchnad wedi'i dadansoddi a'i phwysoli fel gwerthiannau, rhenti ac elw mewn perthynas ag eiddo tebyg yn yr un lleoliadau neu mewn rhai tebyg ar y dyddiad prisio neu'n agos iddo.

Yn achos asedau eiddo eraill y parheir i'w defnyddio, y dehongliad o werth teg yw gwerth y farchnad neu 'werth wrth ddefnyddio'. Y diffiniad o hyn yn y Llyfr Coch yw 'market value on the assumption that property is sold as part of the continuing enterprise in occupation'. 'Gwerth wrth ddefnyddio' ased nad yw'n cynhyrchu arian parod yw gwerth presennol y gweddill o botensial gwasanaeth yr ased, y gellir cymryd ei fod yn gyfwerth o leiaf â'r gost am amnewid y potensial gwasanaeth hwnnw.

Defnyddir cost hanesyddol ddibrisiedig yn lle gwerth teg ar gyfer yr asedau hynny sydd ag oes ddefnyddiol fyr neu werthoedd isel, fel y mae FreM yn caniatáu.

### Ailbrisio

Mae enillion sy'n codi ar ôl ailbrisio yn cael eu credydu i'r gronfa ailbrisio a'u dangos mewn gwariant cynhwysfawr arall, oni bai eu bod yn gwrthdroi gostyngiad drwy ailbrisio ar yr un ased. Mae gwrthdroadau'n cael eu credydu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i raddau'r swm blaenorol a wariwyd, a bydd unrhyw swm dros ben yn cael ei gredydu i'r gronfa ailbrisio.

Pan fydd gwerth cario'r ased yn gostwng o ganlyniad i ostyngiad parhaol yng ngwerth yr ased oherwydd defnydd clir o'r budd economaidd neu botensial gwasanaeth, codir y lleihad yn uniongyrchol ar wariant gweithredu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a bydd unrhyw weddill sy'n aros yn y gronfa ailbrisio yn cael ei ryddhau i'r Gronfa Gyffredinol.

Mae unrhyw ostyngiad ar ôl ailbrisio (heblaw o ganlyniad i leihad parhaol) yn cael ei wrthdroi yn erbyn unrhyw swm presennol sy'n cael ei ddal yn y gronfa ailbrisio mewn perthynas â'r un ased, a bydd unrhyw ostyngiad gweddillol yn cael ei godi ar wariant gweithredu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Bob blwyddyn bydd y gwahaniaeth rhwng dibrisiant wedi'i seilio ar yr ailbrisiad o swm cario'r ased a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a dibrisiant

wedi'i seilio ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol.

### Dibrisiant

Codir dibrisiant ar sail llinell syth ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo fel eu bod yn dileu gwerth asedau llai'r amcangyfrif o'u gwerth gweddillol dros yr oes ddefnyddiol sydd wedi'i hamcangyfrif. Mae oesoedd defnyddiol y categorïau o asedau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn. Os penderfynir newid oes yr ased, caiff yr ased ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill yr oes sydd wedi'i hasesu. Bydd dibrisiant yn dechrau yn y mis sy'n dilyn caffael ased nad yw'n gyfredol yn achos tir, adeiladau ac anheddau ac o fewn y mis yn achos pob math arall o asedau nad ydynt yn gyfredol.

Os yw eitem o eiddo a chyfarpar yn cynnwys dwy neu ragor o gydrannau arwyddocaol sydd ag oesoedd defnyddiol gwahanol iawn, yna bydd pob cydran yn cael ei thrin ar wahân at ddibenion dibrisiant ac yn cael ei dibrisio dros ei hoes ddefnyddiol benodol.

Mae'r amcangyfrifon o oesoedd defnyddiol asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Tir rhydd-ddaliadol** | Nid yw'n cael ei ddibrisio |
| **Tir lesddaliadol** | Gweddill cyfnod y les |
| **Adeiladau rhydd-ddaliadol (yn cynnwys anheddau)** | Y byrraf o weddill yr oes neu 60 mlynedd |
| **Adeiladau lesddaliadol (yn cynnwys anheddau)** | Y byrraf o weddill yr oes, gweddill cyfnod y les neu 60 mlynedd |
| **Technoleg gwybodaeth** | Y byrraf o weddill cyfnod y les neu 7 mlynedd |
| **Cyfarpar** | Y byrraf o weddill cyfnod y les neu 3 i 5 mlynedd |
| **Dodrefn a ffitiadau** | Y byrraf o weddill cyfnod y les neu 10 i 20 mlynedd |

### Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Assets under construction are valued at historical cost within property and equipment and intangible assets, and are not depreciated or amortised until completed. On completion, the asset's carrying value is transferred to the respective asset category.

Expenditure is capitalised where it is directly attributable to bringing an asset into working condition.

### Disposals

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu'n cael eu prisio ar gost hanesyddol o fewn eiddo a chyfarpar ac asedau anniriaethol, ac nid ydynt yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio nes eu bod wedi'u cwblhau. Ar ôl eu cwblhau, mae gwerth cario'r ased yn cael ei drosglwyddo i'r categori asedau priodol.

Pan fydd asedau a ailbrisiwyd yn cael eu gwerthu, mae'r symiau sydd wedi'u cynnwys yn y gronfa ailbrisio yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.8 Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cael eu cydnabod yn unol ag IAS 38 'Intangible Assets' fel y mae wedi'i addasu gan FReM.

Mae costau datblygu'n cael eu cydnabod yn asedau anniriaethol pan fyddant yn bodloni'r meini prawf yn FReM. Bydd mathau eraill o wariant nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn yn cael eu cydnabod yn draul wrth eu hysgwyddo. Ni fydd costau a oedd wedi'u cydnabod yn draul cynt yn cael eu cydnabod yn ased mewn cyfnod dilynol. Mae oes ddefnyddiol meddalwedd a ddatblygwyd yn fewnol yn amrywio o 3 i 10 mlynedd.

Mae trwyddedau meddalwedd a brynwyd yn cael eu cydnabod yn asedau pan yw'n debygol y bydd potensial gwasanaeth yn dod i GLlTEM yn y dyfodol ac y gellir mesur cost y drwydded yn ddibynadwy. Bydd trwyddedau o'r fath yn cael eu mesur ar sail cost ar y dechrau. Mae trwyddedau meddalwedd a brynwyd yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded.

Y trothwy cyfalafu ar gyfer prosiectau meddalwedd yw £1 miliwn (yn cynnwys TAW na ellir ei hadennill).

Lle mae cyllidebau cyfalaf yn cael eu dal yn ganolog gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder fel rhiant-adran, caiff gwariant ei gyfalafu'n gyntaf yng nghyfrifon y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'i drosglwyddo i GLlTEM pan fydd y prosiect cysylltiedig wedi'i gwblhau.

Ar ôl eu cydnabod yn gyntaf, mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur ar eu gwerth teg. Gan nad oes marchnad weithredol i asedau anniriaethol GLlTEM, caiff y gwerth teg ei asesu drwy gymryd y gost amnewid a didynnu unrhyw golledion a gronnwyd oherwydd amorteiddio a lleihad mewn gwerth (h.y. cost amnewid ddibrisiedig).

Ar ôl eu cydnabod yn gyntaf, mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur ar eu gwerth teg. Gan nad oes marchnad weithredol i asedau anniriaethol GLlTEM, caiff y gwerth teg ei asesu drwy gymryd y gost amnewid a didynnu unrhyw golledion a gronnwyd oherwydd amorteiddio a lleihad mewn gwerth (h.y. cost amnewid ddibrisiedig).

## 1.9 Lleihad mewn gwerth

Mae lleihad mewn gwerth yn cael ei gydnabod yn unol ag IAS 36 'Impairment of Assets' fel y mae wedi'i addasu gan FReM.

Mae lleihad mewn gwerth yn adlewyrchu gostyngiad yng ngwerth yr ased o ganlyniad i ddefnydd clir o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth. Ar bob dyddiad adrodd, bydd GLlTEM yn asesu'r holl asedau am arwyddion o leihad mewn gwerth. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, gwneir prawf am leihad mewn gwerth ar yr

asedau dan sylw drwy gymharu gwerth cario'r asedau hynny â'r symiau y gellir eu hadennill amdanynt. Os bydd y swm y gellir ei adennill am ased yn llai na'i werth cario, bydd swm cario'r ased yn cael ei ostwng i'r swm y gellir ei adennill amdano.

Y swm y gellir ei adennill am ased yw'r uchaf o'i 'werth teg llai costau i'w werthu' neu ei 'werth mewn defnydd' (wedi'i ddiffinio o dan 'Dull Prisio'). Mae unrhyw golled oherwydd lleihad mewn gwerth yn cael ei chodi'n uniongyrchol ar wariant gweithredu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Os yw'r ased wedi'i ailbrisio o'r blaen, bydd unrhyw weddill yn y gronfa ailbrisio (hyd at lefel y golled oherwydd lleihad mewn gwerth) yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Ar bob dyddiad adrodd bydd GLlTEM hefyd yn adolygu colledion oherwydd lleihad mewn gwerth a oedd wedi'u cydnabod mewn blynyddoedd blaenorol. Bydd unrhyw wrthdroi ar golled oherwydd lleihad mewn gwerth wedyn yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau roedd y taliad gwreiddiol, ar ôl ei addasu am ddibrisiant dilynol, wedi'i gydnabod o'r blaen, a bydd unrhyw swm sy'n weddill yn cael ei gydnabod yn y gronfa ailbrisio.

## 1.10 Asedau wedi'u dal i'w gwerthu

Mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael eu dynodi'n asedau wedi'u dal i'w gwerthu yn unol ag IFRS 5 'Non-current Assets Held for Sale and Discontinued Operations' fel y mae wedi'i ddehongli gan FReM.

Bydd asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael eu dynodi'n asedau wedi'u dal i'w gwerthu pan fo bwriad i adennill eu gwerth cario yn bennaf drwy drafodiad gwerthu a'r gwerthiant yn cael ei ystyried yn debygol iawn.

Mae asedau wedi'u dal i'w gwerthu yn cael eu datgan ar eu gwerth cario yn union cyn eu dynodi'n asedau 'wedi'u dal i'w gwerthu' neu eu gwerth teg llai costau gwerthu'r ased, pa un bynnag yw'r isaf. Bydd unrhyw leihad neu wrthdroi ar leihad mewn gwerth a geir wedyn yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nid yw asedau a ddynodwyd yn rhai wedi'u dal i'w gwerthu yn cael eu dibrisio.

## 1.11 Lesoedd

### Lesoedd cyllid

Mae lesoedd ar asedau lle mae GLlTEM yn cadw'r holl risgiau a gwobrwyon sylweddol o berchenogaeth yn cael eu dynodi'n lesoedd cyllid. Ar ddechrau cyfnod y les, caiff lesoedd cyllid eu cyfalafu ar werth teg yr ased a lesiwyd neu werth presennol y taliadau les lleiaf, pa un bynnag yw'r isaf.

Caiff pob taliad les ei ddyrannu rhwng y taliadau am rwymedigaethau a thaliadau cyllid. Mae'r ymrwymiadau rhent cyfatebol hyn, heb gynnwys taliadau cyllid, yn cael eu cynnwys o fewn symiau taladwy tymor byr neu dymor hir, yn ôl y dyddiadau y mae GLlTEM yn gorfod gwneud taliadau rhent o dan y contract. Mae elfen llog y

gost cyllid yn cael ei chodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr dros gyfnod y les er mwyn cynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar weddill y rhwymedigaeth sy'n aros am bob cyfnod. Mae'r asedau a gaffaelir o dan lesoedd cyllid yn cael eu dibrisio dros oes ddefnyddiol yr ased neu gyfnod y les, pa un bynnag yw'r byrraf.

### Lesoedd gweithredu

Mae lesoedd heblaw lesoedd cyllid yn cael eu dynodi'n lesoedd gweithredu. Mae unrhyw daliadau a wneir o dan lesoedd gweithredu (heb gynnwys unrhyw gymelldaliadau a gafwyd gan y lesydd) yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Bydd unrhyw daliadau ymlaen llaw sydd heb eu rhyddhau eto i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cael eu cydnabod yn rhagdaliadau les yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 1.12 Trefniadau consesiwn gwasanaeth

Trefniadau consesiwn gwasanaeth, yn cynnwys trefniadau Menter Cyllid Preifat (PFI), yw trefniadau lle mae gweithredwyr yn y sector preifat o dan rwymedigaeth gontractiol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd mewn perthynas ag asedau seilwaith penodol. Bydd GLlTEM yn diffinio trefniadau o'r fath yn drefniadau consesiwn gwasanaeth os ydynt yn bodloni'r amodau yn FReM ac IFRIC 12 'Service Concession Arrangements'.

Mae'r ffrydiau taliadau ar gyfer trefniadau consesiwn gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu hasesu er mwyn gwahaniaethu rhwng cydrannau'r budd seilwaith a'r gwasanaeth.

Bydd GLlTEM yn cydnabod yr ased seilwaith ar ei werth teg (neu werth presennol y taliadau seilwaith lleiaf yn y dyfodol, os yw'n is) yn ased nad yw'n gyfredol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gyda rhwymedigaeth gyfatebol am daliadau yn y dyfodol o dan y cytundeb.

Mae elfen llog y cytundeb yn cael ei chodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr dros gyfnod y contract er mwyn cynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar weddill y rhwymedigaeth sy'n aros ar gyfer pob cyfnod. Codir elfen gwasanaeth y cytundeb ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'r gweithredwr yn rhoi'r gwasanaethau.

## 1.13 Asedau trydydd parti

Mae GLlTEM yn dal nifer o wahanol weddillau arian parod ar ran trydydd partïon. Nid yw'r rhain wedi'u cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn unol â'r gofynion yn FReM a datgelir y gweddillau hyn yn nodyn 24 i'r cyfrifon.

Nid yw'r gweddillau hyn yn cynnwys symiau sydd wedi'u dal ar ôl casglu dirwyon a chosbau ar ran cyrff eraill; adroddir ar y symiau hyn mewn Datganiad Ymddiriedaeth ar wahân (gweler nodyn 1.4).

## 1.14 Treth ar Werth (TAW)

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau GLlTEM y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth wrth werthu yn gymwys ac ni ellir adennill treth wrth brynu. Mae TAW na ellir ei hadennill yn cael ei chodi ar y categori gwariant perthnasol neu ei chynnwys yng nghost prynu cyfalaf eiddo a chyfarpar ac asedau anniriaethol. Lle codir treth wrth werthu neu lle gellir adennill treth wrth brynu, mae'r symiau wedi'u datgan heb gynnwys TAW.

## 1.15Darpariaethau a rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae darpariaethau wedi'u cydnabod yn unol ag IAS 37 'Provisions, contingent liabilities and contingent assets'.

Darpariaethau yw rhwymedigaethau y mae ansicrwydd ynghylch eu swm neu eu hamseriad a byddant yn cael eu cydnabod pan fydd:

- rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol ar GLlTEM o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol
- angen tebygol am all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth, ac
- y gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

Caiff darpariaethau eu mesur yn ôl gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Os yw'r effaith yn sylweddol, bydd y llifau o arian parod a amcangyfrifwyd yn cael eu disgowntio. Bydd y cynnydd yn y ddarpariaeth o ganlyniad i dreigl amser yn cael ei gydnabod fel traul llog.

Caiff rhwymedigaeth ddigwyddiadol ei datgelu pan yw'n llai na thebygol y bydd all-lif o adnoddau, ond bod y posibilrwydd o hynny'n fwy nag un bach iawn. Os yw gwerth amser yr arian yn berthnasol, mae rhwymedigaethau digwyddiadol sydd i'w datgelu o dan IAS 37 yn cael eu datgan ar ffurf symiau wedi'u disgowntio.

## 1.16 Y Gronfa Gyffredinol

Mae cyllid a geir oddi wrth y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol o fewn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar ôl derbyn y cyllid.

## 1.17 Buddion cyflogeion

Mae buddion tymor byr fel taliadau a chyflogau neu fuddion ar ôl cyflogaeth sy'n ganlyniad i gyflogaeth a buddion tymor hir fel dyfarndaliadau am wasanaeth hir, gan gynnwys buddion terfynu cyflogaeth (er enghraifft, costau ymadael yn gynnar) a buddion pensiwn yn cael eu cydnabod ar y gost o ddarparu'r budd yn y cyfnod y mae'r cyflogai'n ei ennill, yn hytrach na phan gaiff ei dalu neu pan ddaw'n daladwy.

O dan IAS 19 ('Employee Benefits') mae'n ofynnol i GLlTEM gydnabod cost ddisgwyliedig hawl ei gyflogeion i wyliau blynyddol sydd wedi'i chronni ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

## 1.18 Pensiynau

Mae'r rhan fwyaf o'r cyflogeion presennol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Nid yw'r cynlluniau â buddion wedi'u diffinio yn cael eu hariannu ac maent yn anghyfrannol heblaw mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae'r Asiantaeth yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaethau'r cyflogeion drwy dalu symiau i PCSPS sy'n cael eu cyfrifo ar sail gronnus. Mae'r rhwymedigaeth am dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei chodi ar PCSPS. Mewn perthynas â'r cynlluniau â buddion wedi'u diffinio, mae'r Asiantaeth yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

Mae aelodau o'r farnwriaeth yn dod o dan y Cynllun Pensiwn Barnwrol (JPS). Mae rhagor o fanylion am y cynllun hwn yn nodyn 3.

## 1.19 Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu critigol

Mae GLlTEM yn gwneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau ynghylch y dyfodol. Drwy ddiffiniad, anaml y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu a geir o ganlyniad yn cyfateb i'r gwir ganlyniadau. Mae'r amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy' peri risg arwyddocaol o achosi addasiad sylweddol i werthoedd cario asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu trafod isod.

Mae amcangyfrifon a dyfarniadau'n cael eu gwerthuso'n barhaus ac wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau am ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

### Prisio eiddo a chyfarpar

Mae'r rhan fwyaf o'r tir ac adeiladau (yn cynnwys anheddau) yn gyfleusterau llys. Dangosir tir ac adeiladau ar eu gwerth teg, ar sail prisiadau proffesiynol. Bydd gwerth tir ac adeiladau'n amrywio yn ôl newidiadau mewn costau adeiladu ac amodau cyfredol y farchnad.

### Prisio adeiladau llys sydd wedi'u clustnodi i'w cau

O dan yr adolygiad cyfredol i resymoli'r ystad, mae Gweinidogion wedi clustnodi nifer o adeiladau llys sy'n cael eu tanddefnyddio ar gyfer eu cau dros y blynyddoedd nesaf. O ganlyniad i hyn mae gweddill oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr asedau hynny yn llai.

Ar hyn o bryd mae'r adeiladau llys hyn yn cael eu hystyried yn asedau arbenigol ac yn cael eu prisio ar gost amnewid ddibrisiedig (DRC). Mae'r gostyngiad yng ngweddill oes ddefnyddiol yr asedau hyn yn dangos lleihad mewn gwerth. Codir yr holl wariant ar leihad mewn gwerth ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a chymerir y gweddill mewn unrhyw gronfa ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol. Bydd y dull prisio yn cael ei newid o DRC i'r dull prisio priodol pan gaiff yr ased ei drosglwyddo i'w ddal ar gyfer ei werthu neu pan ddaw'n ased dros ben.

## 2 Datganiad o gostau gweithredu ar sail segmentau gweithredu

I ddibenion adrodd ariannol, mae'r fformat adrodd ar segmentau yn cael ei bennu yn ôl y ffordd y mae'r prif benderfynwr gweithredu yn monitro canlyniadau gweithredu'r segmentau er mwyn gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau. Mae'r fformat adrodd wedi'i ddiwygio ar gyfer 2015–16 er mwyn cynnwys y segmentau gweithredu adroddadwy canlynol:

- Busnes fel arfer
- Newid a Diwygio

Mae alldro 2014–15 wedi'i ailddatgan yn y fformat diwygiedig er mwyn cymharu.

Mae gwariant gweithredu net y segment ar gyfer y flwyddyn yn cael ei fesur ar yr un sail â'r symiau cyfatebol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol.

Mae gwariant Newid a Diwygio yn ymwneud â'r holl brosiectau newid yn GLlTEM. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau newid y rhaglenni Diwygio, Llwyfan Cyffredin ac Effeithlonrwydd y System Cyfiawnder Troseddol yn ogystal â phrosiectau eraill sydd eu hangen er mwyn cyflwyno systemau newydd o ganlyniad i newidiadau mewn deddfwriaeth.

### 2.1 Canlyniadau'r segmentau

Mae disgrifiad o'r gwasanaethau y mae'r segmentau adroddadwy yn cael incwm ohonynt yn nodyn 8. Nid oedd trafodion rhwng segmentau o fewn y flwyddyn (2014–15: dim).

Mae'r tabl isod yn dangos y gwariant net am y flwyddyn ar sail segmentau gweithredu adroddadwy ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016:

| | | 2015–16 | | | 2014–15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Busnes fel arfer | Newid a Diwygio | Cyfanswm | Busnes fel arfer | Newid a Diwygio | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm gweithredu | (741,224) | - | **(741,224)** | (654,169) | - | **(654,169)** |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | **(741,224)** | **-** | **(741,224)** | **(654,169)** | **-** | **(654,169)** |
| Costau staff | 489,398 | 11,894 | **501,292** | 503,447 | 6,016 | **509,463** |
| Costau'r farnwriaeth | 462,815 | 31 | **462,846** | 448,758 | 500 | **449,258** |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 561,609 | 28,369 | **589,978** | 599,836 | 13,434 | **613,270** |
| Taliadau am ddibrisiant a lleihad mewn gwerth | 212,341 | 1 | **212,342** | 39,227 | 1 | **39,228** |
| Gwariant arall nad yw'n arian parod | 126,884 | - | **126,884** | 113,272 | - | **113,272** |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | **1,853,047** | **40,295** | **1,893,342** | **1,704,540** | **19,951** | **1,724,491** |
| **Gwariant gweithredu net** | **1,111,823** | **40,295** | **1,152,118** | **1,050,371** | **19,951** | **1,070,322** |
| Costau cyllid | 26,410 | - | **26,410** | 25,105 | - | **25,105** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | **1,138,233** | **40,295** | **1,178,528** | **1,075,476** | **19,951** | **1,095,427** |

## 3 Costau a niferoedd y staff a'r farnwriaeth

Mae costau staff yn cynnwys::

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflogau | 369,472 | 384,803 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 23,042 | 24,304 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 72,130 | 66,139 |
| Costau staff asiantaeth | 34,878 | 26,352 |
| Ymadael cynnar gwirfoddol | 1,699 | 8,240 |
| | **501,221** | **509,838** |
| Ychwanegu: secondiadau i mewn | 561 | 111 |
| | **501,782** | **509,949** |
| Llai: adennill mewn perthynas â secondiadau allan | (490) | (486) |
| **Cyfanswm y costau staff** | **501,292** | **509,463** |

Mae rhagor o wybodaeth am gostau a niferoedd staff yn yr adran ar Ein staff yn yr adroddiad blynyddol ar dudalen 43.

### Costau a niferoedd y farnwriaeth

Mae aelodau'r farnwriaeth yn annibynnol ar GLlTEM. Telir eu costau cyflogres un ai o'r Gronfa Gyfunol yn achos yr uwch farnwriaeth, neu'n uniongyrchol gan GLlTEM ar gyfer aelodau eraill o'r farnwriaeth. Mae'r holl gostau wedi'u cynnwys yng Nghyfrifon GLlTEM er mwyn sicrhau bod holl gostau'r gweithrediadau wedi'u datgelu. Bydd uwch farnwyr hefyd yn cael taliadau gwasanaeth hir o dan gytundeb â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae darpariaeth ar gyfer y taliadau hyn yng nghyfrifon y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

| | 2015–16 | | | | 2014–15 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Uwch aelodau'r farnwriaeth | Aelodau eraill y farnwriaeth | Ffi a dalwyd | Cyfanswm | Uwch aelodau'r farnwriaeth | Aelodau eraill y farnwriaeth | Ffi a dalwyd | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau | 126,421 | 99,206 | **102,357** | **327,984** | 125,272 | 105,391 | **106,855** | **337,518** |
| Costau nawdd cymdeithasol | 15,594 | 11,775 | **9,701** | **37,070** | 15,456 | 12,112 | **11,023** | **38,591** |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr | 48,588 | 38,000 | **11,204** | **97,792** | 40,143 | 33,006 | **-** | **73,149** |
| **Cyfanswm costau cyflogres y farnwriaeth** | **190,603** | **148,981** | **123,262** | **462,846** | **180,871** | **150,509** | **117,878** | **449,258** |

### Nifer cyfartalog y farnwriaeth

Mae'r symiau uchod yn cynnwys costau cyflog ar gyfer nifer cyfartalog o 900 (2014–15: 950) o swyddogion barnwrol a ffioedd ar gyfer 936 o aelodau cyfwerth ag amser llawn o'r farnwriaeth a delir drwy ffioedd (2014–15: 952). Roedd costau cyflog 913 o aelodau pellach (2014–15: 910 o aelodau) o'r uwch farnwriaeth wedi'u talu o'r Gronfa Gyfunol.

### Cynllun Pensiwn Barnwrol

Mae'r Cynllun Pensiwn Barnwrol yn gynllun buddion wedi'u diffinio ar gyfer nifer o gyflogwyr nad yw'n cael ei ariannu sy'n paratoi ei Gyfrifon ei hun, ond nid yw GLlTEM yn gallu pennu ei gyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol ar ei gyfer. Cwblhawyd prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 2012. Mae manylion ar gael yng Nghyfrifon Adnoddau'r Cynllun Pensiwn Barnwrol yn www.official-documents.co.uk.

Telir pensiynau barnwrol o'r Gronfa Gyfunol os oedd cyflog y deiliad swydd farnwrol yn cael ei dalu o'r gronfa honno neu gan y Cynllun Pensiwn Barnwrol os oedd y cyflog wedi'i dalu o amcangyfrif cyflenwi'r adran. Gwnaed cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Barnwrol ar gyfradd o 38.45% (2014–15: 32.15%). Mae swm y cyfraniadau hyn wedi'i gynnwys yn y tabl yn nodyn 3.2 uchod.

Mae'r buddion sy'n daladwy yn cael eu rheoli gan y darpariaethau yn un ai Deddf Pensiynau Barnwrol 1981 ar gyfer y rheini a benodwyd i swyddi barnwrol cyn 31 Mawrth 1995, neu yn Neddf Pensiynau ac Ymddeoliad Barnwyr 1993 ar gyfer y rheini sydd newydd eu penodi neu wedi'u penodi i swydd farnwrol wahanol ar y dyddiad hwnnw neu wedyn.

Er bod y Cynllun Pensiwn Barnwrol yn gynllun buddion wedi'u diffinio, yn unol â FReM 6.2 mae GLlTEM yn rhoi cyfrif am y cynllun fel cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio ac yn cydnabod cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy fel traul yn y flwyddyn y maent yn cael eu hysgwyddo.

Darperir hawliau pensiwn i farnwyr cyflogedig o dan y Cynllun Pensiwn Barnwrol. Ym Medi 2005, roedd deiliad swydd farnwrol wedi ymddeol a dalwyd drwy ffioedd wedi dod â hawliad i'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn ceisio triniaeth ôl-weithredol gyfartal â deiliaid swyddi barnwrol cyflogedig drwy hawlio hawliau pensiwn o dan Reoliadau Gweithwyr Rhan-amser.

Mewn gwrandawiad yng Ngoruchaf Lys y DU ar 6 Chwefror 2013 dyfarnwyd bod hawl gan ddeiliad swydd farnwrol wedi ymddeol a dalwyd drwy ffioedd i gael pensiwn ar delerau sy'n cyfateb i'r rheini ar gyfer deiliad swydd farnwrol cyflogedig. Roedd yr achos arweiniol hwn wedi gosod y cynsail ar gyfer achosion eraill a oedd wedi'u gohirio. Yn yr un modd â chyfrifyddu ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol cyflogedig, ac yn unol â FReM 6.2, mae GLlTEM yn rhoi cyfrif am gyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Barnwrol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol a dalwyd drwy ffioedd sy'n gymwys wrth iddynt gael eu hysgwyddo, ond nid yw'n cydnabod rhwymedigaeth mewn perthynas ag ôl-daliadau neu'r

rhwymedigaeth pensiwn sy'n codi'n unol â'r hawliad. Felly, mae darpariaeth ar gyfer yr hawl pensiwn i rai a dalwyd drwy ffioedd yn cael ei chydnabod yng Nghyfrifon y Cynllun Pensiwn Barnwrol.

Mae darpariaethau wedi'u cydnabod yng nghyfrifon y Weinyddiaeth Cyfiawnder am y rhwymedigaeth i ddeiliaid swyddi barnwrol a dalwyd drwy ffioedd mewn perthynas â'r Dyfarndaliad Gwasanaeth Barnwrol, a'r elfen ar wahân yn y rhwymedigaeth bensiwn sy'n ymwneud â barnwyr a dalwyd drwy ffioedd, gan nad yw'r naill na'r llall o'r rhain yn rhwymedigaeth o dan y Cynllun Pensiwn Barnwrol a'r Deddfau sy'n ei reoli.

## 4 Prynu nwyddau a gwasanaethau

| | **2015–16** | **Wedi'i ailddatgan 2014–15** |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taliadau am lesoedd / consesiynau gwasanaeth eraill: | | |
| Rhent o dan lesoedd gweithredu | 78,712 | 81,793 |
| Taliadau gwasanaeth PFI | 24,338 | 25,387 |
| Taliadau eraill am gonsesiynau gwasanaeth | 9,063 | 12,451 |
| Gwasanaethau eraill: | | |
| Swyddfeydd, gwaith cynnal a chyfleustodau | 226,052 | 247,185 |
| Gwasanaethau TG | 111,426 | 106,842 |
| Costau rheithwyr | 42,318 | 41,947 |
| Cyfathrebu, cyflenwadau a gwasanaethau swyddfa | 25,214 | 27,158 |
| Costau gwasanaethau o dan gontract | 13,715 | 9,408 |
| Costau ymgynghorwyr | 8,813 | 6,621 |
| Costau staff heblaw cyflogau | 9,727 | 10,471 |
| Costau barnwrol heblaw cyflogau | 32,217 | 34,334 |
| Taliadau banc | 4,966 | 4,452 |
| Costau eraill | 3,398 | 5,206 |
| Grantiau eraill | 19 | 15 |
| **Cyfanswm am brynu nwyddau a gwasanaethau** | **589,978** | **613,270** |

Mae costau gwasanaethau o dan gontract y flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan gan eu gostwng o £54.6 miliwn i £9.4 miliwn drwy ailddosbarthu incwm o £45.2 miliwn a adenillwyd o ffioedd beilïaid i'w osod yn erbyn gwariant ar ffioedd beilïaid. Mae'r ailddosbarthiad hwn wedi'i wneud er mwyn adlewyrchu natur y trafodion yn well. Yr effaith ar y gwariant gweithredu net yw dim.

## 5 Taliadau am ddibrisiant a lleihad mewn gwerth

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dibrisiant eiddo a chyfarpar | 116,230 | 111,304 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 8,317 | 17,168 |
| Lleihad yng ngwerth (gwrthdroi) eiddo a chyfarpar | 87,353 | (87,473) |
| Lleihad yng ngwerth (gwrthdroi) asedau anniriaethol | 34 | (106) |
| Lleihad yng ngwerth (gwrthdroi) asedau a ddaliwyd i'w gwerthu | 453 | (3,919) |
| Cynnydd (gostyngiad) yn y lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy | (45) | 2,254 |
| **Cyfanswm y taliadau am ddibrisiant a lleihad mewn gwerth** | **212,342** | **39,228** |

## 6 Gwariant arall nad yw'n arian parod

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ailgodi taliadau o fewn yr adran | 106,935 | 101,961 |
| Cynnydd (gostyngiad) mewn darpariaethau | 13,391 | 4,983 |
| Grantiau cyfalaf | - | 615 |
| Rhoi taliadau am lesoedd gweithredu ar sail llinell syth | 5,715 | 7,250 |
| Amorteiddio rhagdaliadau am lesoedd gweithredu | - | 5 |
| Ennill (colled) net ar waredu eiddo a chyfarpar | 543 | (1,862) |
| Tâl yr archwilwyr allanol | 300 | 320 |
| **Cyfanswm gwariant arall nad yw'n arian parod** | **126,884** | **113,272** |

### Ailgodi taliadau o fewn yr adran

Mae'r taliadau a ailgodir o fewn yr adran yn rhai am gostau gwasanaethau a rennir â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n cynnwys adnoddau dynol, gwasanaethau cyfreithiol a barnwrol a chyllid a gweinyddu.

### Tâl yr archwilwyr allanol

Mae costau'r archwiliad a gyflawnwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn cael eu cydnabod fel tâl nad yw'n arian parod. Yn ystod y flwyddyn nid oedd GLlTEM wedi prynu unrhyw wasanaethau heblaw gwasanaethau archwilio. Y gost yw £200,000 (2014–15: £220,000) am archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon GLlTEM a £100,000 (2014–15: £100,000) am archwilio Datganiad Ymddiriedaeth GLlTEM.

## 7 Costau cyllid

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Tâl cyllid ar ddiffyg trosglwyddo pensiwn sy'n daladwy | 13,453 | 10,661 |
| Llog ar rwymedigaeth cynllun pensiwn drwy gydweddiad | 174 | 196 |
| Dad-ddirwyn disgownt ar ddarpariaethau | 3,774 | 4,537 |
| **Cyfanswm costau cyllid nad ydynt yn arian parod** | **17,401** | **15,394** |
| | | |
| Llog ar fenthyciadau awdurdodau lleol | 1,287 | 1,462 |
| Taliadau cyllid ar PFI ac asedau ar les | 7,722 | 8,249 |
| **Cyfanswm y costau cyllid sy'n arian parod** | **9,009** | **9,711** |
| **Cyfanswm y costau cyllid** | **26,410** | **25,105** |

## 8 Incwm gweithredu

| | 2015–16 | Wedi'i ailddatgan 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm o ffioedd | 673,039 | 585,731 |
| Symiau wedi'u hadennill oddi wrth gyrff llywodraeth eraill | 61,278 | 62,799 |
| Incwm amrywiol | 6,907 | 5,639 |
| Cyfanswm yr incwm gweithredu | 741,224 | 654,169 |

Mae incwm y flwyddyn flaenorol wedi'i ailddatgan drwy ailddosbarthu incwm o £45.2 miliwn a adenillwyd o ffioedd beilïaid i gostau gwasanaethau ar gontract (nodyn 4). Mae'r ailddosbarthiad hwn wedi'i wneud er mwyn adlewyrchu natur y trafodion yn well. Yr effaith ar y gwariant gweithredu net yw dim.

Incwm o ffioedd
Mae gwybodaeth am incwm o ffioedd yn yr adroddiad atebolrwydd Seneddol ar dudalen <?>.

## 8.1 Incwm y Gronfa Gyfunol

Nid yw cyfanswm yr incwm yn cynnwys symiau a gasglwyd gan GLlTEM lle'r oedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach nag fel penadur. Mae holl fanylion yr incwm a gasglwyd fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn Natganiad Ymddiriedaeth GLlTEM sydd wedi'i gyhoeddi ar wahân i'r datganiadau ariannol hyn.

## 9 Eiddo a chyfarpar

| | Tir heb gynnwys anheddau £000 | Adeiladau heb gynnwys anheddau £000 | Tir ar gyfer anheddau £000 | Anheddau £000 | Technoleg gwybodaeth £000 | Cyfarpar £000 | Dodrefn, gosodion a ffitiadau £000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **529,280** | **2,539,236** | **9,311** | **13,126** | **28,669** | **64,562** | **32,832** | **36,364** | **3,253,380** |
| Ychwanegiadau | - | 2,419 | - | - | 20 | 4,898 | - | 28,709 | 36,046 |
| Gwarediadau | - | (1,627) | - | - | (718) | (1,728) | (93) | (34) | (4,200) |
| Ailddosbarthu | 495 | 30,252 | - | 257 | 197 | 313 | - | (31,513) | 1 |
| Ailbrisio | 42,810 | 163,781 | 173 | (2,824) | 597 | 243 | 16 | - | 204,796 |
| Lleihad mewn gwerth | 4,100 | (161,883) | - | - | - | - | - | - | (157,783) |
| Ailddosbarthu i asedau wedi'u dal i'w gwerthu | (1,507) | (772) | (2,100) | (1,452) | - | - | - | - | (5,831) |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | - | 25 | - | - | 19,603 | 3,570 | - | 121 | 23,319 |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **575,178** | **2,571,431** | **7,384** | **9,107** | **48,368** | **71,858** | **32,755** | **33,647** | **3,349,728** |
| | | | | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **-** | **1** | **-** | **-** | **(12,019)** | **(50,732)** | **(26,565)** | **-** | **(89,315)** |
| Codwyd o fewn y flwyddyn | (518) | (99,980) | (15) | (334) | (6,369) | (6,416) | (2,598) | - | (116,230) |
| Gwarediadau | - | 132 | - | - | 562 | 1,608 | 76 | - | 2,378 |
| Ailddosbarthu | (20) | 20 | - | - | - | - | - | - | - |
| Ailbrisio | 480 | 92,496 | 15 | 334 | (182) | (179) | (28) | - | 92,936 |
| Lleihad mewn gwerth | 58 | 7,331 | - | - | - | - | - | - | 7,389 |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(18,008)** | **(55,719)** | **(29,115)** | **-** | **(102,842)** |
| | | | | | | | | | |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2016** | **575,178** | **2,571,431** | **7,384** | **9,107** | **30,360** | **16,139** | **3,640** | **33,647** | **3,246,886** |
| | | | | | | | | | |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2015** | **529,280** | **2,539,237** | **9,311** | **13,126** | **16,650** | **13,830** | **6,267** | **36,364** | **3,164,065** |
| | | | | | | | | | |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | | | | |
| Mewn perchenogaeth | 504,969 | 2,097,069 | 4,940 | 7,577 | 30,360 | 16,139 | 3,640 | 33,647 | 2,698,341 |
| Ar les cyllid | 53,059 | 293,654 | 2,444 | 1,530 | - | - | - | - | 350,687 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 17,150 | 180,708 | - | - | - | - | - | - | 197,858 |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2016** | **575,178** | **2,571,431** | **7,384** | **9,107** | **30,360** | **16,139** | **3,640** | **33,647** | **3,246,886** |

O dan yr arolwg cyfredol ar gyfer rhesymoli llysoedd, roedd Gweinidogion wedi clustnodi cyfanswm o 86 o adeiladau llys sy'n cael eu tanddefnyddio ar gyfer eu cau (nid yw'r un o'r rhain wedi'i ddynodi'n ased i'w ddal ar gyfer ei werthu ar 31 Mawrth 2016) dros y ddwy flynedd nesaf. Gan nad oes disgwyl bellach i'r llysoedd hyn fod yn rhan o ystad weithredol GLlTEM yn y dyfodol, mae eu prisiadau wedi'u lleihau i adlewyrchu'r gostyngiad yng ngweddill eu hoes ddefnyddiol. Gan fod y newid hwn yn oes yr asedau'n dangos gostyngiad parhaol mewn gwerth, mae unrhyw leihad mewn gwerth wedi'i gymryd yn uniongyrchol i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a'r gweddill o unrhyw Gronfa Ailbrisio wedi'i gymryd i'r Gronfa Gyffredinol.

Cyfanswm y lleihad mewn gwerth o ganlyniad i gau llysoedd ar gyfer 2015–16 oedd £150.4 miliwn (2014–15: £dim).

| | Tir heb gynnwys anheddau £000 | Adeiladau heb gynnwys anheddau £000 | Tir ar gyfer anheddau £000 | Anheddau £000 | Technoleg gwybodaeth £000 | Cyfarpar £000 | Dodrefn, gosodion a ffitiadau £000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **481,453** | **2,356,577** | **8,762** | **12,653** | **30,667** | **63,278** | **33,123** | **49,426** | **3,035,939** |
| Ychwanegiadau | - | 5,934 | - | 4 | (3) | 995 | 89 | 37,234 | 44,253 |
| Gwarediadau | (70) | (88) | - | (12) | (1,564) | (1,512) | (380) | (223) | (3,849) |
| Ailddosbarthu | 68 | 49,531 | - | 104 | (727) | 533 | - | (50,075) | (566) |
| Ailbrisio | 48,479 | 127,855 | 549 | 377 | 296 | 102 | - | - | 177,658 |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Ailddosbarthu i asedau wedi'u dal i'w gwerthu | (650) | (573) | - | - | - | - | - | - | (1,223) |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | - | - | - | - | - | 1,166 | - | 2 | 1,168 |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **529,280** | **2,539,236** | **9,311** | **13,126** | **28,669** | **64,562** | **32,832** | **36,364** | **3,253,380** |
| | | | | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(7,865)** | **(45,300)** | **(23,783)** | **-** | **(76,948)** |
| Codwyd o fewn y flwyddyn | (564) | (95,523) | (13) | (698) | (4,677) | (6,748) | (3,081) | - | (111,304) |
| Gwarediadau | - | 8 | - | - | 600 | 1,382 | 299 | - | 2,289 |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Ailbrisio | 564 | 95,516 | 13 | 698 | (77) | (66) | - | - | 96,648 |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **-** | **1** | **-** | **-** | **(12,019)** | **(50,732)** | **(26,565)** | **-** | **(89,315)** |
| | | | | | | | | | |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2015** | **529,280** | **2,539,237** | **9,311** | **13,126** | **16,650** | **13,830** | **6,267** | **36,364** | **3,164,065** |
| | | | | | | | | | |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2014** | **481,453** | **2,356,577** | **8,762** | **12,653** | **22,802** | **17,978** | **9,340** | **49,426** | **2,958,991** |
| | | | | | | | | | |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | | | | |
| Mewn perchenogaeth | 462,682 | 2,066,356 | 6,976 | 10,458 | 16,650 | 13,830 | 6,267 | 36,364 | 2,619,583 |
| Ar les cyllid | 50,363 | 297,908 | 2,335 | 2,668 | - | - | - | - | 353,274 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 16,235 | 174,973 | - | - | - | - | - | - | 191,208 |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2015** | **529,280** | **2,539,237** | **9,311** | **13,126** | **16,650** | **13,830** | **6,267** | **36,364** | **3,164,065** |

## 10 Asedau wedi'u dal i'w gwerthu

| | Nodiadau | 2015–16<br>£000 | 2014–15<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2015** | | **9,673** | **17,854** |
| Asedau wedi'u hailddosbarthu i'w dal i'w gwerthu o Eiddo a chyfarpar | 9 | 5,831 | 1,223 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yng ngwerth teg asedau wedi'u dal i'w gwerthu | 5 | (453) | 3,919 |
| Gwarediadau | | (6,334) | (13,323) |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | | **8,717** | **9,673** |

O dan yr adolygiad cyfredol ar gyfer rhesymoli llysoedd, mae GLlTEM wedi ymrwymo i gynllun ar gyfer gwerthu nifer o safleoedd dros ben (tir ac adeiladau) a oedd wedi'u defnyddio cynt i ddarparu gwasanaethau llys. Rhoddwyd rhaglen ar waith i ddod o hyd i brynwyr a chwblhau gwerthiant pob safle ac mae asiantau tai yn marchnata'r safleoedd. Mae'r safleoedd ar gael i'w gwerthu yn eu cyflwr presennol ac mae'n debygol iawn y byddant yn cael eu gwerthu o fewn un flwyddyn o ddyddiad eu dynodi'n asedau wedi'u dal i'w gwerthu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Mae elw net ar waredu asedau a ddaliwyd i'w gwerthu o £1.2 miliwn (2014–15: £3.3 miliwn) wedi'i gynnwys yn y golled net gyffredinol ar waredu eiddo ac offer o fewn gwariant arall nad yw'n arian parod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 11 Asedau anniriaethol

| | Technoleg gwybodaeth | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cost neu brisiad | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **132,458** | **4** | **132,462** |
| Ychwanegiadau | 1,165 | 7,677 | 8,842 |
| Gwarediadau | - | (65) | (65) |
| Ailbrisio | 2,042 | - | 2,042 |
| Lleihad mewn gwerth | - | (149) | (149) |
| Ailddosbarthu | 1,803 | (1,804) | (1) |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | 3,671 | 6,484 | 10,155 |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **141,139** | **12,147** | **153,286** |
| | | | |
| Amorteiddio | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **(88,692)** | **-** | **(88,692)** |
| Codwyd o fewn y flwyddyn | (8,317) | - | (8,317) |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ailbrisio | (1,214) | - | (1,214) |
| Ailddosbarthu | - | - | - |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **(98,223)** | **-** | **(98,223)** |
| | | | |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2016** | **42,916** | **12,147** | **55,063** |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2015** | **43,766** | **4** | **43,770** |

Mae'r holl asedau anniriaethol ym mherchenogaeth GLlTEM.

| | Technoleg gwybodaeth | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **120,471** | **21** | **120,492** |
| Ychwanegiadau | - | 5 | 5 |
| Gwarediadau | (6) | (22) | (28) |
| Ailbrisio | 1,361 | - | 1,361 |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - |
| Ailddosbarthu | 6,139 | (5,573) | 566 |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | 4,493 | 5,573 | 10,066 |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **132,458** | **4** | **132,462** |
| | | | |
| **Amorteiddio** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **(70,809)** | **-** | **(70,809)** |
| Codwyd o fewn y flwyddyn | (17,168) | - | (17,168) |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ailbrisio | (715) | - | (715) |
| Ailddosbarthu | - | - | - |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **(88,692)** | **-** | **(88,692)** |
| | | | |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2015** | **43,766** | **4** | **43,770** |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2014** | **49,662** | **21** | **49,683** |

Mae'r holl asedau anniriaethol ym mherchenogaeth GLlTEM.

Ar 31 Mawrth 2016 a 31 Mawrth 2015 nid oedd unrhyw asedau anniriaethol sylweddol unigol.

## 12 Offerynnau ariannol

O dan IFRS 7 'Financial Instruments: Disclosures' mae'n ofynnol datgelu'r rhan y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn drwy greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei fusnes.

Gan fod GLlTEM yn cael ei ariannu drwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, nid yw'n agored i'r graddau o risg ariannol neu risg marchnad sy'n wynebu endid busnes. Hefyd mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan lai o lawer mewn creu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn gymwys iddynt yn bennaf. Nid oes pwerau gan GLlTEM i fenthyca neu fuddsoddi arian dros ben. Mae ei asedau a rhwymedigaethau ariannol yn codi o weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd ac nid ydynt yn cael eu dal i warchod rhag risgiau sy'n codi o'r gweithgareddau hyn. Felly nid yw GLlTEM yn agored i risgiau arwyddocaol yng nghyswllt hylifedd, cyfraddau llog neu arian tramor.

Mae risgiau credyd yn codi o asedau ariannol GLlTEM, sef arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, masnach a symiau derbyniadwy eraill ac asedau ariannol eraill. Mae GLlTEM yn agored i risg credyd oherwydd y posibilrwydd o ddiffyg ar ran parti wrth gyflawni ei rwymedigaethau mewn contract a fydd yn arwain at golled ariannol i GLlTEM.

Mae'r risg credyd sy'n gysylltiedig â symiau derbyniadwy GLlTEM yn fach iawn gan fod y rhan fwyaf o weddillau dyledwyr gyda chyrff eraill sy'n gysylltiedig â llywodraeth. Hefyd bydd rheolwyr yn monitro risg credyd yng nghyswllt symiau derbyniadwy yn rheolaidd drwy adolygu oed y symiau derbyniadwy. Y golled fwyaf y mae GLlTEM yn agored iddi yw gwerth cario ei asedau ariannol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

### Gwerthoedd teg

Mae gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol GLlTEM ar 31 Mawrth 2016 a 31 Mawrth 2015 yn cyfateb yn fras i'w llyfrwerthoedd.

## 13 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

### Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn:

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 13,433 | 15,229 |
| Symiau derbyniadwy eraill: | | |
| TAW y gellir ei hadennill | 4,095 | 12,393 |
| Symiau derbyniadwy o fewn yr adran | 35,541 | 47,074 |
| Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd | 24,747 | 30,247 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 4,450 | 1,002 |
| **Cyfanswm y symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | **82,266** | **105,945** |

### Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Symiau derbyniadwy eraill | - | 35 |
| Rhagdaliadau | 1 | 8 |
| **Cyfanswm y symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn** | **1** | **43** |

## 14 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod a gofnodwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian a ddaliwyd ar alw gyda banciau, buddsoddiadau tymor byr eraill sy'n hylifol iawn ac iddynt ddyddiadau aeddfedu gwreiddiol ymhen tri mis neu lai, a gorddrafftiau banc.

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ar ddechrau'r cyfnod | 22,602 | 25,691 |
| Cynnydd net mewn gweddillau arian parod | (8,188) | (3,089) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **14,414** | **22,602** |

### Roedd y gweddillau canlynol yn cael eu dal ar 31 Mawrth:

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 14,338 | 22,526 |
| Arian mewn llaw | 69 | 65 |
| Imprestau | 7 | 11 |
| **Cyfanswm arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | **14,414** | **22,602** |

## 15 Masnach a symiau taladwy eraill

### Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn:

| | 2015–16 | Restated 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | 14,768 | 26,952 |
| Symiau masnach taladwy | 15,267 | - |
| Symiau taladwy eraill | 14,056 | 18,865 |
| Symiau taladwy o fewn yr adran | 44,538 | 63,802 |
| Croniadau ac incwm a ohiriwyd | 117,399 | 144,787 |
| Gweddillau arian parod sy'n daladwy i adrannau llywodraeth eraill | - | 4 |
| Rhan gyfredol y symiau taladwy am y diffyg trosglwyddo pensiwn | 32,687 | 27,977 |
| Rhan gyfredol lesoedd cyllid | 144 | 135 |
| Rhan gyfredol yr elfen a briodolir i lesoedd cyllid mewn contractau PFI ar y fantolen | 8,926 | 8,926 |
| **Cyfanswm y symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | **247,785** | **291,448** |

### Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Yr elfen a briodolir i lesoedd cyllid mewn contractau PFI ar y fantolen | 104,384 | 113,310 |
| Gweddillau benthyciadau awdurdodau lleol | 28,075 | 30,168 |
| Credydwyr cymelldaliadau lesio | 16,839 | 16,951 |
| Rhoi credydwyr ar sail llinell syth | 78,443 | 72,617 |
| Symiau sy'n daladwy am y diffyg trosglwyddo pensiwn | 132,710 | 156,654 |
| Lesoedd cyllid | 9,899 | 10,136 |
| **Cyfanswm y symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn** | **370,350** | **399,836** |

# 16 Nodiadau i'r Datganiad o Lifau Arian Parod

Crynodeb o gostau tybiannol a chostau nad ydynt yn arian parod:

| | 2015–16<br>£000 | 2014–15<br>£000 |
|---|---|---|
| **Costau tybiannol** | | |
| Cyflogau barnwrol o'r Gronfa Gyfunol – tâl a chyflogau | 126,349 | 125,064 |
| Cyflogau barnwrol o'r Gronfa Gyfunol – costau nawdd cymdeithasol | 15,594 | 15,456 |
| Tâl yr archwiliwr allanol | 300 | 320 |
| Ailgodi taliadau adrannol | 106,935 | 101,961 |
| **Cyfanswm y costau tybiannol** | **249,178** | **242,801** |
| | | |
| **Costau nad ydynt yn arian parod** | | |
| (Elw) / Colled ar waredu eiddo a chyfarpar | 543 | (1,862) |
| Gostyngiad yng ngwerth teg eiddo a chyfarpar | 87,353 | (87,473) |
| Lleihad yng ngwerth asedau anniriaethol | 149 | - |
| (Cynnydd) / Gostyngiad yng ngwerth teg asedau anniriaethol | (115) | (106) |
| (Cynnydd) / Gostyngiad yng ngwerth teg asedau a ddaliwyd i'w gwerthu | 453 | (3,919) |
| Grantiau Cyfalaf (Trosglwyddo Eiddo) | - | 615 |
| Rhagdalu Lesoedd Gweithredu – Amorteiddio | - | 5 |
| Rhoi taliadau lesoedd gweithredu ar sail llinell syth | 5,715 | 7,250 |
| Symudiad mewn darpariaethau | 13,607 | 5,187 |
| Symudiad yn y lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy | (45) | 2,254 |
| Dibrisiant | 116,230 | 111,304 |
| Amorteiddio | 8,317 | 17,168 |
| **Cyfanswm costau nad ydynt yn arian parod** | **232,207** | **50,423** |
| | | |
| **Cyfanswm costau tybiannol a chostau nad ydynt yn arian parod** | **481,385** | **293,224** |

## 16.1 Cysoni eiddo a chyfarpar

| | Nodiadau | 2015–16<br>£000 | 2014–15<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau | | | |
| Eiddo a chyfarpar | 9 | 36,046 | 44,253 |
| Ynghyd â: | | | |
| Symudiad mewn croniadau cyfalaf | | 6,781 | (351) |
| **Cyfanswm y pryniadau yn ôl y datganiad o lifau arian parod** | | **42,827** | **43,902** |

## 17 Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Costau ymadael cynnar | Cynllun pensiwn drwy gydweddiad | Dadfeiliadau | Darpariaethau eraill | Cyfanswm | Cyfanswm 2014–15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gweddill ar 1 Ebrill 2015** | **114,210** | **4,908** | **19,698** | **8,436** | **147,252** | **145,244** |
| Darparwyd o fewn y flwyddyn | - | 158 | 8,908 | 13,316 | **22,382** | **5,408** |
| Darpariaethau nad yw'n ofynnol eu hysgrifennu'n ôl | (8,833) | - | - | - | **(8,833)** | **-** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd o fewn y flwyddyn | (6,172) | (209) | (284) | (368) | **(7,033)** | **(8,133)** |
| Dad-ddirwyn disgownt | 3,772 | 174 | - | 2 | **3,948** | **4,733** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2016** | **102,977** | **5,031** | **28,322** | **21,386** | **157,716** | **147,252** |
| | | | | | | |
| **Dadansoddiad o amseriadau disgwyliedig a llifau a ddisgowntiwyd** | | | | | | |
| | | | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 5,613 | 269 | 2,421 | 2,607 | **10,910** | **10,865** |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 26,823 | 1,274 | 7,051 | 937 | **36,085** | **36,028** |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 70,541 | 3,488 | 18,850 | 17,842 | **110,721** | **100,359** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2016** | **102,977** | **5,031** | **28,322** | **21,386** | **157,716** | **147,252** |

## 17.1 Darpariaeth ar gyfer costau ymadael cynnar

**Darparwyd ar gyfer costau buddion ymddeol cynnar sydd heb eu hariannu ar gyfer staff penodol mewn llysoedd ynadon. Mae'r ddarpariaeth yn cyfateb i werth presennol costau'r buddion sy'n daladwy i staff ar delerau Crombie a thelerau ymddeol cynnar llywodraeth leol.**

Yn ogystal â hyn mae'r costau ymadael cynnar yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau ymddeol cynnar sydd heb eu hariannu ar gyfer staff GLlTEM yn PCSPS. Darparwyd hefyd ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ad-drefnu a moderneiddio.

Aseswyd y costau llog yn rhwymedigaeth y cynllun ar sail cyfradd llog o 3.60% (2014–15: 3.55%) ac mae taliadau amcangyfrifedig yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd o 1.37% (2014–15: 1.30%).

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer costau ymadael cynnar a gofnodwyd uchod yn ddarpariaeth ar wahân i gostau'r cynllun ymadael cynnar gwirfoddol a gofnodwyd yn nodyn 3.

## 17.2 Cynllun pensiwn drwy gydweddiad

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y cynllun pensiwn drwy gydweddiad yn ymwneud â thri chynllun pensiwn ar gyfer y Tribiwnlys Digolledu am Anafiadau Troseddol, y Siambr Mewnfudo a Lloches a'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Mae gan y cynlluniau hyn ddau aelod, 13 aelod a 23 aelod yn y drefn honno.

Prisiwyd rhwymedigaethau'r cynlluniau gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2016 ac mae'r llog a chostau gwasanaeth cyfredol cysylltiedig wedi'u codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Gelwir y cynlluniau'n 'gynlluniau pensiwn drwy gydweddiad' am eu bod yn debyg i PCSPS. Fodd bynnag, maent yn cael eu hariannu gan ddarpariaethau o'r cyllid a roddwyd i'r adran drwy bleidlais ac mae'r taliadau pensiwn yn cael eu gweinyddu gan yr adran a'u gwneud drwy system y gyflogres.

Yr ennill actiwaraidd cyfansymiol ar rwymedigaethau'r cynlluniau yn 2015–16 oedd £58,000. (2014–15: colled o £221,000).

## 18 Ymrwymiadau cyfalaf

Ymrwymiadau cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn nad ydynt wedi'u cynnwys fel arall yn y cyfrifon hyn:

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Datblygiadau eiddo | 4,694 | 17,366 |
| Asedau anniriaethol | 866 | - |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau cyfalaf** | **5,560** | **17,366** |

## 19 Lesoedd gweithredu

Mae GLlTEM yn lesio amrywiaeth o diroedd ac adeiladau o dan gytundebau lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu. Cyfleusterau llys yw'r rhan fwyaf o'r tiroedd ac adeiladau ac mae cyfnodau'r lesoedd ar eu cyfer yn amrywio o 3 i 40 mlynedd. Nid oes opsiynau prynu yn y lesoedd gweithredu, er bod rhai ohonynt yn cynnwys cymalau ar gyfer cynnig pris uwch a thelerau adnewyddu. Bydd trefniadau i adnewyddu'n cael eu negodi â'r lesydd yn unol â darpariaethau'r cytundebau les penodol.

Yn ogystal â hyn, mae GLlTEM yn lesio cerbydau o dan gytundebau lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu. Mae cyfnodau'r lesoedd rhwng un a chwe blynedd.

Mae'r gwariant ar lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn wedi'i ddatgelu yn nodyn 4.

Cyfanswm y taliadau lesio lleiaf yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu ar gyfer y ddau gyfnod canlynol yw::

| | | 2015–16 | | | 2014–15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir ac adeiladau | Arall | Cyfanswm | Tir ac adeiladau | Arall | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 77,339 | 579 | 77,918 | 76,114 | 733 | 76,847 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | 272,629 | 690 | 273,319 | 266,354 | 814 | 267,168 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 983,833 | - | 983,833 | 919,640 | - | 919,640 |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredu** | **1,333,801** | **1,269** | **1,335,070** | **1,262,108** | **1,547** | **1,263,655** |

## 20 Lesoedd cyllid

Mae GLlTEM yn lesio amrywiaeth o adeiladau o dan gytundebau lesoedd cyllid na ellir eu diddymu.

Cyfanswm y taliadau lesio lleiaf yn y dyfodol o dan lesoedd cyllid na ellir eu diddymu ar gyfer y ddau gyfnod canlynol ar 31 Mawrth 2016 yw:

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 799 | 812 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | 2,915 | 3,069 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 22,207 | 22,969 |
| **Taliadau lesio lleiaf yn y dyfodol** | **25,921** | **26,850** |
| Traul llog yn y dyfodol | (15,878) | (16,579) |
| **Cyfanswm gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **10,043** | **10,271** |

Gwerth presennol y rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid ar gyfer y cyfnodau canlynol yw:

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 144 | 135 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | 353 | 460 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 9,546 | 9,676 |
| **Cyfanswm gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **10,043** | **10,271** |

Mae GLlTEM yn lesio amrywiaeth o adeiladau o dan gytundebau lesoedd cyllid na ellir eu diddymu. Cyfleusterau llys yw'r rhan fwyaf o'r adeiladau ac mae cyfnod eu lesoedd yn amrywio o 20 i 999 o flynyddoedd. Nid oes opsiynau prynu yn y lesoedd cyllid, er bod rhai ohonynt yn cynnwys cymalau ar gyfer cynnig pris uwch a thelerau adnewyddu. Bydd trefniadau i adnewyddu'n cael eu negodi â'r lesydd yn unol â darpariaethau'r cytundebau les penodol.

## 21 Mentrau cyllid preifat

Mae GLlTEM wedi gwneud wyth trefniant consesiwn gwasanaeth menter cyllid preifat (PFI). Mae crynodeb isod o bob un o'r contractau PFI:

| Enw'r prosiect | Dyddiad cychwyn y contract | Hyd (blynyddoedd) | Ar/oddi ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Gwerth cyfalaf cychwynnol (£miliwn) | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerwysg | Tachwedd 2002 | 30 | Arno | 20.1 | Darparu adeilad llys yn cynnwys pedwar llys troseddol, un llys sifil a phedair ystafell wrandawiadau i'r Barnwr Rhanbarth. Ar ddiwedd cyfnod y contract, bydd yr adeilad yn dychwelyd i GLlTEM heb gost. |
| East Anglia | Hydref 2002 | 25 | Arno | 34.5 | Darparu canolfannau Llys y Goron yn Ipswich a Chaergrawnt. Mae adeilad Ipswich yn cynnwys pum ystafell llys troseddol; mae adeilad Caergrawnt yn cynnwys tair ystafell llys troseddol. Ar ddiwedd cyfnod y contract, bydd yr adeiladau yn Ipswich a Chaergrawnt yn dychwelyd i GLlTEM heb gost. |
| Sheffield | Tachwedd 2002 | 25 | Arno | 7.7 | Darparu Canolfan Gwrandawiadau Teulu yn Sheffield. Ar ddiwedd cyfnod y contract, bydd opsiwn i GLlTEM gaffael yr is-les am ei gwerth ar y farchnad agored neu £2 miliwn, pa un bynnag yw'r isaf. |
| Llysoedd Ynadon Swydd Derby | Awst 2001 | 27 | Arno | 29.5 | Darparu adeiladau â gwasanaethau ar gyfer llysoedd ynadon yn New Mills, Chesterfield a Derby. Gellir ymestyn cyfnod y contract (os cytunir ar delerau sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr) hyd at bum mlynedd. |
| Llysoedd Ynadon Henffordd a Chaerwrangon | Mawrth 2000 | 25 | Arno | 30.6 | Darparu adeiladau â gwasanaethau ar gyfer llysoedd ynadon yn Bromsgrove, Kidderminster, Caerwrangon a Redditch. Gellir ymestyn cyfnod y contract 10 mlynedd ychwanegol. |
| Llys Ynadon Manceinion | Mawrth 2001 | 25 | Arno | 32.9 | Darparu adeilad llys â 18 o ystafelloedd llys. |

| Enw'r prosiect | Dyddiad cychwyn y contract | Hyd (blynyddoedd) | Ar/oddi ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Gwerth cyfalaf cychwynnol (£miliwn) | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Llys Ynadon Humberside | Mawrth 2000 | 25 | Arno | 21.6 | Darparu adeiladau llys ynadon â gwasanaethau yn Hull, Beverley a Bridlington. Wedi iddo ddod i ben, mae opsiwn i GLlTEM gymryd yr asedau'n ôl am swm enwol o £3.0 miliwn. |
| Llys Ynadon Avon a Gwlad yr Haf | Awst 2004 | 27 | Arno | 46.6 | Darparu adeiladau â gwasanaethau ar gyfer llysoedd a swyddfeydd ynadon ym Mryste, Weston-Super-Mare a Flax Bourton. |

## 21.1 Contractau ar y fantolen

Mae manylion y taliadau a briodolir i lesoedd cyllid ar gyfer y ddau gyfnod canlynol yn y tabl isod:

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhenti sy'n ddyledus ddim hwyrach nag un flwyddyn | 15,434 | 15,970 |
| Rhenti sy'n ddyledus yn hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 56,382 | 58,524 |
| Rhenti sy'n ddyledus yn hwyrach na phum mlynedd | 87,694 | 100,986 |
| **Taliadau lesio lleiaf yn y dyfodol** | **159,510** | **175,480** |
| Traul llog yn y dyfodol | (46,200) | (53,244) |
| **Gwerth presennol y taliadau lesio lleiaf** | **113,310** | **122,236** |

Mae manylion lleiafswm yr elfen tâl gwasanaeth ar gyfer y ddau gyfnod canlynol yn y tabl isod:

| | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Tâl gwasanaeth sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 23,338 | 23,163 |
| Tâl gwasanaeth sy'n ddyledus yn hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 93,350 | 92,652 |
| Tâl gwasanaeth sy'n ddyledus yn hwyrach na phum mlynedd | 169,972 | 171,059 |
| **Cyfanswm** | **286,660** | **286,874** |

## 21.2 Y swm a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Y cyfanswm a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas ag elfen gwasanaethau contractau PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill sydd wedi'u cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol oedd £33.4 miliwn (2014–15: £37.8 miliwn).

## 22 Rhwymedigaethau digwyddiadol

### Hawliadau gan ddeiliaid swyddi barnwrol a dalwyd drwy ffioedd:

Darperir hawliau pensiwn i farnwyr cyflogedig o dan y Cynllun Pensiwn Barnwrol. Ym Medi 2005, roedd deiliad swydd farnwrol wedi ymddeol a dalwyd drwy ffioedd wedi dod â hawliad i'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn ceisio triniaeth ôl-weithredol gyfartal â deiliaid swyddi barnwrol cyflogedig drwy hawlio hawliau pensiwn o dan Reoliadau Gweithwyr Rhan-amser.

Mewn gwrandawiad yng Ngoruchaf Lys y DU ar 6 Chwefror 2013 dyfarnwyd bod hawl gan ddeiliad swydd farnwrol wedi ymddeol a dalwyd drwy ffioedd i gael pensiwn ar delerau sy'n cyfateb i'r rheini ar gyfer deiliad swydd farnwrol cyflogedig. Roedd yr achos arweiniol hwn wedi gosod y cynsail ar gyfer achosion eraill a oedd wedi'u gohirio a oedd, yn ogystal â hawliau pensiwn, yn ymwneud â hawliau heblaw pensiwn mewn perthynas â thelerau ac amodau cyflogaeth deiliaid swyddi barnwrol a delir drwy ffioedd. Er enghraifft, tâl gwyliau a thâl salwch, taliadau mewn perthynas â hyfforddiant a ffioedd paratoi, codiadau mewn ffioedd dyddiol a ffioedd am ganslo lle nad yw trefniadau bwcio wedi'u hanrhydeddu.

Ar sail y dyfarniad gan Oruchaf Lys y DU, y dyfarniadau diweddaraf gan y Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth a hawliadau am dâl a broseswyd yn ystod 2014–15, paratowyd amcangyfrif o'r rhwymedigaeth i'r grŵp o farnwyr a dalwyd drwy ffioedd y mae'r hawlwyr cymwys yn perthyn iddo. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys yr hawl pensiwn, gydag elfen ar wahân o'r rhwymedigaeth pensiwn yn ymwneud â barnwyr a dalwyd drwy ffioedd sydd wedi ymddeol, a Dyfarndaliad Gwasanaeth Barnwrol sy'n digolledu rhai sydd wedi ymddeol am y dreth a dalwyd ar gyfandaliadau pensiwn a dalwyd wedi iddynt ymddeol. Mae'r darpariaethau sydd wedi'u cydnabod gan y Cynllun Pensiwn Barnwrol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r hawliadau hyn ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Yn ystod 2013–14 a 2014–15, cynhaliwyd nifer o wrandawiadau yn y Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth i ymdrin â maint y pensiwn roedd deiliaid swyddi barnwrol yn gymwys i'w hawlio. Roedd y gwrandawiadau hyn wedi ymdrin â hawliadau am hawliau heblaw pensiwn sy'n ymwneud â thelerau ac amodau cyflogaeth deiliaid swyddi barnwrol a dalwyd drwy ffioedd.

Deliwyd â'r hawliadau ynghylch hawliau heblaw pensiwn yng ngwrandawiad rhagarweiniol y Tribiwnlys Cyflogaeth yn Rhagfyr 2013 ac mewn nifer o wrandawiadau ar ôl hynny, a gwnaed dyfarniadau ynghylch pa hawliau heblaw pensiwn y gellid eu hawlio a pha fathau o ddeiliaid swyddi barnwrol a oedd yn gymwys i wneud hawliadau o'r fath. Paratowyd amcangyfrif o'r rhwymedigaeth ar faterion heblaw pensiwn i'r grŵp o farnwyr a dalwyd drwy ffioedd y mae'r hawlwyr cymwys yn perthyn iddo. Rhoddwyd cyfrif am yr hawliau hyn mewn materion heblaw pensiwn yng nghyfrifon y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Roedd nifer mawr o hawliadau a ohiriwyd ac apelau a gyflwynwyd a oedd heb eu gwrando cyn diwedd y cyfnod adrodd neu cyn cwblhau'r cyfrifon hyn. Mae'r hawliadau hyn yn parhau'n rhwymedigaethau digwyddiadol. Ni wnaed amcangyfrif mewn perthynas â'r achosion a ohiriwyd oherwydd bydd y posibilrwydd o wrando achos a ohiriwyd yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr hawlydd a chan fod nifer mawr o hawliadau a ohiriwyd ac apelau a oedd heb eu gwrando, nid oedd hyn yn ymarferol

Rhwymedigaethau digwyddiadol eraill::
Mae GLlTEM yn ymwneud â nifer o achosion cyfreithiol sy'n delio â hawliadau am gydnabyddiaeth, digollediad a materion eraill. Yr amcangyfrif o'r gost am setlo i GLlTEM yw £5.9 miliwn (2014–15: £5.6 miliwn).

Mae gan GLlTEM un rhwymedigaeth ddigwyddiadol na ellir ei mesur ar hyn o bryd. Mae'r Goruchaf Lys wedi rhoi caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Llys Apêl ynghylch cyflwyno ffioedd y Tribiwnlys Cyflogaeth. Ni ellir mesur unrhyw rwymedigaeth ariannol ddichonol ar GLlTEM yn gywir.

## 23 Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae GLlTEM yn Asiantaeth Weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, sy'n cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae GLlTEM wedi cael trafodion sylweddol â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac endidau eraill y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael ei hystyried yn rhiant-endid iddynt. Mae GLlTEM wedi cael trafodion sylweddol hefyd â nifer o adrannau llywodraeth eraill a cyrff llywodraeth ganolog. Yn unol â'r gofynion yn FreM, ni adroddwyd ar y trafodion hyn.

Mae Registry Trust Cyfyngedig yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant heb gyfrannau cyfalaf. Ef sy'n cadw Cofrestr Dyfarniadau'r Llysoedd Sirol ar ran yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Y refeniw a gafwyd oddi wrth Registry Trust Cyfyngedig o fewn y flwyddyn oedd £0.6 miliwn (2014–15: £0.6 miliwn) gyda chyfanswm gweddill dyledwr yn ddyledus i GLlTEM ar 31 Mawrth 2016 o £0.2 miliwn (2014–15: £0.2 miliwn).

Roedd perthynas agos i Steve Gillespie, Cyfarwyddwr, Cyllid a Llywodraethu (hyd 12 Ebrill 2015), wedi'i gyflogi gan GLlTEM o fis Medi 2014 ar gontract cyfnod penodol o 12 mis.

Mae Ian Playford, Cyfarwyddwr Anweithredol, yn gyfarwyddwr ar Onboard Executive Cyf sy'n darparu gwasanaethau ymgynghorwyr i GLlTEM. Y gwariant o fewn y flwyddyn oedd £1.6 mil (2014–15: dim) gyda chyfanswm gweddill credydwr ar 31 Mawrth 2016 o £1.6 mil (2014–15: dim).

Nid oes unrhyw Aelodau Bwrdd na phartïon cysylltiedig eraill wedi cael trafodion sylweddol â GLlTEM yn ystod 2015–16 a 2014–15.

Mae nifer o drefniadau hefyd rhwng GLlTEM a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'i chyrff adrannol sydd wedi'u dynodi'n drefniadau ailgodi taliadau o fewn yr adran. Gwneir y taliadau hyn am ddefnyddio asedau a gwasanaethau eraill, ac maent yn cael eu cofnodi'n draul ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr bob blwyddyn wrth eu hysgwyddo. Nid yw'n ymarferol gwahanu'r taliadau am asedau oddi wrth daliadau am wasanaethau eraill mewn ffordd ddibynadwy. Nid oes dyddiad terfyn diffiniedig yn y trefniadau. Mae'r taliadau hefyd yn cynnwys taliadau am elfennau nad ydynt yn ymwneud â lesoedd yn y trefniadau.

## 24 Gweddillau trydydd partïon

Mae GLlTEM yn dal nifer o weddillau arian parod ar ran trydydd partïon. Mae'r rhain yn cynnwys arian mechnïaeth ac arian a ddelir ar ran defnyddwyr llysoedd sy'n cael ei gymryd a'i ddal tra bydd yr achos yn mynd ymlaen. Ar 31 Mawrth 2016 y symiau hyn oedd £21,759,000 (2014–15: £17,942,000) ac nid ydynt wedi'u cydnabod yn y cyfrifon yn unol â'r gofynion yn FReM.

## 25 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

IYn unol â'r gofynion yn IAS 10 'Events After the Reporting Period', mae digwyddiadau ar ôl cwblhau'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cael eu hystyried hyd y dyddiad y rhoddir awdurdod i gyhoeddi'r Cyfrifon. Mae hyn wedi'i ddehongli fel yr un dyddiad â dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Roedd canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin o blaid ymadael gan y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Nid yw'r digwyddiad hwn yn galw am addasu. Nid oes effaith arwyddocaol ar y datganiadau ariannol hyn

## 26 Newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu

Mae GLlTEM wedi adolygu'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer ei ffrydiau incwm sylweddol. Drwy wneud hyn, nodwyd bod angen pennu pwyntiau cydnabod diwygiedig ar gyfer incwm o ffioedd profiant ac incwm o ffioedd gwrandawiadau yn y Llys Sirol a fydd yn well o ran adlewyrchu'r adeg y rhoddwyd y gwasanaeth.

Mae hyn wedi arwain at ailddatgan gweddillau a thrafodion a gofnodwyd o'r blaen ac mae'r diwygiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn yr ailddatganiadau o'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gyfer 2014–15 gan gynnwys y gweddillau cychwynnol fel y nodir isod.

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Fel yr adroddwyd cynt 2014–15 | Wedi'i addasu | Wedi'i ailddatgan 2014–15 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Incwm gweithredu | (652,111) | (2,058) | (654,169) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | **(652,111)** | **(2,058)** | **(654,169)** |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | **1,724,491** | **-** | **1,724,491** |
| **Gwariant gweithredu net** | **1,072,380** | **(2,058)** | **1,070,322** |
| Costau cyllid | 25,105 | - | 25,105 |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | **1,097,485** | **(2,058)** | **1,095,427** |

## Datganiad o Lifau Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Fel yr adroddwyd cynt 2014–15 | Wedi'i addasu | Wedi'i ailddatgan 2014–15 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol** | **3,207,878** | **-** | **3,207,878** |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | **138,220** | **-** | **138,220** |
| **Cyfanswm yr asedau** | **3,346,098** | **-** | **3,346,098** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | (292,799) | 1,351 | (291,448) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | (10,865) | - | (10,865) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | **(303,664)** | **1,351** | **(302,313)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | **3,042,434** | **1,351** | **3,043,785** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | **(536,223)** | **-** | **(536,223)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | **2,506,211** | **1,351** | **2,507,562** |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | 1,894,355 | 1,351 | 1,895,706 |
| Cronfa ailbrisio | 611,856 | - | 611,856 |
| **Cyfanswm ecwiti'r trethdalwyr** | **2,506,211** | **1,351** | **2,507,562** |

## Datganiad o Lifau Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Fel yr adroddwyd cynt 2014–15 £000 | Wedi'i addasu | Wedi'i ailddatgan 2014–15 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net am y flwyddyn | (1,097,485) | 2,058 | (1,095,427) |
| Addasiadau ar gyfer costau tybiannol a chostau nad ydynt yn arian parod | 293,224 | | 293,224 |
| Addasiadau ar gyfer costau cyllid | 25,105 | | 25,105 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | (98,561) | | (98,561) |
| Rhagdalu lesoedd gweithredu | 130 | | 130 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 202,842 | (2,058) | 200,784 |
| Gweddillau trydydd partïon | - | | - |
| Defnydd o ddarpariaethau | (8,133) | | (8,133) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **(682,878)** | **-** | **(682,878)** |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | **(27,748)** | **-** | **(27,748)** |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau ariannu** | **707,537** | **-** | **707,537** |
| **Cynnydd / gostyngiad net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod o fewn y cyfnod** | **(3,089)** | **-** | **(3,089)** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | **25,691** | | **25,691** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | **22,602** | **-** | **22,602** |

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Fel yr adroddwyd cynt 2014–15 £000 | Wedi'i addasu £000 | Wedi'i ailddatgan 2014–15 £000 |
|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2014** | **1,864,611** | **(707)** | **1,863,904** |
| Cyllid oddi wrth y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 729,000 | - | 729,000 |
| Setliad rhwng cwmnïau â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | 132,146 | - | 132,146 |
| Gwariant gweithredu net | (1,097,485) | 2,058 | (1,095,427) |
| Gwariant tybiannol: | | | |
| Cyflogau barnwrol o'r gronfa gyfunol | 140,520 | - | 140,520 |
| Tâl yr archwilwyr allanol | 320 | - | 320 |
| Ailgodi taliadau o fewn yr adran | 101,961 | - | 101,961 |
| Ailbrisio eiddo a chyfarpar | - | - | - |
| Ailbrisio asedau anniriaethol | - | - | - |
| Ailddosbarthu o'r gronfa ailbrisio | 23,503 | - | 23,503 |
| Ennill actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | (221) | - | (221) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2015** | **1,894,355** | **1,351** | **1,895,706** |

## Atodiad A – Deddfwriaeth ar ffioedd a thaliadau

Mae'r rhan fwyaf o'r gorchmynion ffioedd cyfredol wedi'u rhestru isod a gellir eu gweld hefyd yn http://www.legislation.gov.uk

- **Mae Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil ac Achosion Teulu (Diwygio) 2015 576 [L7] yn diwygio:**
- Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008/1053[L5] – sylwer bod Gorchymyn Ffioedd 2008 wedi'i ddiwygio hefyd gan 2008/2853[L19], 2009/1498[L15]; 2011/586[L2], 2013/1410[L13] a 2014/874[L17]
- **Mae Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu (Diwygio Rhif 2) 2015/1419[L14]** yn diwygio
- Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008/1054[L6] – sylwer bod Gorchymyn Ffioedd 2008 wedi'i ddiwygio hefyd gan 2008/2856[L22], 2008/316[L27], 2009/1499[L16], 2010/1916[L10], 2011/587[L3], 2013/1407[L10], 2014/877[L20] a 2015/687[L10]

- **Mae Gorchmynion Ffioedd Profiant Di-gynnen (Diwygio) 2014 Rhif 876 [L19]** yn diwygio Gorchymyn Ffioedd Profiant Di-gynnen 2004/3210[L22] – sylwer bod Gorchmynion Ffioedd 2004 wedi'u diwygio hefyd gan 2007/2174[L14], 2008/2854[L20], 2009/1497[L14], 2011/588[L4], 2013/1408[L11]
- **Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon (Diwygio) 2014 Rhif 875 [L.18]** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008/1052[L4] – sylwer bod Gorchymyn Ffioedd 2008 hefyd wedi'i ddiwygio gan 2008/2855[L21], 2009/1496[L13], 2010/731[L4], 2010/1917[L11], 2013/1409[L12] a 2014/875[L18]
- **Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod (Diwygio) 2009/513[L3]** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007/1745[L13]
- **Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) 2011/2841**.
- **Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiadau Barnwrol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014/878[L.21]**, sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiadau Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011/2344 – sylwer bod Gorchymyn Ffioedd 2011 wedi'i ddiwygio hefyd gan 2013/2069
- **Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) (Diwygio) 2013 Rhif 1199** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Siambr Tiroedd 2009/1114 – sylwer bod Gorchymyn Ffioedd 2009 wedi'i ddiwygio hefyd gan 2010/2601
- **Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) (Diwygio) 2014/1182** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) 2013/1179
- **Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hapchwarae) (Diwygio) 2010 Rhif 633**, sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hapchwarae) 2010 Rhif 42
- **Gorchymyn Cydnabod Rhywedd (Ffioedd am Geisiadau) (Diwygio) 2012/920** sy'n diwygio Gorchymyn Cydnabod Rhywedd (Ffioedd am Geisiadau) 2006/758 – sylwer bod Gorchymyn Ffioedd 2006 wedi'i ddiwygio hefyd gan 2007/839, 2008/715, 2009/489, 2011/628,
- **Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth (Diwygio) 2015 /414** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth 2013 Rhif 1893

ISBN 978-1-4741-3401-9
9 781474 134019